



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 10 Hydref 2000**

**Tuesday 10 October 2000**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Penodiad i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol  
*Appointment to the Local Government Partnership Council*
- 4 Etholiadau i Bwyllgorau'r Cynulliad  
*Elections to Assembly Committees*
- 15 Datganiad Personol gan Tom Middlehurst  
*Personal Statement by Tom Middlehurst*
- 17 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd  
*Questions to the First Secretary*
- 33 Datganiad ar y Cytundeb Partneriaeth  
*Statement on the Partnership Agreement*
- 47 Datganiad ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gyflenwadau Tanwydd  
*Statement on the Memorandum of Understanding on Fuel Supplies*
- 62 Pwyntiau o Drefn  
*Points of Order*
- 67 Datganiad Busnes  
*Business Statement*
- 73 Pwynt o Drefn  
*Point of Order*
- 74 Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog  
*Changes to the Standing Orders*
- 93 Creu Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Llywydd  
*Establishment of a Budget for the Office of the Presiding Officer*
- 97 Addasiadau i Gyllidebau Prif Grwpiau Gwariant  
*Budgetary Adjustments in Main Expenditure Groups*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Penodiad i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol  
Appointment to the Local Government Partnership Council**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiau fod  
I propose that

*the National Assembly, in accordance with paragraphs 1(1) and 4 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, appoints Cllr E. Caerwyn Roberts MBE JP (National Park Authorities) to be a member of the Local Government Partnership Council in place of Cllr Gordon Cawood.*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraffau 1(1) a 4 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r Cynghorydd E. Caerwyn Roberts MBE YH (Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn lle'r Cynghorydd Gordon Cawood.*

*Cynnig: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 43, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod

Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

### **Etholiadau i Bwyllgorau'r Cynulliad Elections to Assembly Committees**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** **Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigiau fod  
I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects Janet Ryder to its Agriculture and Rural Development Committee in place of Janet Davies.* *y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Janet Ryder i'w Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn lle Janet Davies.*

*Cynnig: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Jarman, Pauline  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David

Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects Dafydd Wigley to its Economic Development Committee in place of Helen Mary Jones.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Dafydd Wigley i'w Bwyllgor Datblygu Economaidd yn lle Helen Mary Jones.*

*Cynnig: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw

Marek, John  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects David Lloyd to its Local Government and Housing Committee in place of Owen John Thomas.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol David Lloyd i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Owen John Thomas.*

*Cynnig: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 47, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth

Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects Cynog Dafis to its Pre-16 Education, Schools and Early Learning Committee in place of Pauline Jarman.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Cynog Dafis i'w Bwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn lle Pauline Jarman.*

*Cynnig: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann

Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects Owen John Thomas to its Post-16 Education and Training Committee in place of Jocelyn Davies.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Owen John Thomas i'w Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn lle Jocelyn Davies.*

*Cynnig: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 47, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian



Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 59(2) of the Government of Wales Act 1998, elects Pauline Jarman to its Legislation Committee in place of Jocelyn Davies.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Pauline Jarman i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Jocelyn Davies.*

*Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine

Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 16.2 elects Cynog Dafis to its Committee on Standards of Conduct in place of Janet Davies.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 16.2 yn ethol Cynog Dafis i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Janet Davies.*

*Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William

Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 15.4 elects Ieuan Wyn Jones to its Committee on European Affairs in place of Jocelyn Davies.*

**Andrew Davies:** Cynigiad fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 15.4 yn ethol Ieuan Wyn Jones i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd yn lle Jocelyn Davies.*

*Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val

German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hancock, Brian  
 Hart, Edwina  
 Humphreys, Christine  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Richards, Rod  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Members to its Environment, Planning and Transport Committee: Rhodri Glyn Thomas in place of Gareth Jones, and Helen Mary Jones in place of Jocelyn Davies.*

**Andrew Davies:** Cynigiau fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth: Rhodri Glyn Thomas yn lle Gareth Jones, a Helen Mary Jones yn lle Jocelyn Davies.*

*Cynnig: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane

Davies, Andrew  
 Davies, Geraint  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 Edwards, Richard  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 Feld, Val  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hancock, Brian  
 Hart, Edwina  
 Humphreys, Christine  
 Hutt, Jane  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Richards, Rod  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion adopted.*

**Andrew Davies:** I propose that

*the National Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Members to its Health and Social Services Committee: Pauline Jarman in place of Geraint Davies, and Jocelyn Davies in place of Helen Mary Jones.*

**Andrew Davies:** Cynigiau fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pauline Jarman yn lle Geraint Davies, a Jocelyn Davies yn lle Helen Mary Jones.*

*Cynnig: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Motion: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Geraint  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 Edwards, Richard  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 Feld, Val  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hancock, Brian  
 Hart, Edwina  
 Humphreys, Christine  
 Hutt, Jane  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Richards, Rod  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion adopted.*

### **Datganiad Personol gan Tom Middlehurst Personal Statement by Tom Middlehurst**

**Tom Middlehurst:** Llywydd, I thank you for the opportunity to address the Assembly this afternoon. Members will be aware that I wrote to the First Secretary yesterday resigning from my post in the Assembly's

**Tom Middlehurst:** Lywydd, diolchaf ichi am y cyfle i annerch y Cynulliad y prynhawn yma. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd ddoe yn ymddiswyddo o'm swydd yng

Cabinet. It is important that I record my decision in the official record of Assembly proceedings. I go without any bitterness or rancour. On the contrary, it has been a great privilege to have served in the Cabinet for its first 17 months. It has been extremely demanding, rewarding and, on many occasions, even enjoyable.

This has been the first exercise in devolved self-government in modern Wales and I have been honoured to play my part. I have been a willing ambassador for the Assembly within and outside Wales. I have always promoted positive images and the opportunities and the potential benefits that this Assembly can deliver for our people.

In my time in office and within my responsibilities, we have made substantial progress in a relatively short time. To provide one example—and I will bore you even though you have heard too much of this—I am convinced that the Assembly's education and training action plan will play a huge part in the necessary task of modernising the Welsh economy. That is a policy made in Wales as a testament of the value of devolution.

I thank the many Assembly officials who have supported me in office. It is often only on these occasions that they get a mention and the thanks that they deserve. I also thank members of the Assembly's Post-16 Education and Training Committee. We have worked well together across all political parties and shown in practice how inclusive politics can generate the ideas to take Wales forward. There is much work in progress in the Committee, which will bring positive benefits to our people. I pay tribute to Cynog Dafis, who has chaired the Committee effectively. Our partnership has been fruitful.

2:10 p.m.

Having said that, there is a need for greater stability in the process of government created by the Assembly. There has been too great an indulgence in gesture politics, where

Nghabinet y Cynulliad. Mae'n bwysig fy mod yn cofnodi fy mhenderfyniad yn y cofnod swyddogol o drafodion y Cynulliad. Af heb unrhyw chwerwder na chasineb. I'r gwrthwyneb, bu'n fraint fawr i wasanaethu yn y Cabinet yn ystod ei 17 mis cyntaf. Bu'n waith hynod o drwm, boddhaus ac, ar adegau, yn waith a roddodd fwynhad imi hyd yn oed.

Hwn oedd yr ymarfer cyntaf mewn hunanlywodraeth ddatganoledig yn y Gymru fodern a bu'n anrhydedd imi gael chwarae fy rhan. Bûm yn llysgennad parod dros y Cynulliad o fewn Cymru a'r tu allan iddi. Yr wyf bob amser wedi hyrwyddo delweddau cadarnhaol a'r cyfleoedd a'r manteision posibl y gall y Cynulliad hwn eu cyflwyno i'n pobl.

Yn ystod fy nghyfnod yn fy swydd ac o fewn fy nghyfrifoldebau, yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr. I roi un enghraifft—ac fe'ch diflasaf er eich bod wedi clywed gormod o hyn—yr wyf yn argyhoeddedig y bydd cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant y Cynulliad yn chwarae rhan enfawr yn y dasg angenrheidiol o foderneiddio economi Cymru. Polisi a wnaethpwyd yng Nghymru yw hwnnw sydd yn dyst i werth datganoli.

Diolchaf i'r llu o swyddogion y Cynulliad sydd wedi fy nghefnogi yn fy swydd. Yn aml, dim ond ar adegau fel hyn y cânt eu crybwyll ac y cânt ddiolch dyledus. Diolchaf hefyd i aelodau Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad. Yr ydym wedi cydweithio'n dda ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol ac wedi dangos yn ymarferol sut y gall gwleidyddiaeth gynhwysol ysgogi syniadau i arwain Cymru yn ei blaen. Mae llawer o waith ar y gweill yn y Pwyllgor, a fydd yn dod â buddiannau cadarnhaol i'n pobl. Talaf deyrnged i Cynog Dafis, sydd wedi cadeirio'r Pwyllgor yn effeithiol. Bu ein partneriaeth yn ffrwythlon.

Wedi dweud hynny, mae angen mwy o sefydlogrwydd yn y broses o lywodraethu a grëwyd gan y Cynulliad. Bu llawer gormod o ymblesera mewn gwleidyddiaeth sydd ond yn

Assembly Members have sought a headline through petty obstruction and demeaning personalisation of politics. I regret the censure motions against my former Cabinet colleague, Christine Gwyther. I continue to regret the vote of no confidence in Alun Michael. Alun said then that the European Objective 1 funding issue would be sorted out in the comprehensive spending review. I hope that the Assembly now recognises that he was right.

We have all been learning the process of self-government over the past 17 months. Inevitably, there is more learning to be done by us all in the Assembly. The need for learning also extends to the media in Wales. There needs to be far more regard to policies and evidence, and far less regard to personalities. The people of Wales need a more mature media. We need newspapers that report fairly and objectively while retaining their political—I mean editorial—integrity. I was probably right the first time. We all have a duty to make the Assembly work and that extends to the media, which is able to exercise considerable influence.

In creating the stability that the Assembly needs, I have been eager to work with all parties and I have participated with Edwina Hart, for example, in long and detailed work in preparing the ground for all-party agreement on a three-year budget and the policy programme. I pay tribute to Edwina's work and the way in which she approaches this necessary task. I also pay tribute to my Cabinet colleagues. We have worked well together in addressing our responsibilities and in meeting the needs of the people of Wales. We have been well served in the Assembly by people of dedication and integrity.

The reason for my resignation is simple. I do not accept the need for the Labour administration to invite the Assembly's fourth party into a coalition, with two Liberal Democrats taking seats in the Cabinet. I do not accept that the leader of the Assembly's

arwyddion, lle mae Aelodau'r Cynulliad wedi ceisio cael pennawd drwy rwystrau pitw a thrwy bersonoli gwleidyddiaeth mewn ffordd ddiraddiol. Mae'n edifar gennyf am y cynigion o gerydd yn erbyn fy nghyn gyd-aelod Cabinet, Christine Gwyther. Parhaf i fod yn edifar am y cynnig o ddiffyg hyder yn Alun Michael. Dywedodd Alun bryd hynny y câi'r mater o arian Amcan 1 Ewropeaidd ei ddatrys yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Gobeithiaf fod y Cynulliad bellach yn cydnabod mai ef oedd yn iawn.

Yr ydym oll wedi bod yn dysgu'r broses o hunanlywodraeth dros yr 17 mis diwethaf. Yn anochel, mae mwy i'w ddysgu gan bob un ohonom yn y Cynulliad. Ymestynna'r angen i ddysgu hefyd i'r cyfryngau yng Nghymru. Mae angen rhoi llawer mwy o ystyriaeth i bolisiau a thystiolaeth, a llawer llai o ystyriaeth i bersonoliaethau. Mae angen cyfryngau mwy aeddfed ar bobl Cymru. Mae angen papurau newydd arnom sydd yn rhoi adroddiadau teg a gwrthrychol tra'n cadw eu hintegredd gwleidyddol—golygyddol hynny yw. Yr oeddwn fwy na thebyg yn gywir y tro cyntaf. Mae gan bob un ohonom ddyletswydd i wneud i'r Cynulliad weithio ac mae hynny'n ymestyn i'r cyfryngau, a all arfer cryn ddylanwad.

Wrth greu'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar y Cynulliad, bûm yn awyddus i weithio gyda phob plaid a chymerais ran gydag Edwina Hart, er enghraifft, mewn gwaith hir a manwl wrth fraenaru'r tir ar gyfer cytundeb pob plaid ar gyllideb tair blynedd a'r rhaglen bolisi. Talaf derynged i waith Edwina a'r ffordd y mae'n mynd ati i gyflawni'r dasg angenrheidiol hon. Talaf derynged hefyd i'm cyd-aelodau Cabinet. Cydweithiasom yn dda o ran mynd i'r afael â'n cyfrifoldebau a chwrrd ag anghenion pobl Cymru. Mae pobl ymrwymedig a gonest wedi ein gwasanaethu'n dda yn y Cynulliad.

Mae'r rheswm dros fy ymddiswyddiad yn syml. Nid wyf yn derbyn yr angen i'r weinyddiaeth Lafur wahodd pedwaredd plaid y Cynulliad i ffurfio clymblaid, gyda dau o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cymryd seddau yn y Cabinet. Nid wyf yn derbyn y



fourth party should become its Deputy First Secretary.

I finish by putting on record my highest regard for Rhodri Morgan as a statesman of considerable stature. Undoubtedly, he is the only politician in the Assembly who can lead this administration. He commands the support of my party and I believe that he is overwhelmingly supported by the people of Wales. He also has my full and absolute support, which I will now provide from the back benches rather than from within the Cabinet. I am proud to serve the people of Alyn and Deeside and it is important that north Wales learns to recognise that this Assembly is its Assembly. As one door closes for me, another opens and I am optimistic about my future. I will now put all my energy into ensuring that my constituency and north Wales is served effectively by the National Assembly for Wales. *Diolch yn fawr.*

dylai arweinydd pedwaredd plaid y Cynulliad ddod yn Ddirprwy Brif Ysgrifennydd iddo.

I gloi hoffwn gofnodi fod gennyf y parch mwyaf tuag at Rhodri Morgan fel gwladweinydd o statws sylweddol. Yn ddi-os, ef yw'r unig wleidydd yn y Cynulliad a all arwain y weinyddiaeth hon. Mae ganddo gefnogaeth fy mhlaidd a chredaf fod cefnogaeth aruthrol iddo gan bobl Cymru. Caiff hefyd gefnogaeth lwyr ac absoliwt gennyf fi, a byddaf yn darparu hynny bellach o'r meinciau cefn yn hytrach nag o fewn y Cabinet. Mae'n bleser gennyf wasanaethu pobl Alun a Glannau Dyfrdwy ac mae'n bwysig bod gogledd Cymru yn dysgu i gydnabod mai ei Chynulliad hi yw'r Cynulliad hwn. Wrth i un drws gau imi, mae un arall yn agor ac yr wyf yn optimistaidd ynglŷn â'm dyfodol. Byddaf bellach yn ymroi fy holl egni i sicrhau bod fy etholaeth a gogledd Cymru yn cael eu gwasanaethu'n effeithiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diolch yn fawr.

### **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

#### **Dyfodol Canolfan Mileniwm Cymru Future of Wales Millennium Centre**

**C1 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau dyfodol Canolfan Mileniwm Cymru er mwyn hybu Cymru, ei diwylliant a'i hiaith? (OAQ7037)

**Q1 Owen John Thomas:** What plans does the First Secretary have to safeguard the future of the Wales Millennium Centre for the promotion of Wales, its culture and language? (OAQ7037)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf fi—a Tom Middlehurst hyd at ddoe—yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i ddod i gytundeb a fydd yn galluogi i Ganolfan Mileniwm Cymru gael ei hadeiladu.

**The First Secretary:** I—and Tom Middlehurst until yesterday—am doing everything within my ability to come to an agreement that will enable the Wales Millennium Centre to be built.

Mae'r trafodaethau gyda Chwmni Mileniwm Cymru yn parhau. Anelwn at sefydlu prosiect y gellir ei fforddio gyda'r adnoddau a fydd ar gael. Er mwyn cyrraedd y pwynt hwnnw, mae'n hanfodol fy mod yn cael sicrwydd o gyfanswm bras o gost y prosiect. Yr wyf yn hyderus y bydd y ganolfan yn cael ei hadeiladu ar amser ac o fewn y gyllideb, ac y bydd yn gweithredu'n llwyddiannus ar ôl ei hagar. Os na chaiff y materion hynny eu

Discussions with the Wales Millennium Company are ongoing. We aim to establish a project that can be afforded with the resources that will be available. To reach that point, it is essential that I get a guarantee of the approximate total cost of the project. I am confident that the centre will be built on time and within budget, and that it will operate successfully after opening. If those issues are not resolved, continuing with the project

datrys, byddai parhau â'r prosiect yn anghyfrifol. Cefnogaf y prosiect, a fyddai'n gyfraniad unigryw a gwerthfawr i fywyd celfyddydol a diwylliannol Cymru.

**Owen John Thomas:** The three independent assessors for the Millennium Commission, the Wales Millennium Centre and the National Assembly have costed the revised project plan at between £81.5 million and £85 million. Do you agree that the National Assembly's share of the increased cost—a sum of £2 million to £3 million—is an excellent investment as it will attract £70 million to this flagship project while not posing revenue costs to this or any other public body?

**The First Secretary:** I wish that were true. The issue is the degree of cost certainty and how much we can rely on the cost figures that you talked about. It is my understanding that to achieve even 80 per cent cost certainty on the project, a considerable expenditure that would run into several million pounds on fees and about six months' work on the design of the building is required. The technical term for a stage of reasonable cost certainty is the Royal Institute of British Architects' stage D. That is not the stage immediately before you start construction, but it is close. To reach stage D requires approximately another £2 million in fees alone and some five or six months' work by architects and quantity surveyors. Therefore, I do not think that the situation is quite as certain as you describe, much as I wish it were.

**Jonathan Morgan:** Whichever way you try to spin this, Rhodri, your Government's approach towards this problem has been one of indecision and dithering. What did you do to try to broker a deal between Grosvenor Waterside and the Wales Millennium Centre? Is it not embarrassing that the leader of Cardiff City and County Council had to negotiate on the Government of Wales' behalf and broker a deal in an attempt to buy the land? Are you not the slightest bit embarrassed by that?

would be irresponsible. I support the project, which would be a unique and valuable contribution to the artistic and cultural life of Wales.

**Owen John Thomas:** Mae'r tri aseswr annibynnol o Gomisiwn y Mileniwm, Canolfan Mileniwm Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyfrifo y bydd cost y cynllun prosiect diwygiedig rhwng £81.5 miliwn ac £85 miliwn. A ydych yn cytuno bod cyfran y Cynulliad Cenedlaethol o'r gost uwch—swm o rhwng £2 filiwn a £3 miliwn—yn fuddsoddiad rhagorol gan y bydd yn denu £70 miliwn i'r prosiect amlwg hwn gan osgoi costau referniw i'r corff hwn ac unrhyw gorff cyhoeddus arall?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Pe buasai hynny ond yn wir. Y mater dan sylw yw maint y sicrwydd cost ac i ba raddau y gallwn ddibynnu ar y ffigurau cost y soniasoch amdanynt. Yr wyf ar ddeall y byddai angen gwariant sylweddol a fyddai'n dod i filiynau o bunnoedd ar ffioedd a thua chwe mis o waith ar gynllunio'r adeilad er mwyn cyflawni hyd yn oed 80 y cant o'r sicrwydd cost ar y prosiect. Y term technegol am gam o sicrwydd cost rhesymol yw cam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Nid hwn yw'r cam yn union cyn ichi ddechrau adeiladu, ond mae'n agos at hynny. I gyrraedd cam D mae angen tua £2 filiwn mewn ffioedd yn unig a rhyw bum neu chwe mis o waith gan benseiri a maintfesurwyr. Felly, ni chredaf fod y sefyllfa mor bendant ag y disgrifiwch, er mai dyna y byddwn yn ei ddyddio.

**Jonathan Morgan:** Pa bynnag wedd y byddwch yn ceisio ei rhoi ar hyn, Rhodri, ymagwedd o ddiffyg penderfyniad ac ansicrwydd fu ymagwedd eich Llywodraeth tuag at y broblem hon. Beth a wnaethoch chi i geisio cael bargaen rhwng Grosvenor Waterside a Chanolfan Mileniwm Cymru? Onid yw'n destun embaras bod arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wedi gorfod negodi ar ran Llywodraeth Cymru a chael bargaen mewn ymdrech i brynu'r tir? Onid yw hynny wedi achosi rhywfaint o embaras i chi?

**The First Secretary:** I did not know that Jonathan was a fully paid-up member of the Russell Goodway fan club, but I am interested to hear of his new appointment. Russell mentioned to me that he might be willing to buy the land to hold the option open and I commended him and told him, if he could do that and if he could afford to do that, to go ahead. Three weeks later he bought the land and I was pleased because it keeps the option open. The issue is simple: if we had cost certainty we would know where we were. The advice that we receive from our consultants is that we are nowhere near even 80 per cent cost certainty. As a result, you might be talking about a £15 million contribution from the Assembly now, but it could turn into £50 million. If the building were half-built when the cost overruns were discovered, you know who the first port of call would be. People like you, Jonathan, and Owen John Thomas would say that we had to finish the project. Where would the money come from? It is all very well talking about indecision and dithering when what you mean is have you got £50 million spare for this project, when we do not.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni wyddwn fod Jonathan yn aelod llawn o glwb cefnogwyr Russell Goodway, ond mae'n ddiddorol clywed am ei benodiad newydd. Crybwyllodd Russell wrthyf y byddai, o bosibl, yn fodlon prynu'r tir er mwyn cadw'r opsiwn ar agor ac fe'i canmolais gan ddweud wrtho, os gallai wneud hynny ac os gallai fforddio i wneud hynny, i fynd yn ei flaen. Dair wythnos yn ddiweddarach prynodd y tir ac yr oeddwn yn falch gan ei fod yn cadw'r opsiwn yn agored. Mae'r mater yn syml: pe bai gennym sicrwydd cost byddem yn gwybod beth fyddai'r sefyllfa. Y cyngor a gawn gan ein hymgyngorwyr yw nad ydym yn agos at sicrwydd cost o 80 y cant o bell ffordd. O ganlyniad, gallech fod yn sôn am gyfraniad o £15 miliwn gan y Cynulliad yn awr, ond gallai droi yn £50 miliwn. Petai'r adeilad wedi hanner ei adeiladu ar adeg darganfod gor-wariant, gwyddoch pw y fyddai'r cyswllt cyntaf. Byddai pobl fel chi, Jonathan, ac Owen John Thomas yn dweud y byddai'n rhaid inni orffen y prosiect. O ble y deuai'r arian? Hawdd yw siarad am ddiffyg penderfyniad ac ansicrwydd pan mai'r hyn yr ydych yn ei olygu yw a oes gennych £50 miliwn i'w sbario ar gyfer y prosiect hwn, pan nad yw'r arian hwnnw gennym.

### **Targedau 'Gwellcymru.com' 'Betterwales.com' Targets**

**C2 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad byr ar y camau a gymerwyd i wireddu targedau 2010 yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ7007)

**Q2 Cynog Dafis:** Will the First Secretary make a brief statement on the progress towards the 2010 targets in 'Betterwales.com'? (OAQ7007)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer 2010 yng nghanol ffocws cylch cyllideb presennol y Cynulliad. Mae gwybodaeth ar hyn wedi cael ei rhoi i bob Pwyllgor Pwnc yn ystod y cylch presennol. Mae gennym wybodaeth fod y targedau sydd yn cael eu hystyried yn hollol realistig ac, felly, mae arnom angen ffordd i drawsnewid targedau yn realiti yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yr ydym yn parhau i ddiweddarau'r targedau hyn gydag unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi 'Gwellcymru.com'. Os bydd yn rhaid gwneud newidiadau i adolygu perthnasedd y targedau a bennwyd wrth baratoi'r ddogfen honno, yr ydym yn agored ac yn barod i

**The First Secretary:** The targets that have been set for 2010 are at the centre of focus of the Assembly's current budget round. Information on this has been given to each Subject Committee during the current round. We have information that the targets under consideration are totally realistic and, therefore, we want a way to translate targets into reality over the ensuing years. We continue to update these targets with any changes that have taken place since the publication of 'Betterwales.com'. If changes need to be made to review the relevance of the targets that were set in preparation for that document, we are open and willing to discuss such matters. Perhaps we can

drafod materion o'r fath. Efallai fod modd cryfhau rhai o'r targedau hynny, ond dylid gwneud hynny drwy gytundeb â'r Cynulliad cyfan.

2:20 p.m.

**Cynog Dafis:** Efallai mai priodol hefyd yw gofyn i'r Prif Ysgrifennydd am berthynas 'Gwellcymru.com' a'r ddogfen goalisiwn 'Putting Wales First: A Partnership Agreement for the People of Wales'. Hyrwyddo ddwyieithrwydd yw un o amcanion clir 'Gwellcymru.com', ac mae'n un o flaenoriaethau uchaf y rhan sydd yn ymwneud â gweledigaeth. Cefais fy synnu nad yw'r ddogfen goalisiwn yn gwneud unrhyw gyfeiriad o werth at ddwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg. Crybwyllir ef yn fyr wrth sôn am roi rhagor o arian i'r mentrau iaith. Yn gyntaf, a fyddai'r diffyg hwnnw yn bresennol pe bai'r Prif Ysgrifennydd wedi ymgynghori â Tom Middlehurst wrth baratoi'r ddogfen? Yn ail, beth fydd agwedd y coalisiwn arfaethedig at ddwyieithrwydd a'r arolwg polisi sydd i ddigwydd ar y mater hwnnw?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Egwyddor bwysig fy ateb, wrth ddweud bod cwestiwn Cynog wedi ei seilio ar gamddealltwriaeth llwyr, yw na chaiff y targedau yn 'Gwellcymru.com' eu negyddu yn y ddogfen bartneriaeth. Nid ydym yn cymryd unrhyw beth oddi wrth dargedau 'Gwellcymru.com', a bydd unrhyw welliannau yn mynd ar ben y targedau hynny heb gymryd unrhyw beth oddi wrthynt.

**David Melding:** First Secretary, are you still committed to cutting waiting times? This is a central element of 'Betterwales.com'. However, it does not appear in your coalition manifesto with the Liberal Democrats. I realise that you did not write it, but is that disparity not alarming?

**The First Secretary:** I will repeat my previous answer. Your question has arisen from a complete misunderstanding. Nothing is being taken away from previous targets. The content of the partnership agreement

strengthen some of those targets, but it should be done with the agreement of the whole Assembly.

**Cynog Dafis:** Perhaps it is also appropriate to ask the First Secretary about the relationship between 'Betterwales.com' and the coalition document 'Putting Wales First: A Partnership Agreement for the People of Wales'. The promotion of bilingualism is a clear objective of 'Betterwales.com', and is one of the highest priorities of the part that deals with vision. I was surprised that the coalition document does not make any reference of value to bilingualism and the Welsh language. It is mentioned briefly in reference to giving more money to the language initiatives. First, would that deficiency have existed had the First Secretary consulted Tom Middlehurst in preparing this document? Secondly, what will the attitude of the proposed coalition be towards bilingualism and the policy review that is to take place on that issue?

**The First Secretary:** The important principle of my answer, while saying that Cynog's question was based on a complete misunderstanding, is that the targets in 'Betterwales.com' will not be negated in the partnership document. We are not taking anything away from the 'Betterwales.com' targets, and any amendments will be added to those targets without taking anything away from them.

**David Melding:** Brif Ysgrifennydd, a ydych yn parhau i fod yn ymrwymedig i gwtogi amseroedd aros? Mae hyn yn elfen ganolog o 'Gwellcymru.com'. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos yn eich manifestu clymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. Deallaf nad chi a'i ysgrifennodd, ond onid yw'r diffyg cyffelybiaeth hwnnw yn frawychus?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ailadroddaf fy ateb blaenorol. Mae eich cwestiwn wedi codi o gamddealltwriaeth llwyr. Nid oes unrhyw beth yn cael ei dynnu oddi wrth y targedau blaenorol. Nid yw cynnwys y cytundeb

does not contradict what we have agreed previously as Assembly policy. What I, Jane Hutt and the Health and Social Services Committee have said about waiting times remains the Assembly's policy. I suspect that further instruction is being given to you, David, by Dr Gibbons at the back, which may take this matter further than my answer. Nothing has been taken from 'Betterwales.com' in order to change the policy for the partnership proposal—it is all additional.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr oeddem yn credu ein bod wedi deall beth sydd yn y ddogfen, ond yr ydych bellach yn cymylu hynny. Tynnaf eich sylw at union eiriau'r cytundeb partneriaeth rhyngoch chi a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sef—a dyfynnaf yn Saesneg gan mai fersiwn Saesneg yn unig sydd gennym—

'It is agreed that the general policies and processes presently in place, set out for instance in *betterwales.com*, shall be supported unless amended by the policy agreement'.

A ydych chi'n dweud, felly, na fydd unrhyw newid i'r hyn sydd yn 'Gwellcymru.com' ac, os ceir diwygiad, y bydd hynny'n ychwanegiad i'r ddogfen ac nid yn lle unrhyw beth?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dyna yw fy ystyriaeth i. Ni allaf ddweud yn sicr, wrth ystyried dogfen sydd tua 25 tudalen o hyd, nad oes unrhyw beth ynnddi a ystyrir yn ddiwygiad. Yr wyf 99.9 y cant yn sicr eich bod yn ceisio hollti blew, Ieuan. Yr wyf yn sefydlu'r egwyddor ac yn rhoi addewid i'r Cynulliad a phobl Cymru. Dyna yw'r addewid y gallaf ei gwneud. Os ydych chi eisiau chwarae gemau drwy hollti blew, nid yw'n broblem gennyf. Eich polisi chi yw ceisio gwneud hynny, yn hytrach na cheisio adeiladu Cymru well.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3 Dai Lloyd yn ôl gan ei fod yn cynrychioli'r Cynulliad yn Iwerddon.

partneriaeth yn gwrth-ddweud yr hyn y cytunwyd arno yn gynharach fel polisi'r Cynulliad. Yr hyn yr wyf fi, Jane Hutt a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i ddweud ynglŷn ag amseroedd aros yw polisi'r Cynulliad o hyd. Tybiaf fod cyfarwyddyd pellach yn cael ei roi ichi, David, gan Dr Gibbons yn y cefn, a all fynd â'r mater hwn ymhellach na'm hateb i. Nid oes unrhyw beth wedi cael ei dynnu oddi ar 'Gwellcymru.com' er mwyn newid y polisi ar gyfer y cynnig paratneriaeth—mae popeth yn ychwanegol.

**Ieuan Wyn Jones:** We believed that we had understood what is in the document, but it has now been clouded by you. I draw your attention to the exact wording of the partnership agreement between you and the Liberal Democrats, which is—and I quote in English because we only have an English version—

Are you saying, therefore, that the contents of 'Betterwales.com' will not be changed and, if there is a revision, it will be in addition to the document and not instead of anything?

**The First Secretary:** That is my consideration. I cannot say for certain, with regard to a document that is about 25 pages long, that there is nothing in it that is considered to be a revision. I am 99.9 per cent sure that you are trying to split hairs, Ieuan. I am establishing the principle and giving a promise to the Assembly and the people of Wales. That is the promise that I can make. If you want to play games by splitting hairs, I do not have a problem with that. It is your policy to do that, instead of trying to build a better Wales.

**The Presiding Officer:** Dai Lloyd's question 3 has been withdrawn as he is in Ireland representing the Assembly.

**Adolygiad o'r Cynulliad (Concordatiau)**  
**Assembly Review (Concordats)**

**Q4 Jocelyn Davies:** Will discussion of concordats fall within the remit of the Assembly review announced on 12 July? (OAQ7015)

**The First Secretary:** This is a difficult question for me to answer because I am not accountable to the Assembly, as First Secretary, for the content of the review. This is an across the board policy for a review body, which will be chaired by the Presiding Officer and will involve the four party leaders. I can only give you a personal opinion and will be happy to listen to other opinions. Personally, I do not believe that the concordats are a suitable subject for the review. However, I am happy to take other views into account. It is the Assembly's review, not mine, and it will be chaired by the Presiding Officer.

**Jocelyn Davies:** On the matter of whether or not the question was in order, I can say that it was accepted by the Table Office.

**The Presiding Officer:** Oral questions that are accepted by the Table Office are in order.

**Jocelyn Davies:** The question was therefore in order.

Is the First Secretary aware of the concordat on statistics? Given the dispute over the right to register Welsh nationality on the census form, of what use has that concordat been to Welsh democracy and at what stage in that dispute proceeding is the First Secretary?

**The First Secretary:** I am sorry if Jocelyn thinks that I said that the question was out of order. I made no such reference. The question is clearly in order. If Jocelyn wants to address the substantive issue of where we are on the discussions on the census tick box, it would be easier if she asked that question.

**C4 Jocelyn Davies:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn trafod concordatiau yn rhan o'r adolygiad o'r Cynulliad a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf? (OAQ7015)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hwn yn gwestiwn anodd imi ei ateb gan nad wyf yn atebol i'r Cynulliad, fel Prif Ysgrifennydd, am gynnwys yr adolygiad. Mae hwn yn bolisi cyffredinol ar gyfer corff adolygu, a gaiff ei gadeirio gan y Llywydd ac a fydd yn cynnwys arweinyddion y pedair plaid. Dim ond barn bersonol y gallaf ei rhoi ichi a byddaf yn fwy na bodlon gwrando ar farnau eraill. Yn bersonol, ni chredaf fod y concordatiau yn bwnc addas ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon ystyried safbwyntiau eraill. Adolygiad y Cynulliad ydyw, nid fy un i, a chaiff ei gadeirio gan y Llywydd.

**Jocelyn Davies:** O ran y mater o pa un ai a oedd y cwestiwn mewn trefn, gallaf ddweud ei fod wedi cael ei dderbyn gan y Swyddfa Gyflwyno.

**Y Llywydd:** Mae cwestiynau llafar a dderbynnir gan y Swyddfa Gyflwyno mewn trefn.

**Jocelyn Davies:** Felly yr oedd y cwestiwn mewn trefn.

A yw'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol o'r concordat ar ystadegau? O gofio'r anghydfod dros yr hawl i gofrestru cenedligrwydd Cymreig ar ffurflen y cyfrifiad, pa ddefnydd fu'r concordat hwnnw i ddemocratiaeth Cymru ac ar ba gam yn yr anghydfod hwnnw y mae'r Prif Ysgrifennydd?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n ddrwg gennyf os cred Jocelyn fy mod wedi dweud bod y cwestiwn allan o drefn. Ni wneuthum unrhyw gyfeiriad o'r fath. Mae'r cwestiwn yn amlwg mewn trefn. Os yw Jocelyn am fynd i'r afael â'r mater sylweddol ynglŷn â beth yw'r sefyllfa o ran y trafodaethau ar flwch ticio'r cyfrifiad, byddai'n haws pe bai wedi gofyn y cwestiwn hwnnw.

I attended a video-conference meeting involving two UK Government ministers yesterday to try to press further the case for a late change on the census forms. Clearly, it would be a very late change, because as Jocelyn knows there was extensive consultation on the content of the census and the forms have all been printed. However, we do not think that that is enough because the political situation is that everyone in Wales has seen the content of the Scottish census—which was a devolved matter in Scotland—so they want the same here. However, it is difficult to change the census forms after they have been printed without incurring substantial additional expenditure ranging from £1 million to £2 million. That is not clear, but we continue to press Her Majesty's Treasury, the Government department that is ultimately responsible for this. I am sure that I have Jocelyn's and all Assembly parties' support on this matter.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dau gwestiwn diddorol. Nid oes unrhyw beth arwyddocaol yn yr ail ddrafft nad yw'n cynnwys yr un elfennau a oedd yn y drafft cyntaf, sef unrhyw sôn am adolygu fformwla Barnett. Ceisiwn bob amser gael yr uchafswm adnoddau i Gymru o'r Trysorlys. Mae'n rhaid i chi gyfaddef Ieuan, ar ran Plaid Cymru, ein bod wedi gwneud yn arbennig o

nos Iau diwethaf. Yr oeddwn yn falch o gael y gymeradwyaeth honno. Mae'n rhaid imi lynu wrth reolau fy mhlaid a phenderfyniadau'r gynhadledd yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid i Mike lynu wrth benderfyniadau cynhadledd a chyfansoddiad ei blaid ef. Nid oes gan y ddwy blaid reolau union yr un fath ac ni chawsant benderfyniadau cynhadledd union yr un fath ar y mater hwn yn eu cynadleddau diwethaf—yn wir maent yn hollol groes i'w gilydd. Mae naws gefnogol yng Nghymru tuag at roi cynnig ar y bartneriaeth arfaethedig. Mae'n gam mawr i bobl Llafur. Nid ydym wedi gwneud hyn o'r blaen. Efallai mai yn anfoddog y rhoddir y gefnogaeth hon i gydnabod y ffaith mai gweinyddiaeth leiafrifol ydym ac mai dyma'r ffordd orau i lwyddo gyda'n cynigion. Penderfynasom mai hon yw'r ffordd orau ymlaen.

**Ieuan Wyn Jones:** There are two important questions about the contents of this agreement. First, is it not clear from reading the first draft of the agreement that we saw that there is an understanding that there is a need to look at the Barnett formula? You state in section 10, which does not appear in the final draft, that there is a need to look at improving the funding which comes to Wales across the spectrum. Why was that omitted from the final agreement? Will you look at revising the Barnett formula?

Second, has the coalition vowed to look at the Assembly's lack of powers? Is there an agreement between you and the Liberal Democrats to look seriously at the need to secure legislative powers for the Assembly, or is the establishment of the independent commission nothing but an attempt to avoid the issue?

**The First Secretary:** Two interesting questions. There is nothing significant in the second draft that does not include the same elements that were in the first draft, namely any mention of reviewing the Barnett formula. We always seek to get the maximum resources for Wales from the Treasury. You must admit Ieuan, on behalf of Plaid Cymru, that we have done particularly

dda eleni wrth fynd y tu hwnt ac uwchben fformwla Barnett i gael y £421 miliwn yn ychwanegol. Dyna'r math o fargen y gallwn ei tharo yn y blynyddoedd sydd i ddod. Nid yw i fyny i ni adolygu fformwla Barnett. Byddai'n rhaid inni ystyried barn yr Alban a'r Llywodraeth ganolog. Nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn ymdrechu ar bob cyfle i gael rhagor o adnoddau i'w gwario yng Nghymru er lles pobl Cymru.

O ran yr hyn a ddisgrifir gan Ieuan fel diffyg pwerau, dywedasom yn glir ein bod yn awyddus i sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu pwerau'r Cynulliad. Daw'r comisiwn yn ôl at y Cynulliad ychydig wedi'r etholiad nesaf. Beth arall yr hoffech ei wybod am y comisiwn annibynnol? Ni ddylai Ieuan na Phlaid Cymru nac unrhyw blaid arall ddrwgdybio ar unwaith unrhyw beth yn y bartneriaeth oherwydd yr hoffent ddistrywio'r adolygiad neu'r bartneriaeth cyn iddynt ddechrau. Mae'n rhaid ichi dderbyn yr union eiriau a'r bwriad y tu ôl iddynt. Nid oes agenda gudd. Dywedasom y byddwn yn sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu pwerau'r Cynulliad. Dyna a wnawn.

**Nick Bourne:** I would like, as the First Secretary did in his statement, to wish Tom Middlehurst well in his new role in the National Assembly. He has always conducted his duties with good humour and, as far as our party is concerned, he has been open in his dealings with other parties. We should place that on record. However, does the First Secretary agree that the resignation and its timing are significant?

By resigning in advance of any ratification of this deal, the former Secretary for Post-16 Education and Training has acted on a matter of principle, which is widely shared within your party, the Liberal Democratic Party—a party that used to be separate—and within Wales. Will he comment on that? There is another serious concern about the resignation. North Wales is no longer represented at the Cabinet table. The Cabinet table is now made up of representatives of

well this year in going above and beyond the Barnett formula to get the extra £421 million. That is the kind of bargain that we could strike in coming years. It is not up to us to revise the Barnett formula. We would have to consider the views of Scotland and the central Government. It does not mean that we will not endeavour at every opportunity to gain more resources to spend in Wales for the benefit of the people of Wales.

With regard to what Ieuan describes as the lack of powers, we have clearly said that we are keen to establish an independent commission to review the Assembly's powers. The commission will report back to the Assembly shortly after the next election. What else would you like to know about the independent commission? Neither Ieuan nor Plaid Cymru nor any other party should immediately suspect anything in this partnership because they would like to destroy the review or the partnership before they begin. You must accept the exact wording and the intention behind them. There is no hidden agenda. We said that we will establish an independent commission to review the Assembly's powers. That is what we will do.

**Nick Bourne:** Hoffwn, fel y gwnaeth y Prif Ysgrifennydd yn ei ddatganiad, ddymuno'n dda i Tom Middlehurst yn ei rôl newydd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae bob amser wedi ymgymryd â'i ddyletswyddau gyda hiwmor da ac, o ran ein plaid ni, bu'n agored yn ei drafodaethau gyda phleidiau eraill. Dylem gofnodi hynny. Fodd bynnag, oni chytuna'r Prif Ysgrifennydd fod yr ymddiswyddiad a'i amseriad yn arwyddocaol?

Drwy ymddiswyddo cyn i'r fargen hon gael ei chadarnhau, mae'r cyn Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 wedi gweithredu ar fater o egwyddor, a rennir yn eang o fewn eich plaid, Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol—plaid a arferai fod yn blaid ar wahân—ac o fewn Cymru. A wnaiff sylw ar hynny? Mae pryder difrifol arall ynghylch yr ymddiswyddiad. Ni chynrychiolir gogledd Cymru bellach wrth fwrdd y Cabinet. Bellach mae bwrdd y Cabinet ond yn cynnwys

the former Gwent and Glamorgan areas. That must give rise to concern for all those who warned that this Assembly would become Cardiff and south-east Wales dominated. Will he consider that and comment on the importance of having a Cabinet that represents all parts of Wales?

I move on to the meat of the pact, the coalition agreement. I have some questions that I hope he can answer. Given his commitment to open government, some things are very much in the dark. Which Cabinet posts will be given to the Liberal Democrats? Which Liberal Democrats will fill those posts? The Assembly and the people of Wales need to know that. What role is envisaged for the Deputy First Secretary presumptive? That question is on all our lips. We want to know in what form he will emerge from his chrysalis and if it will be incorporated into the Standing Orders. For example, we know, First Secretary, that you will be in Saudi Arabia next Tuesday. Will the Liberal Democratic Party leader answer the First Secretary's questions on that day? That is a scary thought, but we need to know. Will Liberal Democrat Assembly Members be appointed as Deputy Secretaries? We have not had a clear statement on that matter. Will he also confirm that if the Liberal Democrats surrender their opposition role, they will forfeit their right to a minority party debate, a separate seat in the Business Committee—goodbye Jenny—and a leader's allowance that is paid only to opposition parties? I hear the Deputy First Secretary presumptive say that that is not the case. Perhaps the First Secretary would clarify on behalf of the coalition? Will he also confirm that the review of Assembly processes will contain only representatives of the Government of Wales and the two opposition parties? Importantly, will he confirm that there is no extra money from Westminster as a result of this coalition agreement and that, therefore, all the marvellous spins that have been put on this matter by the Liberal Democratic leader add to nothing? Which parts of the coalition agreement were not previously Labour Party policy? He has told us that there have been no concessions. Meanwhile, the Liberal

cynrychiolwyr o hen ardaloedd Gwent a Morgannwg. Mae'n rhaid bod hynny'n codi pryderon i bawb a rybuddiodd y byddai'r Cynulliad hwn yn cael ei reoli gan Gaerdydd a de-ddwyrain Cymru. A wnaiff ystyried hynny a sylwi ar bwysigrwydd cael Cabinet sydd yn cynrychioli pob rhan o Gymru?

Symudaf ymlaen at sylwedd y cytundeb, y cytundeb clymblaid. Mae gennyf rai cwestiynau y gobeithiaf y gall eu hateb. O gofio ei ymrwymiad i lywodraeth agored, mae rhai pethau yn sicr yn y tywyllwch. Pa swyddi yn y Cabinet a gaiff eu rhoi i'r Democratiaid Rhyddfrydol? Pa Ddemocratiaid Rhyddfrydol fydd yn llenwi'r swyddi hynny? Dylai'r Cynulliad a phobl Cymru gael gwybod hynny. Pa rôl a ragwelir i'r Dirprwy Brif Ysgrifennydd tybiadol? Mae'r cwestiwn hwnnw ar wefusau pob un ohonom. Yr ydym am wybod ar ba ffurf y bydd yn ymddangos o'i grysalis ac a fydd yn cael ei ymgorffori yn y Rheolau Sefydlog. Er enghraifft, gwyddom, Brif Ysgrifennydd, y byddwch yn Saudi Arabia ddydd Mawrth nesaf. A fydd arweinydd Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn ateb cwestiynau'r Prif Ysgrifennydd ar y diwrnod hwnnw? Mae hynny'n frawychus, ond mae angen inni wybod. A fydd Aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad yn cael eu penodi fel Dirprwy Ysgrifenyddion? Nid ydym wedi cael datganiad clir ar y mater hwnnw. A wnaiff hefyd gadarnhau a fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ildio eu rôl fel gwrthblaid, a fyddant yn ildio eu hawl i ddadl plaid leiafrifol, sedd ar wahân ar y Pwyllgor Busnes—hwyl fawr Jenny—a lwfans arweinydd sydd ddim ond yn cael ei dalu i arweinwyr y gwrthbleidiau? Clywaf y Dirprwy Brif Ysgrifennydd tybiadol yn dweud nad felly y mae. Efallai y gallai'r Prif Ysgrifennydd egluro ar ran y glymblaid? A wnaiff hefyd gadarnhau mai dim ond cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r ddwy wrthblaid y bydd yr adolygiad o brosesau'r Cynulliad yn ei gynnwys? Yn bwysicach, a wnaiff gadarnhau nad oes unrhyw arian ychwanegol o San Steffan o ganlyniad i'r cytundeb clymblaid hwn ac, felly, fod pob gogwydd gwych a roddwyd ar y mater hwn gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu dim? Pa rannau o'r cytundeb clymblaid nad

Democratic leader, on his whistle-stop tour, is claiming 104 new commitments to his party's policies on behalf of the Labour Party—

**Mick Bates:** 114.

**Nick Bourne:** I beg your pardon, 114, but both figures cannot be right. Either you are right or they are right. Does he regret that normal Assembly business and the good governance of Wales is being held up while the Deputy First Secretary presumptive is on this whistle-stop tour trying to sell it to his party activists? There are grave concerns about it. Why could this not have been accomplished during constituency weeks? Has the First Secretary studied the Lib-Lab pact in Scotland and is he aware that it failed to deliver on many of the promises on which the Liberal Democrats insisted? The promises of no tolls on the Skye bridge, 500 more doctors, 1,000 more nurses and a reduction in maximum waiting times were not delivered. In fact, waiting lists rose by 15 per cent.

Furthermore, is he aware that the two Liberal Democrat representatives in the Scottish Cabinet [*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. The leader of the Conservative Party is asking questions.

**Nick Bourne:** I am grateful for that. Is the First Secretary aware—

**The First Secretary:** Can you go back to the first question? I have forgotten it.

**Nick Bourne:** The first question was what happened to your commitment to open government.

Is he aware that the senior Liberal Democrat representative in Scotland, Jim Wallace, the Deputy First Minister—I was going to say

oeddent yn rhan o bolisi'r Blaid Lafur cyn hynny? Dywedodd wrthym na fu unrhyw gonsesiynau. Yn y cyfamser, mae Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, ar ei wibdaith, yn honni 104 o ymrywmiadau newydd i bolisiâu ei blaid ar ran y Blaid Lafur—

**Mick Bates:** 114.

**Nick Bourne:** Mae'n ddrwg gennyf, 114, ond ni all y ddau ffigur fod yn gywir. Naill ai yr ydych chi'n gywir neu maent hwy yn gywir. A yw'n ddrwg ganddo fod oedi gyda busnes arferol y Cynulliad a llywodraeth dda Cymru tra bydd y Dirprwy Brif Ysgrifennydd tybiadol ar wibdaith yn ceisio ei werthu i ymgyrchwyr ei blaid? Mae pryderon mawr ynglŷn â hyn. Pam na allai hyn fod wedi cael ei gyflawni yn ystod yr wythnosau etholaeth? A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi astudio'r cytundeb rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Alban ac a yw'n ymwybodol ei fod wedi methu â chyflawni llawer o'r addewidion a fynnwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol? Ni chyflawnwyd yr addewidion o ddim tollau ar bont Ynys Hir, 500 yn fwy o feddygon, 1,000 yn fwy o nyrsys a gostyngiad yn uchafswm yr amseroedd aros. Mewn gwirionedd, cynyddodd y rhestrau aros 15 y cant.

Yn ogystal, a yw'n ymwybodol bod dau gynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghabinet yr Alban [*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Mae arweinydd y Blaid Geidwadol yn gofyn cwestiynau.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol—

**Y Prif Ysgrifennydd:** A allwch fynd yn ôl at y cwestiwn cyntaf? Yr wyf wedi ei anghofio.

**Nick Bourne:** Y cwestiwn cyntaf oedd beth a ddigwyddodd i'ch ymrwymiad i lywodraeth agored.

A yw'n ymwybodol mai cynrychiolydd hŷn y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Alban, Jim Wallace, y Dirprwy Brif Ysgrifennydd—yr

the Scottish Parliament's Mike German—is the only one to have had his departmental budget cut, and the other, Ross Finnie, as Minister for Rural Affairs, has presided over the worst crisis in rural Scotland? Is the First Secretary really committed to this deal? Many of those of us who saw your press conference felt that while the Liberal Democrat leader looked delighted, you looked as if you were sitting on a thistle. Were you having second thoughts? It could be that you have seen that it is not a good thing after all. I tried to hunt round for a silver lining for you and the only one that I could find was that while you are No. 1 and he is No. 2, there will be no assassination attempts.

3:00 p.m.

**The First Secretary:** I will try to remember as many as I can of the points made in between the comments about sitting on thistles and silver linings. My commitment to open government is undiminished and it is one on which the freedom-of-information-loving Liberal Democrats and myself have always strongly agreed. There is no problem there. You mentioned that Tom was the only Cabinet member representing north Wales. Not having a north Wales representative is not my choice, but the consequence of Tom's resignation.

You asked which jobs will go to which Cabinet Secretary. I have answered that question. I will have to return to that next week. You also raised the issue of what the practical impact will be for minority debates. I believe that minority party debates would be ruled out for the Liberal Democrat Party. I am not as sure about membership of the Business Committee. You also asked whether there will be any extra money in this. There is no extra money: this is the spending of the extra money. In other words, having had the comprehensive spending review settlement that we had, we now have a three-year and a much better budget. Therefore, the issue that has arisen in this budget round is more important than the

oeddwn ar fin dweud Mike German Senedd yr Alban—yw'r unig un i gael gostyngiad yng nghyllideb ei adran, bod y llall, Ross Finnie, fel Gweinidog Materion Gwledig, wedi llywyddu dros yr argyfwng gwaethaf yng nghefn gwlad yr Alban? A yw'r Prif Ysgrifennydd yn wirioneddol ymrwymedig i'r cytundeb hwn? Yr oedd llawer ohonom a welodd eich cynhadledd i'r wasg yn teimlo er bod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn edrych fel petai wrth ei fodd, eich bod chi'n edrych fel petaech yn eistedd ar ysgallen. A oeddech yn ailfeddwl? Efallai eich bod wedi gweld nad yw'n beth da wedi'r cyfan. Ceisiais chwilio am haul ar fryn i chi a'r unig lygedyn o obaith y gallwn ei ganfod oedd tra byddwch chi yn Rhif 1 ac yntau yn Rhif 2, ni fydd unrhyw ymdrechion bradlofruddio.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ceisiaf gofio cymaint ag y gallaf o'r pwyntiau a wnaethpwyd rhwng y sylwadau am eistedd ar ysgallen a haul ar fryn. Mae fy ymrwymiad i lywodraeth agored yn ddiysgog ac mae'n un y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, sydd yn gymaint o blaid rhyddid gwybodaeth, a minnau wastad wedi cytuno'n gryf arno. Nid oes unrhyw broblem yn hynny o beth. Soniasoch mai Tom oedd yr unig aelod o'r Cabinet a oedd yn cynrychioli gogledd Cymru. Nid fy newis i yw peidio â chael cynrychiolydd dros ogledd Cymru, ond canlyniad ymddiswyddiad Tom.

Gofynasoch pa swyddi a gaiff eu rhoi i ba Ysgrifennydd Cabinet. Atebais y cwestiwn hwnnw. Bydd yn rhaid i mi ddychwelyd at hynny yr wythnos nesaf. Codasoch hefyd y mater o'r effaith ymarferol ar ddadleuon lleiafrifol. Credaf y byddai dadleuon pleidiau lleiafrifol yn cael eu diystyru ar gyfer Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid wyf yn siŵr ynglŷn ag aelodaeth y Pwyllgor Busnes. Gofynasoch hefyd a fydd unrhyw arian ychwanegol yn sgîl hyn. Nid oes unrhyw arian ychwanegol: gwario arian ychwanegol yw hyn. Mewn geiriau eraill, yn dilyn setliad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a gawsom, mae gennym bellach gyllideb tair blynedd sydd yn un llawer gwell. Felly, mae'r mater a godwyd yn y cylch cyllideb



issues that have been raised in previous budget rounds, because it is for three years. If you have three years' worth of budget, then you can develop not just a one-year defensive budget, focusing on whether you increase or cut certain spending, but a whole new range of policies. That is what we are talking about.

As regards the arrangements for next week, I am not—for reasons entirely unconnected with the partnership arrangement—able to go to Saudi Arabia and have cancelled that overseas mission. I will explain why next week, but the reason has nothing to do with the partnership arrangement. Trying to calculate how many Liberal Democrat and how many Labour policies there are in the partnership arrangement is a fruitless pursuit. When you come to a partnership arrangement, you exchange ideas constantly. Therefore you cannot allocate policies to parties and say that that one is a Liberal policy and that one a Labour. You have discussed the issues and whether you can both agree on the policies as a package.

As regards normal Assembly business, I am sorry that I have to try your patience, Nick, and that although you want to know who will have what job now, you will not know until next week. However, I hope that you will learn that that sometimes happens in politics and that next week will come soon enough. On Scotland, we are in close contact with our Scottish colleagues because theirs is the easiest model to refer to, and is more relevant to us than that of Northern Ireland or the Irish Republic, where coalition politics have been the norm. Our sister party, the Irish Labour Party, has been a junior member of many coalitions in the Irish Republic, with Dick Spring, from the junior party, having been the Deputy Prime Minister of the Irish Republic. These arrangements are quite common, although Nick seems to be greatly shocked by them.

Nick tried to suggest that Jim Wallace and Ross Finnie have had a hard time. Broadly, I

hwn yn bwysicach na'r materion a godwyd mewn cylchoedd cyllideb blaenorol, gan ei bod am dair blynedd. Os oes gennych werth tair blynedd o gyllideb, yna gallwch ddatblygu nid yn unig gyllideb amddiffynnol blwyddyn, yn canolbwyntio ar a ydych yn cynyddu neu'n cwtogi ar wariant penodol, ond ystod newydd o bolisïau. Dyna beth yr ydym yn sôn amdano.

O ran y trefniadau ar gyfer yr wythnos nesaf, am resymau nad ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r cytundeb partneriaeth, ni allaf fynd i Saudi Arabia ac yr wyf wedi canslo'r genhadaeth dramor honno. Egluraf pam yr wythnos nesaf, ond nid oes a wnelo'r rheswm unrhyw beth â'r trefniant partneriaeth. Mae ceisio cyfrifo faint o bolisïau'r Democratiaid Rhyddfrydol a faint o bolisïau Llafur sydd yn y trefniant partneriaeth yn ymarfer di-fudd. Pan ddewch at drefniant partneriaeth, yr ydych yn cyfnewid syniadau'n barhaus. Felly ni allwch ddyrranu polisiau i bleidiau a dweud bod hwn yn bolisi'r Rhyddfrydwyr a'r llall yn bolisi Llafur. Yr ydych wedi trafod y materion a pha un ai a all y ddau ohonoch gytuno ar y polisiau fel pecyn.

O ran busnes arferol y Cynulliad, mae'n ddrwg gennyf am brofi eich amynedd, Nick, ac er eich bod am wybod pwy fydd yn cael pa swydd yn awr, ni chewch wybod tan yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, gobeithiaf y byddwch yn dysgu bod hynny weithiau'n digwydd mewn gwleidyddiaeth ac y daw yr wythnos nesaf yn ddigon buan. O ran yr Alban, mae gennym gysylltiad agos gyda'n cydweithwyr yn yr Alban gan mai eu model hwy yw'r hawsaf i gyfeirio ato, a'i fod yn fwy perthnasol i ni nag un Gogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon, lle bu gwleidyddiaeth clymblaid yn norm. Mae ein chwaer blaid, Plaid Lafur Iwerddon, wedi bod yn aelod iau o sawl clymblaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, gyda Dick Spring, o'r blaid iau, yn Ddirprwy Brif Weinidog Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r trefniadau hyn yn eithaf cyffredin er eu bod yn peri syndod mawr i Nick.

Ceisiodd Nick awgrymu bod Jim Wallace a Ross Finnie wedi cael amser caled. Yn

think that most people looking at Scotland would say that the arrangement has brought many benefits and has made the Scottish Parliament work effectively. Eleven bills have been passed in its first full session. That is not a bad outcome for a parliament re-established after 297 years. I think that it has done pretty well and most people in Scotland think it has done pretty well. You are obviously trying to drive in wedges before we even have a partnership in place: that is your job, Nick, and I admire you for your efforts, however unavailing, to do that.

**Rod Richards:** Now that the First Secretary has declared formally that it is his policy to appease German expansionism, does he not recognise that he is making the same strategic mistake as the Prime Minister made when he supported Alun Michael's rather than the current First Secretary's attempts to become leader of the Labour Party, against the wishes of the people of Wales? Can he not see that? Can he not see that his days as First Secretary are numbered as long as the leader of the Liberal Democrats supports him? By pursuing this policy, he will—in a very short time—be throwing this Assembly into chaos again while the rest of us get rid of both of you.

**The First Secretary:** I do not mind my days being numbered so long as the number is around 10,000 or something like that. That would be no problem. When Rod made his remarks about the threat of a German takeover, I believe that he was reading from an old speech that he used when he was a europhobe Tory Minister rather than thinking about the Assembly and its affairs. It is Plaid Cymru's, the Tory Party's and Rod Richards's job to dig and nit-pick as much as they can this week. If this goes well on the weekend, we will have a majority government that will be able to run this Assembly properly, probably for the first time in 18 months.

**Cynog Dafis:** Beth yw ymhlygiadau'r

gyffredinol, credaf y byddai'r rhan fwyaf o bobl, o edrych ar yr Alban, yn dweud bod y trefniadau wedi dod â llawer o fuddiannau yn eu sgîl ac wedi gwneud i Senedd yr Alban weithio'n effeithiol. Pasiwyd un mesur ar ddeg yn ei sesiwn lawn gyntaf. Nid yw hynny'n ganlyniad drwg i senedd a ailsefydlwyd ar ôl 297 o flynyddoedd. Credaf iddi wneud yn eithaf da ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn yr Alban o'r farn iddi wneud yn eithaf da. Yr ydych yn amlwg yn ceisio creu rhwygiadau cyn inni sefydlu'r bartneriaeth hyd yn oed: dyna eich gwaith chi, Nick, ac fe'ch edmygaf am eich ymdrechion, pa mor ofer y bônt.

**Rod Richards:** Gan fod y Prif Ysgrifennydd wedi datgan yn ffurfiol ei fod yn bolisi ganddo i ddyhuddo ymlediad German, onid yw'n cydnabod ei fod yn gwneud yr un camgymeriad strategol ag y gwnaeth y Prif Weinidog pan gefnogodd ymdrechion Alun Michael yn hytrach nag ymdrechion y Prif Ysgrifennydd cyfredol i ddod yn arweinydd y Blaid Lafur, yn groes i ddymuniad pobl Cymru? Oni all weld hynny? Oni all weld bod ei ddyddiau fel Prif Ysgrifennydd wedi'u rhifo tra bod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei gefnogi? Drwy fynd ar drywydd y polisi hwn, bydd—o fewn cyfnod byr o amser—yn achosi anhrefn yn y Cynulliad hwn unwaith eto tra bod y gweddill ohonom yn cael gwared ar y ddau ohonoch.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes ots gennyf fod fy nyddiau'n prin hau cyn belled â bod hynny tua 10,000 neu rywbeth tebyg i hynny. Ni fyddai hynny'n broblem. Pan wnaeth Rod ei sylwadau am y bygythiad o gyrch gan German, credaf ei fod yn darllen hen araith a ddefnyddiodd pan oedd yn Weinidog Toriaidd ewroffobaidd yn hytrach na meddwl am y Cynulliad a'i faterion. Gwaith Plaid Cymru, y Blaid Doriaidd a Rod Richards yw pigo beiau gymaint ag y gallant yr wythnos hon. Os aiff pethau'n dda ar y penwythnos, bydd gennym lywodraeth fwyafrifol a all redeg y Cynulliad hwn yn gywir, fwy na thebyg am y tro cyntaf mewn 18 mis.

**Cynog Dafis:** What are the implications of

penderfyniad hwn i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ac, yn benodol, beth fydd ei effaith ar adroddiad y Pwyllgor ar y celfyddydau a diwylliant? Cytunodd y Pwyllgor ddydd Gwener diwethaf ar destun terfynol yr adroddiad hwnnw yn dilyn chwe mis o waith caled ac ymgynghori helaeth. Mae mawr ddisgwyl ymysg y gymuned gelfyddydol yng Nghymru am yr adroddiad. Byddai'n drueni dychrynlyd pe bai'r holl broses o gyhoeddi'r adroddiad yn cael ei fwrw i'r pair a'i ohirio'n ddibendraw o achos yr aildrefnu sydd yn digwydd.

A all y Prif Ysgrifennydd ganfod ffordd o alluogi'r Pwyllgor priodol i dderbyn yr adroddiad? Dyna'r cyfan sydd ei angen yn awr. Mae'r testun a'r cynnwys wedi'u cytuno. Y cyfan sydd ei angen yw i'r Pwyllgor priodol dderbyn yr adroddiad fel ei fod yn dod i'r Cynulliad llawn ar gyfer trafodaeth. Os bydd y Cynulliad yn cydsynio, gall yr holl benderfyniadau sydd yn llifo o'r adroddiad ddigwydd wedyn mewn da bryd.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Pe bai amser wedi caniatáu yn ystod yr awr ginio, byddwn wedi rhoi rhybudd ichi, Cynog, ynglŷn â'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd yn codi o ymddiswyddiad Tom, sydd yn golygu nad oes Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn bodoli am gyfnod na fydd yn fwy nag wythnos. Nid mater o aildrefnu yw hyn. Rhwymedigaeth gyfansoddiadol neu gyfreithiol dros dro yn codi o ymddiswyddiad Tom ydyw. Yr wyf yn hollol ffyddiog y medrwn oresgyn y problemau. Nid wyf finnau am achosi unrhyw ohiriad neu ansicrwydd ynglŷn â phenderfyniadau a gwaith caled y Pwyllgor hwnnw. Bydd clerod y Pwyllgorau a'n swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet yn ymchwilio gyda ni i weld a oes modd goresgyn y broblem hon. Problem dros dro am lai nag wythnos ydyw. Addewaf hynny ichi, Cynog, ac i'r pleidiau gwahanol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

**Glyn Davies:** I ask a question that builds upon one of Nick Bourne's earlier questions. It concerns the position of the Liberal Democrat Party group in the Assembly if this coalition is agreed. That is a matter of interest to all 60 Members and I am certain

this decision for the Post-16 Education and Training Committee, and specifically, how will it affect the Committee's report on arts and culture? The Committee agreed last Friday on the final text of that report following six months of hard work and extensive consultation. There is great expectation in the arts community in Wales for that report. It would be a terrible pity if the whole process of publishing that report was thrown into the melting pot and deferred indefinitely because of this reorganisation.

Can the First Secretary find a way of enabling the appropriate Committee to receive the report? That is all that is required now. The text and content have been agreed. All that is needed is for the appropriate Committee to receive the report so that it comes to the full Assembly for discussion. If the Assembly agrees, all the decisions that arise from that report can then happen in good time.

**The First Secretary:** Had there been more time during the lunch hour, I would have given you notice, Cynog, of the legal obligation arising from Tom's resignation which means that, for a period of no more than a week, there will not be a Post-16 Education and Training Committee. This is not a matter of reorganisation. It is a temporary constitutional or legal obligation arising from Tom's resignation. I am confident that we will be able to overcome these problems. I do not wish to cause any delay or uncertainty in relation to the decisions and the hard work of that Committee. The Committee clerks and our officials in the Cabinet Office will investigate with us whether there is a way around this problem. It is a temporary problem for less than a week. I give you that promise, Cynog, and to the different parties represented in the Assembly.

**Glyn Davies:** Gofynnaf gwestiwn sydd yn adeiladu ar gwestiynau cynharach Nick Bourne. Mae'n ymwneud â sefyllfa grŵp Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad os cytunir ar y glymblaid hon. Mae hwn yn fater o ddiddordeb i bob un o'r 60 o

that it is of great interest to the Liberal Democrat Party members in the country who will vote on this issue at the weekend. You said that there may not be a Liberal Democrat minority debate in the future. You also said that you are unsure about the position on the Business Committee. I would like to know whether you have discussed with the Presiding Officer the arrangements for speaking in debates and whether, in future, the Liberal Democrats will lose their position. My final question is what will happen to the money to which the Liberal Democrats are entitled as an independent party? People in the countryside and in the constituency that I represent in mid and west Wales are shocked and outraged by what is happening. They should know all the details of this issue before it is put to them next week.

3:10 p.m.

**The First Secretary:** Those remarks, if you were a humble Montgomeryshire farmer with no party origins, would carry considerable weight, Glyn. However, the Conservatives' criticism of the Liberal Democrats and Labour forming a partnership agreement is not a neutral and independent comment on this issue. You may think that you speak for the people of Montgomeryshire—it was Mick Bates who was elected as local AM for that area. I do not know what your view is on this, whether you think that you represent an independent view, or whether you accept that you are trying to do as much damage as possible before Saturday or Sunday cometh. Any sensible person would see that you are doing as much damage as possible now in the hope that it will upset what happens in the Liberal Democrats' conference. That is fair enough—that is your job, and you have done your job this afternoon.

I am not sure whether I can answer the technical questions, because the issues relating to speaking in debate are in Standing Orders. I have not considered that issue; it is a matter for the Office of the Presiding

Aeldoau ac yr wyf yn sicr ei fod o ddi-ddordeb mawr i aelodau Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol mewn gwlad a fydd yn pleidleisio ar y mater hwn dros y penwythnos. Dywedasoeh na fyddai dadl leiafrifol gan y Democratiaid Rhyddfrydol o bosibl yn y dyfodol. Dywedasoeh hefyd eich bod yn ansicr ynghylch y sefyllfa gyda'r Pwyllgor Busnes. Hoffwn wybod a ydych wedi trafod gyda'r Llywydd y trefniadau ar gyfer siarad mewn dadleuon ac a fydd y Democratiaid Rhyddfrydol, yn y dyfodol, yn colli eu safle. Fy nghwestiwn olaf yw beth fydd yn digwydd i'r arian y mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol hawl iddo fel plaid annibynnol? Mae'r bobl yng nghefn gwlad Cymru wedi cael sioc ac yn teimlo dicter tuag at yr hyn sydd yn digwydd. Dylent gael gwybod yr holl fanylion ynglŷn â'r mater hwn cyn iddo gael ei gyflwyno iddynt yr wythnos nesaf.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Petaech yn ffermwr gwerinol o Sir Drefaldwyn heb unrhyw gysylltiadau pleidiol, byddai'r sylwadau hynny'n cario cryn bwysau, Glyn. Fodd bynnag, nid yw beirniadaeth y Ceidwadwyr ar y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur yn ffurfio cytundeb partneriaeth yn sylw niwtral ac annibynnol ar y mater hwn. Efallai y credwch eich bod yn siarad ar ran pobl Sir Drefaldwyn—Mick Bates a etholwyd fel AC lleol dros yr ardal honno. Ni wn beth yw eich barn am hyn, pa un a gredwch eich bod yn cynrychioli barn annibynnol, neu a ydych yn derbyn eich bod yn ceisio gwneud cymaint o niwed â phosibl cyn dydd Sadwrn neu ddydd Sul nesaf. Byddai unrhyw berson synhwyrol yn gweld eich bod yn gwneud cymaint o niwed â phosibl yn awr yn y gobaith y bydd yn amharu ar yr hyn a fydd yn digwydd yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae hynny'n ddigon teg—dyna yw eich gwaith, ac yr ydych wedi gwneud eich gwaith y prynhawn yma.

Nid wyf yn siŵr a allaf ateb y cwestiynau technegol, gan fod y materion sydd yn ymwneud â siarad mewn dadl yn y Rheolau Sefydlog. Nid wyf wedi ystyried y mater hwnnw; mae'n fater i Swyddfa'r Llywydd ei

Officer to discuss with the four parties. We will be two separate groups but the Liberal Democrats will be represented in the Executive. It is whatever is stated in Standing Orders.

**Dafydd Wigley:** Yn y fforwm cyllid a gyfarfu fore ddoe yn yr adeilad hwn, datganodd Peter Law fod y polisiau sydd yn y ddogfen hon a gadarnhawyd gan bwyllgor gwaith y Blaid Lafur yng Nghymru bellach yn cynrychioli polisi'r Blaid Lafur yng Nghymru. A allwch chi gadarnhau hynny, ac a ydyw polisi'r Blaid Lafur yng Nghymru, felly, yn cynnwys cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer llywodraeth leol?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae rhai polisiau yn y ddogfen hon wedi eu cyllido, ac maent yn y rhaglen, a disgrifir polisiau eraill, megis ffurfio comisiwn i ystyried pwnc. Pan gytunwch i ffurfio comisiwn annibynnol i ystyried pwnc megis cynrychiolaeth gyfrannol neu bwerau'r Cynulliad, ni allwch ragweld yn union beth fydd casgliad y corff adolygu hwnnw. Dyna'r hyn y gallaf ei ddweud ynglŷn â phwyso ar y Llywodraeth i sefydlu comisiwn i ystyried sut y byddwn yn rhedeg system etholiadol llywodraeth leol. Nid mater i'r Cynulliad yw hwn, ac efallai mai'r Llywodraeth ganolog a fydd yn penderfynu ar ein rhan ni. Mae Senedd yr Alban yn penderfynu ar system etholiadol llywodraeth leol yn yr Alban. Yr ydym yn fodlon ystyried beth y dylem fod yn ei gymeradwyo i'r Llywodraeth ganolog fel y system etholiadol orau i lywodraeth leol yng Nghymru.

**Janet Ryder:** You have talked about the need for stable government and the ability to plan and take decisions. You have given those as reasons for power sharing in cabinets. Did you know that your own party—the Labour party—has three councillors under suspension facing expulsion for daring to take seats in a power shared cabinet on Denbighshire County Council? Will you clarify the Labour Party's position regarding power sharing at all levels of government in Wales?

**The First Secretary:** I am not aware of the

drafod gyda'r pedair plaid. Byddwn yn ddau grŵp ar wahân ond caiff y Democratiaid Rhyddfrydol eu cynrychioli yn y Weithrediaeth. Beth bynnag a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

**Dafydd Wigley:** In the finance forum that met yesterday morning in this building, Peter Law affirmed that the policies in this document that were confirmed by the Labour Party executive in Wales now represent the policies of the Labour Party in Wales. Can you confirm this, and does the policy of the Labour Party in Wales, therefore, include proportional representation for local government?

**The First Secretary:** Some policies in this document have been funded, and they are in the programme, and other policies are described, such as forming a commission to consider a subject. When you agree to form an independent commission to consider a subject such as proportional representation or the Assembly's powers, you cannot foresee exactly what will be the conclusion of that review body. That is what I can say about pressing the Government to establish a commission to consider how we will run the electoral system for local government. This is not a matter for the Assembly, and it may be central Government that will decide on our behalf. The Scottish Parliament decides on the electoral system for local government in Scotland. We are willing to consider what we should be recommending to central Government as the best electoral system for local government in Wales.

**Janet Ryder:** Yr ydych wedi sôn am yr angen am lywodraeth sefydlog a'r gallu i gynllunio a gwneud penderfyniadau. Rhoesoch y rheini fel rhesymau dros rannu pŵer yn y cabinet. A wyddoch fod gan eich plaid chi eich hun—y blaid Lafur—dri chynghorydd wedi'u hatal sydd yn wynebu cael eu gwahardd am feiddio â derbyn seddau mewn cabinet sydd yn rhannu pŵer ar Gyngor Sir Ddinbych? A wnewch egluro sefyllfa'r Blaid Lafur ynghylch rhannu pŵer ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn

Denbighshire situation, although I have heard the occasional soupçons of problems in the Denbighshire area. I understood that the Denbighshire administration was anxious to bring Labour in, and that the Labour party did not want to go in. That is entirely a matter for the Denbighshire local Labour party. What we are talking about here is an arrangement inside the Assembly to make the Assembly work better. We are not telling Labour parties elsewhere, where Labour may be in a minority or there may be reasons relating to the local situation, such as bad blood between Labour and other parties, what they ought to or must do because of any arrangement that we make here. It is a practical and pragmatic arrangement for the better functioning of this Assembly to deliver services better for the people of Wales.

**Janet Ryder** *rose—*

**The Presiding Officer:** Order. You have asked one question, Janet. You are not a party leader yet.

### **Datganiad ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gyflenwadau Tanwydd Statement on the Memorandum of Understanding on Fuel Supplies**

**The First Secretary:** It is right and proper for me to take this opportunity to make a statement to the Assembly on the recent fuel crisis and the action that has been taken, or is in hand, to reduce the risk of a repeat of that crisis. I express my gratitude, on behalf of the Assembly, to the bodies that worked hard during the crisis to keep essential services going as long as possible. They did a magnificent job.

Under the leadership of the Home Secretary, the UK Government has established a fuel taskforce, which is looking into minimising the effects of any future disruption of oil fuel supplies. I am a member of that taskforce, which also consists of four UK Cabinet Ministers, the Scottish Executive, the Trades Union Congress, the Association of Chief Police Officers, the major oil companies and several major hauliers.

ymwybodol o'r sefyllfa yn Sir Ddinbych, er i mi glywed manion achlysurol am broblemau yn ardal Sir Ddinbych. Deallais fod gweinyddiaeth Sir Ddinbych yn awyddus i ddod â Llafur i mewn, ac nad oedd y blaid Lafur yn awyddus i wneud hynny. Mater i blaid Lafur leol Sir Ddinbych yn unig yw hynny. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yw trefniant o fewn y Cynulliad i wneud i'r Cynulliad weithio'n well. Nid ydym yn dweud wrth bleidiau Llafur mewn ardaloedd eraill, lle mae Llafur yn y lleiafrif neu lle ceir rhesymau yn ymwneud â'r sefyllfa leol, fel drwgdeimlad rhwng Llafur a phleidiau eraill, beth y dylent neu beth sydd yn rhaid iddynt ei wneud oherwydd unrhyw drefniant a wnawn yma. Trefniant ymarferol a phragmataidd ydyw i sicrhau bod y Cynulliad hwn yn gweithredu'n well er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well i bobl Cymru.

**Janet Ryder** *a gododd—*

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydych wedi gofyn un cwestiwn, Janet. Nid ydych yn arweinydd plaid eto.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n gwbl briodol imi achub ar y cyfle hwn i wneud datganiad i'r Cynulliad ar yr argyfwng tanwydd diweddar a'r camau a gymerwyd, neu sydd ar y gweill, i leihau'r risg y bydd argyfwng o'r fath yn digwydd eto. Hoffwn ddiolch, ar ran y Cynulliad, i'r cyrff a fu'n gweithio'n galed yn ystod yr argyfwng i sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol yn parhau i weithio gyhyd â phosibl. Gwnaethant waith gwych.

O dan arweinyddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu tasglu tanwydd, sydd yn ystyried sut y gellir lleihau i'r eithaf effaith unrhyw achos o amharu ar gyflenwadau tanwydd o'leu yn y dyfodol. Yr wyf yn aelod o'r tasglu hwnnw, sydd hefyd yn cynnwys pedwar o Weinidogion Cabinet y DU, y Weithrediaeth yn yr Alban, Cynghrair yr Undebau Llafur, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y prif gwmnïau o'leu a sawl cludwr nwyddau o bwys.

One of the outcomes of the taskforce's work is a memorandum of understanding between its members, which I signed on behalf of the Assembly Cabinet. It seeks to ensure that every signatory takes the necessary contingency actions against possible future disruption, and it commits the National Assembly for Wales, within its devolved powers, to work to ensure the normal supply of oil fuels. Although, for security reasons, I cannot give all the details of proposed actions, the key elements of the memorandum of understanding are: early warning systems and co-ordinated contingency plans; crisis management systems; facilitating the movement of oil fuel to users and, in particular, to defined essential users; and action to prevent the intimidation of tanker drivers. I have arranged for a copy of that document to be placed in the Library.

Other aspects are still being finalised, but the oil companies have agreed to establish better mechanisms to inform on oil fuel deliveries, primarily through the police gold command systems, with a point of contact for the National Assembly. That will be of great help, as the difficulty in obtaining reliable information on time was a source of great frustration to us during the recent fuel crisis.

An enhanced role is recognised for the National Assembly in any future crisis. In any emergency, the UK Government is responsible for overall strategy and policy, and that will remain the case. Command and control on the ground will continue to be exercised through local police gold command systems and their associated local inter-agency mechanisms, which include local authorities, health authorities, ambulance services and others. The Assembly's role is to broker decisions on priorities with central Government and the oil companies when there is a need to balance supply demands across Wales, to advise central Government on any adjustments to national priorities or the redeployment of resources necessary to meet Welsh needs, to act as a central

Un o ganlyniadau gwaith y tasglu yw memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng ei aelodau, a lofnodais ar ran Cabinet y Cynulliad. Ei nod yw sicrhau bod pob llofnodwr yn cymryd y camau wrth gefn sydd eu hangen rhag unrhyw amhariaeth bosibl yn y dyfodol, ac mae'n ymrwymo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o fewn ei bwerau datganoledig, i weithio i sicrhau cyflenwad tanwydd olew normal. Er na allaf roi'r holl fanylion am y camau arfaethedig, am resymau diogelwch, prif elfennau'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yw: systemau rhybuddio cynnar a chynlluniau wrth gefn cydlynus; systemau rheoli mewn argyfwng; hwyluso'r gwaith o symud tanwydd olew i ddefnyddwyr ac yn arbennig, i ddefnyddwyr hanfodol a ddiffinnir; a champau i atal gyrwyr tanceri rhag cael eu bygwth. Trefnais i gopi o'r ddogfen honno gael ei rhoi yn y Llyfrgell.

Mae agweddau eraill yn cael eu trefnu'n derfynol ar hyn o bryd, ond cytunodd y cwmnïau olew i sefydlu dulliau gwell o roi gwybod am ddsbarthiadau tanwydd olew, yn bennaf drwy systemau rheoli aur yr heddlu, gyda phwynt cyswllt ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hynny o gymorth mawr, gan fod yr anhawster wrth gael gwybodaeth ddibynadwy yn brydlon yn rhwystredigaeth fawr inni yn ystod yr argyfwng tanwydd diweddar.

Cydnabyddir y bydd rôl fwy i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw argyfwng yn y dyfodol. Mewn unrhyw argyfwng, Llywodraeth y DU a fydd yn gyfrifol am y strategaeth a pholisïau cyffredinol, a bydd hynny'n parhau. Systemau rheoli aur yr heddlu lleol a'u dulliau rhyngasiantaeth lleol cysylltiedig, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, yr awdurdodau iechyd, y gwasanaethau ambiwlans ac eraill a fydd yn parhau i reoli ar lawr gwlad. Rôl y Cynulliad yw gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r blaenoriaethau gyda Llywodraeth ganolog a'r cwmnïau olew pan fo angen cydbwysu galwadau am danwydd ledled Cymru, cynghori Llywodraeth ganolog ynglŷn ag unrhyw addasiadau i'r blaenoriaethau cenedlaethol neu ailddyrrannu'r adnoddau sydd eu hangen i

reporting point for the local agencies and ensure that an accurate analysis of the all-Wales position is available, and to ensure that central Government decisions are cascaded uniformly.

To help deliver that, we have agreed that, in any future crisis, the National Assembly will be represented at the police gold commands and inter-agency meetings, and that our partners will be represented at our communications centre. However, in a national emergency, strategic command will remain with central Government, and local arrangements for managing emergencies must remain as the prime command and control mechanism for dealing with the crisis. Whatever the Assembly does must add value.

The speed with which the fuel crisis impacted on Wales, and the UK in general, caught everybody by surprise, including those running the blockades. However, we must note the lessons that need to be learnt in Wales to identify how we can further improve the Welsh response to any crisis. Meetings with key partners in Wales have been taking place at official level, in an emergency working group for Wales. That involves health services, Welsh local government, police, fire and ambulance services, and emergency planning managers. That group's work will help to ensure that the Assembly can deliver its commitments under the memorandum of understanding, by ensuring that there is clarity about the roles and responsibilities of everybody involved and that robust and clearly-understood communication channels are in place. The group is contributing to work in Whitehall to review detailed operational aspects, such as how the priority users scheme works, to ensure that Welsh experience is considered.

Our common objective must be that the response in Wales to any repeat of the fuel crisis is as effective as possible. Our involvement in the discussions in Whitehall, at political and official level, together with our emergency working group, should ensure

ddiwallu anghenion Cymru, bod yn bwynt cofnodi canolog i asiantaethau lleol a sicrhau bod dadansoddiad cywir o'r sefyllfa drwy Gymru gyfan ar gael, a sicrhau y caiff penderfyniadau Llywodraeth ganolog eu rhaeadru'n gyson.

Er mwyn helpu i gyflawni hynny, cytunasom y caiff y Cynulliad Cenedlaethol, mewn unrhyw argyfwng yn y dyfodol, ei gynrychioli yng nghyfarfodydd rheoli aur yr heddlu a'r cyfarfodydd rhyngasiantaeth ac y cynrychiolir ein partneriaid yn ein canolfan gyfathrebu. Fodd bynnag, mewn argyfwng cenedlaethol, Llywodraeth ganolog fydd yn gyfrifol am reolaeth strategol a rhaid iddi barhau i fod yn brif reolwr a dull rheoli er mwyn ymdrin â'r argyfwng. Rhaid i'r hyn a wna'r Cynulliad ychwanegu gwerth.

Yr oedd pawb, gan gynnwys y rhai a oedd yn trefnu'r blocadau, yn synnu o weld pa mor gyflym yr effeithiodd yr argyfwng tanwydd ar Gymru, a'r DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, rhaid inni ystyried y gwersi y mae angen eu dysgu yng Nghymru er mwyn nodi sut y gallwn wella'r ymateb i unrhyw argyfwng yng Nghymru ymhellach. Bu cyfarfodydd gyda'r partneriaid allweddol yng Nghymru ar lefel swyddogol, mewn gweithgor argyfwng ar gyfer Cymru. Mae hwnnw'n cynnwys y gwasanaethau iechyd, llywodraeth leol Cymru, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans, a rheolwyr cynllunio mewn argyfwng. Bydd gwaith y grŵp hwnnw'n helpu i sicrhau y gall y Cynulliad gyflawni ei ddyletswyddau o dan y memorandwm cyd-ddealltwriaeth, drwy sicrhau bod eglurhad yn glŷn â rolau a chyfrifoldebau pawb o dan sylw a bod sianeli cyfathrebu cadarn, eglur yn eu lle. Cyfranna'r grŵp at waith Whitehall o ran adolygu agweddau gweithredu manwl, megis sut mae'r cynllun defnyddwyr â blaenoriaeth yn gweithio, er mwyn sicrhau y caiff profiad Cymru ei ystyried.

Rhaid i'n hamcan cyffredin sicrhau y bydd yr ymateb yng Nghymru i unrhyw argyfwng tanwydd eto mor effeithiol â phosibl. Dylai ein cyfraniad yn y trafodaethau yn Whitehall, boed ar lefel wleidyddol neu swyddogol, ynghyd â'n gweithgor argyfwng, sicrhau y



that we can deliver that. I will inform the Assembly of any significant developments.

**Helen Mary Jones:** There were welcome aspects in your statement, particularly the recognition of an enhanced role for the National Assembly. I look forward to reading the memorandum of understanding in its entirety. However, I have questions that are not answered in the report.

What was your involvement, or that of your colleagues, in any discussions with organisations representing the interests of fuel protesters, to try to help prevent any future protests by perhaps addressing some of the concerns that led to the protests? What progress, if any, has there been in any such discussions?

3:20 p.m.

Furthermore, should such protests reoccur—obviously we all hope that they will not, and that they can be avoided—what role will he or his appropriate Cabinet colleague play in negotiating with protesters to ensure that supplies for essential users are maintained? He will be aware that there was extensive criticism about the apparent lack of action. While I appreciate that there are boundaries to our roles and responsibilities, there was a feeling that the Government of Wales should have been taking a more proactive role here.

Furthermore, will he explain to the Assembly why he is making this statement today, rather than Sue Essex, if it was appropriate for Sue to make the statements during the crisis? It would surely seem appropriate for her to carry on, though I understand that he is a member of the taskforce. He might want to explain why he was a member of that taskforce and not his colleague. In that context—and we must stress that we hope that this does not happen—should there be any repeat of the crisis, will he undertake to report in person to the Assembly, as his colleague Donald Dewar did to the Scottish

gallwn gyflawni hynny. Hysbysaf y Cynulliad o unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol.

**Helen Mary Jones:** Yr oedd agweddau i'w croesawu yn eich datganiad, yn enwedig cydnabod rôl fwy i'r Cynulliad Cenedlaethol. Edrychaf ymlaen at ddarllen y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae gennyf gwestiynau nas atebwyd yn yr adroddiad.

Pa ran fu gennych chi, neu eich cyd-Aelodau, mewn unrhyw drafodaethau gyda'r sefydliadau sydd yn cynrychioli buddiannau'r protestwyr tanwydd, er mwyn ceisio helpu i atal unrhyw brotestiadau yn y dyfodol efallai drwy fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a arweiniodd at y protestiadau? Pa gynnydd a fu, os o gwbl, mewn unrhyw drafodaethau o'r fath?

Yn ogystal, pe bai protestiadau o'r fath yn digwydd eto—wrth gwrs gobeithiwn oll na fyddant yn digwydd eto, ac y gellir eu hosgoi—pa rôl fydd ef neu ei gyd-aelod Cabinet priodol yn ei chwarae wrth negodi gyda'r protestwyr i sicrhau y caiff cyflenwadau i'r defnyddwyr hanfodol eu cynnal? Bydd yn ymwybodol o'r feirniadaeth helaeth ynghylch y diffyg gweithredu ymddangosiadol. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod ffiniau i'n rolau a'n cyfrifoldebau, bu teimlad y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cymryd rôl fwy rhagweithredol yma.

At hynny, a fydd yn egluro i'r Cynulliad pam mai ef sydd yn gwneud y datganiad hwn heddiw yn hytrach na Sue Essex, os oedd yn briodol i Sue wneud y datganiadau yn ystod yr argyfwng? Ymddangosai ei bod yn gwbl briodol iddi gario ymlaen, er y deallaf ei fod yn aelod o'r tasglu. Efallai yr hoffai egluro pam mai ef oedd yn aelod o'r tasglu hwnnw yn hytrach na'i gyd-aelod Cabinet. Yn y cyd-destun hwnnw—a rhaid inni bwysleisio y gobeithiwn na fydd hyn yn digwydd eto—os bydd argyfwng arall, a fydd yn addo rhoi adroddiad yn bersonol i'r Cynulliad, fel y gwnaeth ei gyd-aelod Donald Dewar i

Parliament?

**The First Secretary:** As regards consulting the fuel protesters on this issue, they were not present at the fuel taskforce meetings and, therefore, are not party to the memorandum of understanding. I do not think that anyone would have expected them to have been. However, Sue Essex has established a special sub-group of the Wales Transport Forum to consider the impact of fuel prices on businesses and private individuals across Wales. A meeting was held on 21 September and Helen Mary will be interested to know that Brynle Williams—who is widely regarded as the leader of the protesters—and two of his colleagues from the fuel protesters' movement, plus Phil Walters, the Texaco representative, and representatives of the two farming unions were present at that meeting. That is a healthy sign, in terms of warding off the likelihood of more protests—though not a guarantee—now that we have a channel of communication open to the fuel protest movement.

In terms of her criticisms and almost pointing a finger of blame at the Assembly, it is true that, if you sat in that communications centre room in Cathays Park for any period of time, you would hear of critical problems arising. That was why it was there, to hear what problems arose: this nurse was unable to get fuel, that carer was unable to get fuel, this gas pipeline had a leak, and there was no fuel in the Transco vans to go out to repair it. That was the very reason for setting up an information centre like our emergency centre. You could blame the Assembly for not having done anything about it in advance. However, when there is a crisis and a huge shortage, you will have problems, and the issue is to respond to those problems as quickly as possible. I hope that we will be able to do better next time, but that should not encourage the fuel protesters to think that they can have another fuel protest because it will not affect emergency services and essential supplies.

The third question: why am I dealing with this now? Simply because I signed the

Senedd yr Alban?

**Y Prif Ysgrifennydd:** O ran ymgynghori â'r protestwyr tanwydd ynglŷn â'r mater hwn, nid oeddent yn bresennol yng nghyfarfodydd y tasglu tanwydd ac, felly, nid ydynt yn rhan o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Ni chredaf y byddai unrhyw un wedi disgwyl hynny. Fodd bynnag, mae Sue Essex wedi sefydlu is-grŵp arbennig o Fforwm Trafnidiaeth Cymru a fydd yn ystyried effaith prisiau tanwydd ar fusnesau ac unigolion preifat ledled Cymru. Bu cyfarfod ar 21 Medi a bydd Helen Mary yn falch o glywed bod Brynle Williams—a ystyriwyd gan lawer fel arweinydd y protestwyr—a dau o'i gyd-brotestwyr o fudiad y protestwyr tanwydd, ynghyd â Phil Walters, sef cynrychiolydd o Texaco, a chynrychiolwyr o'r ddau undeb amaethwyr yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Mae hynny'n argoeli'n dda, o ran atal rhagor o brotestiadau yn y dyfodol—er nad oes sicrwydd—gan fod gennym sianel gyfathrebu ar agor i'r mudiad protestwyr tanwydd yn awr.

O ran ei beirniadaeth gan roi'r bai ar y Cynulliad bron, mae'n wir, pe baech wedi eistedd yn y ganolfan gyfathrebu honno ym Mharc Cathays am unrhyw gyfnod, byddech yn clywed am broblemau difrifol yn codi. Dyna pam y cafodd ei sefydlu, er mwyn clywed pa broblemau a gododd: ni allai un nyrs gael tanwydd, ni allai cynhaliwr arall gael tanwydd, yr oedd pibell nwy yn gollwng, ac nid oedd tanwydd yn faniau Transco i fynd allan i'w hatgyweirio. Dyna'r gwir reswm dros sefydlu canolfan gwybodaeth fel ein canolfan argyfwng. Gallech feio'r Cynulliad am beidio â gwneud dim byd amdano ymlaen llaw. Fodd bynnag, pan fo argyfwng a phrinder mawr, bydd gennych broblemau, a'r pwynt yw ymateb i'r problemau hynny mor fuan â phosibl. Gobeithiaf y gallwn wneud yn well y tro nesaf, ond ni ddylai hynny annog y protestwyr tanwydd i feddwl y gallant drefnu protest tanwydd arall am na fydd yn amharu ar y gwasanaethau brys a'r cyflenwadau hanfodol.

Y trydydd cwestiwn: pam mai fi sydd yn ymdrin â hyn yn awr? Yn syml am mai fi a

memorandum of understanding.

lofnododd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

**David Davies:** I begin by echoing the thanks expressed in the first paragraph of this document to the emergency services for the hard work that they undertook. I also, like Helen Mary, have a couple of specific concerns about this. My first concern relates to the membership of this taskforce. You say that, in addition to yourself, it will consist of four UK Cabinet Ministers, presumably one member of the Scottish Executive, the TUC, the Association of Chief Police Officers, the major oil companies and several major hauliers. The first question is: instead of simply talking to several major hauliers, would it not be pertinent to talk to some of the bodies that represent hauliers, such as the Freight Transport Association or the Institute of Logistics, who can speak for many of the small hauliers, not just for one or two of the large ones?

**David Davies:** Dechreuaf drwy ategu'r diolchiadau ym mharagraff cyntaf y ddogfen hon i'r gwasanaethau brys am eu gwaith caled. Mae gennyf innau, fel Helen Mary, ychydig o bryderon penodol ynglŷn â hyn. Mae fy mhryder cyntaf yn ymwneud ag aelodaeth y tasglu hwn. Dywedwch y bydd yn cynnwys, heblaw amdanoch chi, bedwar o Weinidogion Cabinet y DU, un aelod o Weithrediaeth yr Alban mae'n siŵr, y TUC, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y prif gwmnïau oled a sawl cludwr nwyddau o bwys. Y cwestiwn cyntaf yw: yn hytrach na siarad ag ychydig o'r prif gludwyr nwyddau yn unig, oni fyddai'n berthnasol siarad â rhai o'r cyrff sydd yn cynrychioli cludwyr nwyddau, fel y Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau neu'r Sefydliad Logisteg, a all siarad ar ran llawer o'r cludwyr bach, ac nid ar ran un neu ddau o'r rhai mawr yn unig?

The second point is that you say in this statement that no one expected the fuel crisis to hit as quickly as it did. As I pointed out before, it did so because we are so reliant on the just-in-time system as very few stocks are kept in this country. Following on from that, industry in one part of the country relies very much on having goods delivered to them from other parts of the country. As well as having Wales and Scotland represented, there needs to be representation on this taskforce from all parts of the United Kingdom. That could mean local government leaders in large urban conurbations, such as Manchester or Liverpool, and it would certainly mean at least one person from the new London executive. It is not good enough to look at Wales and Scotland in isolation, because we are so dependent on other parts of the UK.

Yr ail bwynt yw y dywedwch yn y datganiad hwn nad oedd neb yn disgwyl i'r argyfwng tanwydd effeithio ar bobl mor fuan ag y gwnaeth. Fel y nodais o'r blaen, gwnaeth hynny am ein bod mor ddibynnol ar y systemau dim-ond-mewn-pryd gan mai ychydig o stociau a gedwir yn y wlad hon. Yn sgîl hynny, mae diwydiant mewn un rhan o'r wlad yn ddibynnol iawn ar nwyddau yn cael eu dosbarthu iddynt o rannau eraill o'r wlad. Yn ogystal â chynrychiolaeth o Gymru a'r Alban, mae angen cynrychiolaeth o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ar y tasglu hwn. Gallai hynny olygu arweinwyr llywodraeth leol mewn cytrefi mawr, fel Manceinion neu Lerpwl, a byddai'n sicr yn golygu un person o leiaf o weithrediaeth newydd Llundain. Nid yw'n ddigon da edrych ar Gymru a'r Alban ar wahân, am ein bod mor ddibynnol ar rannau eraill o'r DU.

I want to raise a point regarding the information that you have provided on how a crisis will be dealt with next time. In fact, I should say the lack of information, because all we have heard about are the early warning systems and the crisis management systems. That is fair enough and we understand that.

Hoffwn godi pwynt am yr wybodaeth a roddwyd gennych ynghylch sut y dylid ymdrin ag argyfwng y tro nesaf. Yn wir, dylwn ddweud diffyg gwybodaeth, gan mai'r cwbl a glywsom oedd y systemau rhybudd cynnar. Mae hynny'n ddigon teg a deallwn hynny. Fodd bynnag, mae'r trydydd pwynt

However, this third bullet point is far too general: 'to facilitate the movement of oil fuel to users, and, in particular, to defined essential users'. We need to know how you will facilitate the movement of oil fuel to users. There is no mention of how this will happen in the document. We appreciate that fuel has to move, but if we are to take this statement seriously we need more information.

I deplore the fourth bullet point: 'action to prevent intimidation of tanker drivers'. There is an insinuation in this that there was some form of intimidation. However, when I spoke to police officers who were involved in policing this dispute—and I hope that you also spoke to them, First Secretary—they told me categorically that there was virtually no intimidation. In one or two isolated cases, certain extremists who pretended to be part of the protest, but were in fact nothing to do with the protest—they came from extreme left and right wing political groups—tried to cause some problems. However, the vast majority, 99.9 per cent of the people who were on those picket lines—

**Val Feld** *rose*—

**The Presiding Officer:** Order. We are in the middle of questions.

**Val Feld:** I know we are.

**The Presiding Officer:** Order. I will take points of order after questions.

**David Davies:** By putting in a bullet point like this and suggesting that intimidation went on, it makes further protest even more likely—

**Several Assembly Members** *rose*—

**David Davies:** I suggest that the Members who are trying to talk over me go and talk to the police and get their facts sorted before they try to interrupt this debate.

bwled hwn yn llawer rhy gyffredinol: 'to facilitate the movement of oil fuel to users, and, in particular, to defined essential users'. Mae angen inni wybod sut y byddwch yn hwyluso'r gwaith o symud tanwydd olew i ddefnyddwyr. Nid oes sôn yn y ddogfen am sut y bydd hyn yn digwydd. Gwerthfawrogwn fod yn rhaid symud tanwydd, ond os byddwn am ystyried y datganiad hwn o ddifrif mae angen inni gael rhagor o wybodaeth.

Mae'n gas gennyf y pedwerydd pwynt bwled sef: 'action to prevent intimidation of tanker drivers'. Awgryma hynny y bu rhyw fath o fygythiad. Fodd bynnag, pan siaradais â swyddogion yr heddlu a oedd yn ymwneud â phlisma'r anghydfod hwn—a gobeithiaf ichi hefyd siarad â hwy, Brif Ysgrifennydd—dywedasant wrthyf yn bendant nad oedd braidd dim bygythiadau. Mewn un neu ddau o achosion yn unig, ceisiodd eithafwyr a oedd yn cymryd arnynt eu bod yn rhan o'r protest, ond nad oeddent mewn gwirionedd—yr oeddent yn aelodau o grwpiau gwleidyddol eithafol o'r adain chwith a'r adain dde—achosi rhai problemau. Fodd bynnag, yr oedd y mwyafrif llethol, 99.9 y cant o'r bobl ar y llinellau piced—

**Val Feld** *a gododd*—

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydym yng nghanol cwestiynau.

**Val Feld:** Gwn hynny.

**Y Llywydd:** Trefn. Cymeraf y pwyntiau o drefn ar ôl y cwestiynau.

**David Davies:** Drwy gynnwys pwynt bwled fel hwn gan awgrymu y bu bygythiadau, mae'n sicrhau y bydd protestiadau pellach yn fwy tebygol fyth o ddigwydd—

**Sawl Aelod o'r Cynulliad** *a gododd*—

**David Davies:** Awgrymaf y dylai'r Aelodau sydd yn ceisio siarad ar fy nhraws fynd i siarad â'r heddlu a chael eu ffeithiau yn gywir cyn ceisio ymyrryd yn y ddadl hon.

**The Presiding Officer:** Order. No Members can talk over any other Members in this Chamber because the ultimate control of the sound system rests with me.

**David Davies:** Thank you for that clarification, Llywydd. Does the First Secretary agree that the Assembly could make a valuable contribution in a further crisis such as the fuel crisis by silencing inflammatory comments, such as those that came from the First Secretary's colleague, Tony Blair, in No. 10? He lengthened that protest by about 24 hours when he laid down a challenge to the protesters, saying that fuel would be moving the following day. They had thought about backing down, but they were not prepared to do so in the face of such a challenge. Perhaps the First Secretary could play a useful role in silencing his colleagues.

Finally, as Helen Mary mentioned, during that protest the Prime Minister said that he would be happy to talk to the people on those picket lines and at the barricades when those barricades came down. They were not barricades—

**Brian Gibbons:** Were they barricades or were they not barricades?

**David Davies:** I am being barricaded by the Member behind me. It will be difficult to continue if you keep interrupting. If you want to stand up and make some point of order, I would be happy—

**The Presiding Officer:** Order. I would not be happy, David. Can you finish your questions now?

**David Davies:** Have the First Secretary, the Prime Minister and the members of this Executive upheld that promise to talk to the people who were involved in those protests? They are ordinary people—hauliers and members of the public—who are sick of paying money hand over fist so that Gordon Brown can fill his war chest and bribe people to vote for him in the next general election.

**The First Secretary:** David, many of your

**Y Llywydd:** Trefn. Ni all yr un Aelod siarad ar draws Aelodau eraill yn y Siambr hon am mai myfi sydd yn gyfrifol am y system sain yn y pen draw.

**David Davies:** Diolch yn fawr ichi am yr eglurhad hwnnw, Lywydd. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno y gallai'r Cynulliad wneud cyfraniad gwerthfawr mewn argyfwng arall megis yr argyfwng tanwydd drwy roi taw ar y sylwadau ymfflamychol, megis y sylwadau gan gyd-aelod y Prif Ysgrifennydd, Tony Blair yn Rhif 10? Estynnodd y brotest honno 24 awr pan heriodd y protestwyr, gan ddweud y byddai'r tanwydd yn symud y diwrnod canlynol. Yr oeddent wedi ystyried ildio, ond nid oeddent yn barod i wneud hyn ar ôl her o'r fath. Efallai y gallai'r Prif Ysgrifennydd chwarae rôl ddefnyddiol wrth roi taw ar ei gyd-Aelodau.

Yn olaf, soniodd Helen Mary yn ystod y brotest honno i'r Prif Weinidog ddweud y byddai'n barod i siarad â phobl ar y llinellau piced hynny ac wrth y rhwystrau pan ddeuai'r rhwystrau i lawr. Nid rhwystrau oeddent—

**Brian Gibbons:** Ai rhwystrau oeddent ai peidio?

**David Davies:** Mae'r Aelod y tu ôl imi yn fy rhwystro innau. Bydd yn anodd parhau os mynnwch dorri ar fy nhraws. Os hoffech sefyll a gwneud rhyw bwynt o drefn, byddwn yn hapus—

**Y Llywydd:** Trefn. Ni fyddwn i yn hapus, David. A wnewch orffen eich cwestiwn yn awr?

**David Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd, y Prif Weinidog ac aelodau'r Weithrediaeth hon wedi cadw'r addewid hwnnw i siarad â'r bobl a gymerodd ran yn y protestiadau hynny? Pobl gyffredin ydynt—cludwyr nwyddau ac aelodau'r cyhoedd—sydd wedi syrffedu ar roi arian byth a beunydd fel y gall Gordon Brown lenwi ei gist rhyfel a llwgrwobrwyo pobl i bleidleisio drosto yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

**Y Prif Ysgrifennydd:** David, mae llawer

questions are valid. However, it is much easier to respond to someone's questions when I can read their lips without them being obscured by flecks of white foam when they reach their peroration. However, if I stick to the non-emotional points, there was a lot of sensible material, to which I will try to respond.

As regards which representatives of the haulage industry are on the fuel taskforce and are signatories of the memorandum of understanding, there are the oil hauliers who work on contract, such as P&O working for Shell and Esso, and there is also the independent oil haulage industry. This is about the movement of oil, which is critical in trying to ward off a fuel crisis impacting on essential services. Those two groups of hauliers are represented.

Sue Essex has included representatives of the Road Haulage Association and the Freight Transport Association—who tend to represent the larger and smaller elements of the road haulage industry—on her transport forum. As I mentioned earlier—I am contradicting some of the implications of what you were saying, David—Brynle Williams and the leaders of the protest movement, and the farmers' unions, at least one of which is not entirely unfamiliar with some of the elements of this protest, are also on her transport consultation group. That must be a good sign. We should all welcome that. We have a channel open to the protest movement. David Davies should not imply otherwise.

3:30 p.m.

That was not the purpose of the fuel taskforce. Its purpose was to try to ensure that if the fuel crisis hits again, we will not be caught so short. I hope that he accepts that the protesters themselves did not realise how vulnerable this country was, because it had just become so dominant. Bunkers have disappeared from ambulance stations and from many local industrial companies, therefore, they do not have even seven days worth of fuel in stock. They have no fuel in stock. They simply order and pay for it on

o'ch cwestiynau'n rhai dilys. Fodd bynnag, mae'n llawer haws ymateb i gwestiynau rhywun os gallaf weld ei wefusau heb iddynt gael eu cuddio gan ewyn wrth i'r siaradwr gyrraedd pen ei araith. Fodd bynnag, os cadwaf at y pwyntiau anemosiynol, yr oedd tipyn o ddeunydd synhwyrol y gwnaf geisio ymateb iddo.

O ran pa gynrychiolwyr o'r diwydiant cludo nwyddau sydd yn aelodau o'r tasglu tanwydd ac yn llofnodwyr y memorandwm cydddealltwriaeth, mae cludwyr olew sydd yn gweithio ar gontract, megis P&O sydd yn gweithio i Shell ac Esso, ac mae'r diwydiant cludo olew annibynnol hefyd. Mae hyn yn ymwneud â symud olew, sydd yn hanfodol wrth geisio atal argyfwng tanwydd rhag amharu ar y gwasanaethau hanfodol. Mae'r ddau grŵp hwinnw wedi eu cynrychioli.

Mae Sue Essex wedi cynnwys cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffordd a'r Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau—sydd yn tueddu i gynrychioli'r aelodau mawr a bach yn y diwydiant cludo nwyddau ar y ffordd—ar ei fforwm trafndiaeth. Fel y soniais yn gynharach—gwrthddywedaf rai o'r ymhlgygiadau yn yr hyn a ddywedwyd gennyh, David—mae Brynle Williams ac arweinwyr y mudiad protest, ac unedebau'r amaethwyr, o leiaf un nad yw'n gwbl anghyfarwydd â rhai elfennau o'r brotest hon hefyd ar ei grŵp ymgynghorol ar drafnidiaeth. Rhaid mai da o beth yw hynny. Dylem oll groesawu hynny. Mae sianel wedi ei hagar i'r mudiad protest. Ni ddylai David Davies awgrymu fel arall.

Nid dyna oedd diben y tasglu tanwydd. Ei ddiben oedd ceisio sicrhau na fydd prinder, os bydd argyfwng tanwydd arall. Gobeithiaf y bydd yn derbyn nad oedd y protestwyr eu hunain yn sylweddoli pa mor fregus oedd y wlad hon, am iddo ddatblygu mor gryf. Nid oes howldiau bellach yn y gorsafoedd ambiwlans na chan y cwmnïau diwydiannol lleol, felly, nid oes ganddynt hyd yn oed gwerth saith diwrnod o danwydd mewn stoc. Nid oes ganddynt unrhyw danwydd mewn stoc. Maent ond yn ei archebu ac yn talu

their gold card or credit card at the local filling station. That is how it works these days. It is quite unlike the way it worked 10 years ago and it has made the country far more vulnerable to fuel protests.

He mentioned the question of the flow of deliveries and goods back and fore between different parts of the UK. He is right, of course, and I think that Wales was the only place that had factory lay-offs. It was only Peter's Food Service in Bedwas and Panasonic in Cardiff, as far as I am aware, that had to shut factories for two or three days because of the lack of fuel. They are represented via the DTI and the DETR, who are among the four UK central Government departments on the fuel taskforce. That is their job. He may think that Ken Livingstone should also have been on the taskforce but I cannot be responsible for what happens in England.

The question of intimidation is interesting. We struggled long and hard with this in three meetings of the fuel taskforce. Was there or was there not intimidation? Or was there enough intimidation at least to prevent the tankers' drivers going out? I do not think that anybody would say that there had been no intimidation of drivers. When the fuel protest began on that Thursday night in Stanlow, there was probably no doubt that there was intimidation. I have the word of a local MP who was present for most of that night that there was intimidation. Perhaps it was only on that first night. We do not know. However, that was enough to set the tone, which made tanker drivers reluctant to go out, because after all they are basically driving incendiary bombs. They have 36,000 litres of fuel behind them when they sit in the cab. That is an incendiary bomb. The fear of a brick through the window is a big fear for a fuel tanker driver who is worried about intimidation or has heard on the grapevine that there was intimidation—

**The Presiding Officer:** Order. This is a statement.

amdano ar eu cerdyn aur neu eu cerdyn credyd yn yr orsaf betrol leol. Dyna sut mae pethau y dyddiau hyn. Mae'n gwbl wahanol i'r hyn a ddigwyddodd 10 mlynedd yn ôl ac mae wedi gwneud y wlad yn llawer mwy bregus os bydd protestiadau tanwydd.

Soniodd am fater llif dosbarthiadau a nwyddau yn ôl ac ymlaen rhwng y gwahanol rannu o'r DU. Mae'n llygad ei le, wrth gwrs, a chredaf mai yng Nghymru yn unig y caewyd ffatrioedd. Dim ond Peter's Food Service ym Medwas a Panasonic yng Nghaerdydd, hyd y gwn, a fu'n rhaid cau ffatrioedd am ddau neu dri diwrnod oherwydd diffyg tanwydd. Fe'u cynrychiolir trwy'r Adran Masnach a Diwydiant ac Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, sydd ymhlith pedair adran Llywodraeth ganolog y DU sydd ar y tasglu tanwydd. Dyna eu swydd. Efallai ei fod o'r farn y dylai Ken Livingstone hefyd fod yn aelod o'r tasglu ond ni allaf fod yn gyfrifol am yr hyn a ddigwydd yn Lloegr.

Mae mater y bygythiadau yn un diddorol. Bu cryn drafodaeth ar hynny mewn tri chyfarfod o'r tasglu tanwydd. A oedd bygythiadau ai peidio? Neu a oedd digon o fygythiad o leiaf i atal gyrwyr tanceri rhag gyrru allan? Ni chredaf y byddai unrhyw un yn dweud na chafodd y gyrwyr eu bygwth o gwbl. Pan ddechreuodd y brotest tanwydd ar y nos Iau yn Stanlow, nid oes unrhyw amheuaeth bron bod bygythiadau. Mae gennyf air AS lleol a oedd yn bresennol drwy gydol y noson bron bod bygythiadau. Efallai mai dim ond ar y noson gyntaf honno yr oedd hynny. Ni wyddom. Fodd bynnag, yr oedd hynny'n ddigon i osod y naws, a oedd yn sicrhau bod y gyrwyr tanceri yn anfodlon mynd allan, am eu bod wedi'r cyfan yn gyrru bomiau cynnau tân yn y bôn. Mae ganddynt 36,000 o litrau o danwydd y tu ôl iddynt pan fyddant yn eistedd yn y caban. Bom gynnau tân ydyw. Mae ofn bric trwy'r ffenestr yn ofn mawr i yrrwr tancer tanwydd sydd yn pryderu am fygythiadau neu sydd wedi clywed si bod bygythiadau—

**Y Llywydd:** Trefn. Datganiad yw hwn.

**The First Secretary:** There was enough intimidation to create fear among the tanker drivers, and giving them the assurances that they require is a key part in preventing another crisis. If you can keep the tanker drivers going out, with police protection as appropriate, then there will not be a repetition of the fuel crisis impacting on essential services and industries, such as Peter's Food Service or Panasonic.

**Peter Rogers:** Intimidation has been exaggerated. There was one incident when a lorry driver attempted to drive through some people. I think that he was charged, but it is over now. However, it was the most peaceful picketing that I have ever seen in Stanlow. There was no intimidation. David mentioned that the blockade might have finished 24 hours earlier. It was called off. However, tanker drivers arrived and said that they would not carry on because of what had happened in London.

There are lessons that must be learnt. There was a protest in Stanlow, which is one of the biggest refineries in Europe. It started, as you quite rightly said, on Thursday evening. We did not react to that. We left it until the Tuesday, when Tony Blair went to celebrate Prescott's 40 years in politics. The Assembly must react quicker if this ever happens again. Services in areas such as my constituency in Ynys Môn, would not have suffered as they did if the Assembly had been negotiating or if you had been in charge and set up a group. We would then have known that the emergency services would be maintained. It was a lack of co-operation. Those corridors must be covered next time. If it ever happens again, we must react quicker.

However, there is an answer to this. We must recognise that it is unfair to pay these fuel prices in this country. We have the cheapest fuel prices before tax, and yet, after tax, we are the most expensive in Europe. It discriminates against haulage and people in rural areas. If we understand that and we allay those kinds of fears, we will not face such crises again.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oedd digon o fygythiadau i godi braw ar y gyrwyr tanceri, ac mae rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnynt yn rhan allweddol o atal argyfwng arall. Os gallwch sicrhau bod y gyrwyr tanceri'n mynd allan, o dan ddiogelwch yr heddlu fel y bo'n briodol, yna ni fydd argyfwng tanwydd sydd yn effeithio ar y gwasanaethau hanfodol a'r diwydiannau, fel Peter's Food Service neu Panasonic, yn digwydd eto.

**Peter Rogers:** Cafodd bygythiadau eu gorliwio. Bu un digwyddiad pan geisiodd gyrrwr lorri yrru tancer drwy nifer o bobl. Credaf iddo gael ei gyhuddo, ond mae'r cyfan drosodd bellach. Fodd bynnag, dyna'r picedu mwyaf heddychlon a welais erioed yn Stanlow. Nid oedd unrhyw fygythiadau. Soniodd David y gallai'r blocâd fod wedi ei godi 24 awr ynghynt. Fe'i codwyd. Fodd bynnag, cyrhaeddodd gyrwyr tanceri gan ddweud na fyddent yn mynd ymlaen oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn Llundain.

Mae gwersi y mae'n rhaid eu dysgu. Bu protest yn Stanlow, sef un o'r purfeydd mwyaf yn Ewrop. Dechreuodd, fel y nodwyd gennych yn gywir, nos Iau. Nid ymatebwyd i hynny. Gadawsom bethau tan ddydd Mawrth, pan aeth Tony Blair i ddathlu pen-blwydd 40 mlynedd John Prescott mewn gwleidyddiaeth. Rhaid i'r Cynulliad ymateb ynghynt os digwydd hyn fyth eto. Ni fyddai gwasanaethau mewn ardaloedd fel fy etholaeth i yn Ynys Môn, wedi dioddef fel y gwnaethant pe bai'r Cynulliad wedi bod yn negodi neu pe baech chi wedi bod yn gyfrifol ac wedi sefydlu grŵp. Byddem wedyn wedi cael gwybod y byddai'r gwasanaethau brys yn cael eu cynnal. Bu diffyg cydweithredu. Rhaid cwmpasu hyn y tro nesaf. Os bydd yn digwydd byth eto, rhaid inni ymateb ynghynt.

Fodd bynnag, mae ateb i hyn. Rhaid inni gydnabod ei bod yn annheg talu'r prisiau tanwydd hyn yn y wlad hon. Ni sydd â'r prisiau tanwydd rhataf cyn treth, ond eto, ar ôl treth, ni sydd â'r prisiau uchaf yn Ewrop. Mae'n gwahaniaethu yn erbyn y diwydiant cludo nwyddau a phobl mewn ardaloedd gwledig. Os deallwn hynny a thawelu'r mathau hynny o bryderon, ni wynebwn



argyfyngau o'r fath eto.

**The First Secretary:** There are two points there, namely how quickly could we and should we have reacted to the protest movement. Peter will accept that many people, mostly among the protesters themselves, did not expect the protest to last beyond the weekend. The protesters expected it to last Thursday, Friday and Saturday perhaps, before calling it off on Saturday night. However, they realised that they had tapped into a wellspring of public support that they did not anticipate. Perhaps someone then said 'the public are behind us so we can go for their throats, rather than go home on Saturday night or Sunday morning'. That caught them by surprise and it is, therefore, not entirely surprising that it caught everyone else by surprise. On the first day that we returned to work after that, which was the Monday, we set up the emergency centre. I am not sure how we could have acted quicker than to react on the first working day after we realised that the protest had not been called off and that there could be an impact on public services.

Peter's point on fuel prices is fair. The combination of the high tax regime, which began under the Conservative Government and carried on under the present one, the beyond-inflation increases in vehicle excise and fuel duty has placed a big burden on everyone. However, the Conservative Government started it, and it continued under our Government, when oil was very cheap. It was \$9 a barrel, then \$10, it fell back to \$9, then rose to \$11 and so on. Everyone thought that it was a nice kind of revenue. Then, all of a sudden, since April or May this year, the price of oil has almost quadrupled. It rose from \$9 a barrel to peak at \$35 a barrel. Oil now costs \$27 or \$28 a barrel, which is still very high. If one had known that we would now enter a period of high fuel prices, neither the Conservative nor the Labour Government would ever have dreamt of introducing the fuel duty escalator. However, it seemed to be the right thing to do when Norman Lamont introduced it. It also seemed right for Kenneth Clarke and Gordon Brown to continue with it. However, if you knew

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae dau bwynt yma, sef, pa mor gyflym y gallem ac y dylem fod wedi ymateb i'r mudiad protest. Bydd Peter yn derbyn nad oedd llawer o bobl, yn bennaf ymhlith y protestwyr eu hunain, yn disgwyl i'r brotest barhau ar ôl y penwythnos. Yr oedd y protestwyr yn disgwyl iddi barhau tan ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn diwethaf o bosibl, cyn rhoi'r gorau iddi nos Sadwrn. Fodd bynnag, sylweddolasant eu bod wedi ennyn cefnogaeth ymhlith y cyhoedd nad oeddent wedi ei rhagweld. Efallai i rywun ddweud 'mae'r cyhoedd yn ein cefnogi felly gallwn fynd ati, yn hytrach na mynd adref nos Sadwrn neu fore Sul'. Fe'i synnwyd gan hynny ac felly nid yw'n rhyfeddod o gwbl bod pawb arall wedi eu synnu. Ar y diwrnod cyntaf y dychwelasant i'r gwaith ar ôl hynny, sef ddydd Llun, sefydlwyd canolfan frys gennym. Nid wyf yn siŵr sut y gallem fod wedi gweithredu ynghynt nag ymateb ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl inni sylweddoli nad oedd y protestwyr wedi rhoi'r gorau iddi ac y gellid effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae pwynt Peter ynglŷn â phrisiau tanwydd yn un teg. Mae'r cyfuniad o'r drefn trethi uchel, a ddechreuodd o dan y Llywodraeth Geidwadol ac sydd yn parhau o dan yr un bresennol, a'r cynnydd mewn ecséis cerbydau a threth danwydd sydd yn uwch na chwyddiant wedi gosod baich mawr ar bawb. Fodd bynnag, y Llywodraeth Geidwadol a ddechreuodd hyn, ac mae wedi parhau o dan ein Llywodraeth ni, pan oedd olew yn rhad iawn. Yr oedd yn costio \$9 y gasgen, wedyn \$10 y gasgen, gostyngodd i \$9, gan godi i \$11 ac yn y blaen. Credai pawb ei fod yn refeniw bach net. Wedyn yn sydyn iawn, ers Ebrill neu Fai eleni, cynyddodd pris olew bedair gwaith bron. Cododd o \$9 y gasgen i uchafswm o \$35 y gasgen. Mae olew bellach yn costio \$27 neu \$28 y gasgen, sydd yn uchel iawn o hyd. Pe bai rhywun wedi gwybod ein bod yn awr mewn cyfnod o brisiau tanwydd uchel, ni fyddai'r Llywodraeth Geidwadol na'r Llywodraeth Lafur wedi breuddwydio am gyflwyno'r esgynnydd treth tanwydd. Fodd bynnag, ymddangosai mai hynny oedd y peth cywir

that you were in a period when crude oil was expensive, you would not do it.

**Kirsty Williams:** I thank the First Secretary for his statement. I would also like to express my gratitude to those who worked incredibly hard to maintain services under difficult circumstances. Does the First Secretary accept that, despite the best efforts of officials here and of people throughout the country, there was a quite disastrous effect on a number of services? I have a particular interest in the national health service and in social services. Will there be an evaluation by the administration into the effects of the crisis on the NHS, looking in particular at the 110 operations that were cancelled in Cardiff, the 100 in Swansea and the 100 in north-west Wales? Will the First Secretary ensure that contingency plans for the NHS for such a crisis in future will be a priority for this administration? Will he also take steps to ensure that vital staff are kept in the picture? While we in the Chamber were hearing from Sue Essex that vital fuel supplies were getting through, the general practitioners and the community nurses who needed them had little idea about where to get those supplies and how the system would operate. I would be grateful if the First Secretary could ensure that we find better ways of informing those vital staff in the community of how they can access fuel supplies.

Also, when considering the issue of essential services, will any review include considering essential services in its broadest possible terms? I mentioned at the time the impact that the fuel crisis had on community transport schemes. In my constituency, Brecon and Radnorshire, the dial-a-ride service could not operate. The service provides essential transport links for elderly and disabled people in the community,

i'w wneud pan gyflwynodd Norman Lamont ef. Ymddangosai mai'r peth cywir hefyd oedd i Kenneth Clarke a Gordon Brown barhau ag ef. Fodd bynnag, pe baech yn gwybod eich bod mewn cyfnod pan oedd olew crai yn ddrud, ni fyddech wedi gwneud hynny.

**Kirsty Williams:** Diolchaf i'r Prif Ysgrifennydd am ei ddatganiad. Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhai a fu'n gweithio'n rhyfeddol o galed i gynnal y gwasanaethau o dan amgylchiadau anodd. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn y bu effaith drychinebus ar nifer o wasanaethau, er gwaethaf ymdrechion y swyddogion yma a phobl ymhob rhan o'r wlad? Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y gwasanaeth iechyd gwladol a'r gwasanaethau cymdeithasol. A fydd y weinyddiaeth yn gwerthuso pa effaith a gafodd yr argyfwng ar yr NHS, gan ystyried yn benodol y 110 o lawdriniaethau a gafodd eu canslo yng Nghaerdydd, y 100 yn Abertawe a'r 100 yng ngogledd-orllewin Cymru? A fydd y Prif Ysgrifennydd yn sicrhau y bydd y weinyddiaeth hon yn rhoi blaenoriaeth i gynlluniau wrth gefn ar gyfer yr NHS os digwydd argyfwng o'r fath yn y dyfodol? A fydd hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod aelodau holl bwysig o staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf? Tra ein bod ni yn y Siambr yn clywed gan Sue Essex bod y cyflenwadau tanwydd hanfodol yn cyrraedd, nid oedd syniad gan y meddygon teulu a'r nyrsys cymuned yr oedd eu hangen arnynt ble y dylent fynd i gael y cyflenwadau hynny a sut y byddai'r system yn gweithredu. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Ysgrifennydd sicrhau y gallwn gael ffyrdd gwell o hysbysu aelodau holl bwysig o staff yn y gymuned ynglŷn â sut y gallant gael cyflenwadau tanwydd.

Hefyd, wrth ystyried mater y gwasanaethau hanfodol, a fydd unrhyw adolygiad yn ystyried y gwasanaethau hanfodol yn ei ystyr ehangaf posibl? Soniais ar y pryd am yr effaith a gafodd yr argyfwng tanwydd ar gynlluniau trafnidiaeth yn y gymuned. Yn fy etholaeth i, Brycheiniog a Sir Faesyfed, ni allai'r gwasanaeth *dial-a-ride* weithredu. Rhydd y gwasanaeth gludiant hanfodol i'r henoed a'r anabl yn y gymuned, gan eu

enabling them to go to buy food and other vital supplies. Can we therefore consider essential services in its broadest possible mix?

Could we consider how petrol was distributed when the petrol crisis was coming to an end? There was a case in my constituency where the smallest petrol station in a town was supplied, rather than the biggest station. Two pumps were supplied with petrol in a station where there were only a couple of tanks underground, when we could have supplied a petrol station that had eight pumps and larger tanks. The smallest petrol station was given the fuel, rather than a bigger station, which could have eased the supply of petrol to the public.

Finally, and most importantly, when can we expect an announcement by central Government addressing the cause of the crisis—that is, doing something about the high cost of petrol—and, in particular, considering the issues facing rural areas, which are suffering a double whammy? We pay the highest of high petrol taxes and we do not have the ability to use buses or trains to go about our daily lives.

3:40 p.m.

**The First Secretary:** You are speaking with two hats on, Kirsty: as a representative of a sparsely populated rural area and as Chair of the Health and Social Services Committee. You are right to point out to everyone—including the fuel protesters, who have completely missed this point—that it is all very well to say that if ambulances with 999 lights on have petrol, everything is fine, when the bulk of essential users do not have blue lamps. These are people such as district nurses, individuals suffering from schizophrenia who go into hospital as day patients to get their tablets and then go home, and carers visiting terminally ill patients in their homes. They need to fill their cars with petrol to be able to go out. You also mentioned services such as dial-a-ride. Getting that point across to the fuel blockaders was difficult. Getting the

galluogi i fynd i brynu bwyd a chyflenwadau hanfodol eraill. Felly a gawn ystyried y gwasanaethau hanfodol yn eu hystyr ehangaf posibl?

A allem ystyried sut y cafodd petrol ei ddosbarthu pan oedd yr argyfwng petrol yn dod i ben? Yr oedd enghraifft yn fy etholaeth i lle y cafodd yr orsaf betrol leiaf mewn tref ei chyflenwi, yn hytrach na'r orsaf fwyaf. Cyflenwyd petrol i ddau bwmp mewn gorsaf lle nad oedd ond ychydig o danciau tan ddaear, pan allem fod wedi cyflenwi gorsaf betrol a chanddi wyth o bympiau a thanciau mwy. Yr orsaf betrol leiaf a gafodd y tanwydd, yn hytrach na gorsaf fwy, a allai fod wedi hwyluso cyflenwi petrol i'r cyhoedd.

Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, pryd y gallwn ddisgwyl cyhoeddiad gan y Llywodraeth ganolog a fydd yn mynd i'r afael ag achos yr argyfwng—hynny yw, sydd yn gweithredu ar gost uchel petrol—ac, yn arbennig, yn ystyried y materion sydd yn wynebu'r ardaloedd gwledig, sydd yn dioddef am ddau reswm? Ni sydd yn talu'r costau uchaf ar drethi petrol uchel ac ni sydd yn y sefyllfa lle na allwn ddefnyddio bysys na threnau yn ein bywyd bob dydd.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydych yn siarad gan wisgo dwy het, Kirsty: fel cynrychiolydd ardal wledig amhoblog ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr ydych yn gywir wrth nodi i bawb—gan gynnwys y protestwyr tanwydd, sydd wedi colli'r pwynt yn gyfan gwbl—na ellir dweud bod popeth yn iawn os oes petrol gan ambiwlansys gyda goleuadau 999 arnynt, lle nad oes gan y rhan fwyaf o'r defnyddwyr hanfodol lampau glas. Dyma'r bobl fel nyrsys ardal, unigolion sydd yn dioddef o sgitsoffrenia sydd yn mynd i'r ysbyty fel cleifion dydd er mwyn cael eu tabledi ac yna'n mynd adref, a chynhalwyr sydd yn ymweld â chleifion sydd â salwech angheuol yn eu cartrefi. Mae angen iddynt hwy lenwi eu ceir â phetrol er mwyn mynd allan. Soniasoch hefyd am wasanaethau fel *dial-a-ride*. Bu'n anodd sicrhau bod y gwarchaewyr

ambulances working, and the health and social services functioning as they should have been able to, were two entirely different matters. It showed how many health and social service activities are now carried out in the community and not in big institutions serviced by blue-lamp-flashing ambulances doing 50 or 60 miles per hour.

Kirsty mentioned several points about evaluating what happened and why operations were cancelled. Operations were cancelled because staff could not get to work or individual patients could not get to hospitals. People did not understand that 80 per cent of NHS staff must be at work for it to function normally. It is not only doctors, surgeons and theatre nurses who have to be present for an operation to take place; 80 per cent of staff must be present, otherwise the hospital ceases to function in terms of doing any new work. Getting that point across was difficult.

Kirsty also mentioned the designation of filling stations. Because that was all new to us, it was difficult for oil companies to supply information to the Department of Trade and Industry to say which filling stations they wanted to designate as ones where essential users, such as district nurses, could get petrol supplies. In one or two cases, they supplied the wrong information, such as when they referred to a station in Anglesey that had closed down seven years before. It is not the Government's fault. We do not know which filling stations are which. If a station has closed but is still on the oil company's books, I do not know where the bills have been going for the last seven or eight years. It is difficult, because you are reliant on the industry to have up-to-date information on the location of its filling stations. That might be the reason why small stations rather than big ones were designated when the oil supplies were beginning to filter through again.

One of our successes was to increase the number of filling stations on the designated

tanwydd yn deall y pwynt hwnnw. Mae sicrhau bod yr ambiwlansys yn gweithio a bod y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu fel y dylent, yn ddau beth hollol wahanol. Dangosodd faint o weithgareddau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol bellach sydd yn cael eu cyflawni yn y gymuned yn hytrach nag mewn sefydliadau mawr a wasanaethir gan yr ambiwlansys sydd yn teithio ar 50 neu 60 milltir yr awr a'u goleuadau glas yn fflachio.

Crybwyllodd Kirsty sawl pwynt ynglŷn â gwerthuso'r hyn a ddigwyddodd a pham y cafodd llawdriniaethau eu canslo. Canslwyd llawdriniaethau am na allai'r staff gyrraedd y gwaith neu am na allai cleifion unigol gyrraedd yr ysbyty. Nid oedd pobl yn deall bod yn rhaid i 80 y cant o staff yr NHS fod yn y gwaith er mwyn iddo weithredu'n normal. Nid dim ond meddygon, llawfeddygon a nyrsys theatr sydd yn gorfod bod yn bresennol ar gyfer llawdriniaeth, fel arall mae'r ysbyty yn peidio â gweithredu o safbwynt gwneud unrhyw waith newydd. Yr oedd yn anodd cyfleu'r pwynt hwnnw.

Soniodd Kirsty hefyd am ddynodi gorsafoedd petrol. Am fod hyn oll yn newydd inni, yr oedd yn anodd i'r cwmnïau olew roi gwybod i'r Adran Masnach a Diwydiant pa orsafoedd petrol yr oeddent am eu dynodi fel y rhai lle y gallai defnyddwyr hanfodol, fel nyrsys ardal, gael cyflenwadau petrol. Mewn un neu ddau achos rhoesant yr wybodaeth anghywir, er enghraifft pan gyfeiriasant at orsaf yn Ynys Môn a oedd wedi cau ers saith mlynedd. Nid y Llywodraeth sydd ar fai. Ni wyddom am y gwahanol orsafoedd petrol. Os yw gorsaf wedi cau ond ei bod ar lyfrau'r cwmni olew o hyd, ni wn ble mae'r biliau wedi mynd am y saith neu wyth mlynedd diwethaf. Mae'n anodd, gan eich bod yn dibynnu ar y diwydiant am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â lleoliad ei orsafoedd petrol. Efallai mai hwnnw yw'r rheswm pam mai gorsafoedd bach yn hytrach na'r rhai mawr a gafodd eu dynodi pan ddechreuodd y cyflenwadau olew ddod trwodd unwaith eto.

Un o'n llwyddiannau oedd cynyddu nifer y gorsafoedd petrol ar y rhestr o orsafoedd

filling stations list from about 150 to 200. The DTI did not realise the distance between filling stations and between villages and communities in central Wales. The people in the DTI did not realise how many more filling stations are needed in a rural area to give the same amount of access as was available to them from the middle of London. I believe that many lessons have been learned, but that we can do much better next time. We will evaluate matters, and, if we draw up a report, it will be placed in the Library.

petrol a ddynodwyd o tua 150 i 200. Ni sylweddolai'r Adran Masnach a Diwydiant faint o bellter oedd rhwng gorsafoedd petrol a rhwng pentrefi a chymunedau yng nghanolbarth Cymru. Ni sylweddolai'r bobl yn yr Adran Masnach a Diwydiant bod angen cymaint mwy o orsafoedd petrol mewn ardal wledig i roi'r un cyfle i gael petrol ag a oedd ar gael iddynt yng nghanol Llundain. Credaf fod llawer o wersi wedi eu dysgu, ond gallwn wneud yn llawer gwell y tro nesaf. Byddwn yn gwerthuso'r materion, ac, os lluniwn adroddiad, caiff ei osod yn y Llyfrgell.

### Pwyntiau o Drefn Points of Order

**The Presiding Officer:** I have had indication of three points of order. It is always helpful if we receive advance warning of points of order. However, the first point of order from David Melding possibly relates to all of our Standing Orders.

**Y Llywydd:** Cefais rybudd am dri phwynt o drefn. Mae bob amser o gymorth os cawn rybudd ymlaen llaw o bwyntiau o drefn. Fodd bynnag, mae'r pwynt cyntaf o drefn gan David Melding yn ymwneud â'n holl Reolau Sefydlog o bosibl.

**David Melding:** Point of order. Presiding Officer, can you advise us on the validity of the title Deputy First Secretary? Such a post—whose holder would be the second most senior member of the administration—does not appear in Standing Orders.

**David Melding:** Pwynt o drefn. Lywydd, a allwch ein cynghori ynglŷn â dilysrwydd y teitl Dirprwy Brif Ysgrifennydd? Nid ymddengys swydd o'r fath—ei deiliad fyddai'r uwch aelod pwysicaf ond un yn y weinyddiaeth—yn y Rheolau Sefydlog.

The leader of the Liberal Democrats has reportedly negotiated a wide-ranging brief for the Deputy First Secretary, including the right to exercise the First Secretary's functions in times of absence or illness. As there is no reference to it in Standing Orders, how is the post of Deputy First Secretary to be held accountable? Will Assembly Members be able to question, in writing or orally, the Deputy First Secretary qua Deputy First Secretary? Or will we have to make do with questions to the Deputy First Secretary in his capacity as an Assembly Secretary with a subject portfolio?

Bu arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl pob sôn yn negodi briff eang i'r Dirprwy Brif Ysgrifennydd, gan gynnwys yr hawl i arfer swyddogaethau'r Prif Ysgrifennydd pan fydd yn absennol neu'n sâl. Gan nad oes unrhyw gyfeiriad ato yn y Rheolau Sefydlog, sut y gall swydd y Dirprwy Brif Ysgrifennydd fod yn atebol? A fydd Aelodau'r Cynulliad yn gallu holi, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, y Dirprwy Brif Ysgrifennydd fel y Dirprwy Brif Ysgrifennydd? Neu a fydd yn rhaid inni fodloni ar y cwestiynau i'r Dirprwy Brif Ysgrifennydd yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Cynulliad â chyfrifoldeb pwnc?

I realise that it may be the intention that the Deputy First Secretary just appears like a titular bishop without any substantial status in that function. However, if the post of

Sylweddolaf mai'r bwriad o bosibl yw y bydd y Dirprwy Brif Ysgrifennydd yn ymddangos fel esgob teitlog yn unig heb unrhyw statws sylweddol yn y swyddogaeth

Deputy First Secretary is to have substance, it surely needs to be underpinned in Standing Orders.

**The Presiding Officer:** I do not see anyone rising to help me from the Cabinet bench. My immediate response is to say that if this eventuality occurs, I assure you that there are people at this moment in the Presiding Office and the Cabinet Secretariat who are studying all the implications for Standing Orders. I assure you that any changes in the structure of the Government of Wales in this Assembly will be subject to the normal rigours of Standing Orders and to scrutiny. We may be moving into a new situation in terms of the construction of a Government from two parties rather than out of one, but that does not lessen the importance of maintaining the Assembly as the prime focus of our activities and as a location to which all Members of the Government of Wales—whatever their titles—must be responsible.

**Pauline Jarman:** Point of order. It relates to clarification on procedures. Members highlighted differences between the partnership agreement and 'Betterwales.com', which has been adopted by the Assembly following months of public consultation. The First Secretary was uncertain as to whether amendments need to be made to that document. Should that be the case, will those amendments be managed by the same democratic procedures so that everyone in Wales may be given the democratic right to influence policies in Wales in the spirit of true consultation?

**The First Secretary:** I am not sure whether that is a point of order. Many aspects of this issue are budget-related. I said earlier that the partnership arrangement builds on the content of 'Betterwales.com' and does not detract from it. One never says never in politics. I could be wrong about a minor detail. I am telling you the broad principle. If you think that you have found something, that is fine but it is not really a point of order. You should write to me. If it is a budgetary matter, Edwina will deal with it. If it is a policy matter, I will deal with it. I assure you

honno. Fodd bynnag, os bydd swydd y Dirprwy Brif Ysgrifennydd yn un sylweddol, onid oes rhaid ei hategu mewn Rheolau Sefydlog?

**Y Llywydd:** Ni welaf neb o fainc y Cabinet yn codi i'm helpu. Fy ymateb cyntaf yw dweud y gallaf eich sicrhau, os digwydd hyn, fod pobl yn Swyddfa'r Llywydd ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ar hyn o bryd yn ystyried yr holl oblygiadau ar gyfer y Rheolau Sefydlog. Gallaf eich sicrhau y caiff unrhyw newidiadau yn strwythur Llywodraeth Cymru yn y Cynulliad hwn eu hystyried yn fanwl yn erbyn y Rheolau Sefydlog yn ôl yr arfer a'u harchwilio. Efallai ein bod yn symud i mewn i sefyllfa newydd o ran ffurfio Llywodraeth gan ddwy blaidd yn hytrach nag un, ond bydd yr un mor bwysig sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i fod yn brif ganolbwynt i'n gweithgareddau ac yn lleoliad y mae'n rhaid i bob Aelod o Lywodraeth Cymru—beth bynnag fo eu teitlau—fod yn atebol iddo.

**Pauline Jarman:** Pwynt o drefn. Mae'n ymwneud ag eglurhad o'r gweithdrefnau. Nododd yr Aelodau wahaniaethau rhwng y cytundeb partneriaeth a 'Gwellcymru.com', a fabwysiadwyd gan y Cynulliad yn dilyn misoedd o ymgynghori â'r cyhoedd. Yr oedd y Prif Ysgrifennydd yn ansicr a oes angen gwneud newidiadau i'r ddogfen honno. Os bydd angen gwneud hynny, a gaiff y newidiadau hynny eu rheoli gan yr un gweithdrefnau democrataidd fel y caiff pawb yng Nghymru yr hawl ddemocrataidd i ddylanwadu ar bolisiâu yng Nghymru mewn gwir ysbryd ymgynghorol?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn siŵr ai pwynt o drefn yw hynny. Mae llawer o agweddau ar y mater hwn yn ymwneud â chyllideb. Dywedais gynt fod y trefniant partneriaeth yn adeiladu ar gynnwys 'Gwellcymru.com' ac nad yw'n amharu arno. Peidier byth â dweud byth mewn gwleidyddiaeth. Efallai fy mod yn anghywir ynglŷn â manylyn bach. Dywedaf wrthyhch am yr egwyddor gyffredinol. Os credwch eich bod wedi dod o hyd i rywbeth, mae hynny'n iawn ond nid pwynt o drefn ydyw mewn gwirionedd. Dylech ysgrifennu ataf.

that there is no attempt to take away from any of the agreed policies of this Assembly, which approve 'Betterwales.com'. That is my policy.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the First Secretary for his assistance. As far as the Office of the Presiding Officer is concerned, any amendments to any policy documents that have already been adopted by the Assembly will be subject to motions and amendments in a Plenary session in the normal way. Whether or not there are further consultations is a matter for the Government of Wales and not for me. In the spirit of open government, I am sure that any Government in this Assembly, be it a partnership government or any other kind, would want to ensure that there is full openness.

**Val Feld:** Point of order. I ask the Presiding Officer to reconsider the position of points of order during questions about statements. David Davies has just made a long statement on his political views without declaring an interest. My understanding is that he is a director of a haulage company run by his family. Much of what he said could be construed to have a certain amount of self-interest. I am concerned that, when I signalled to you, you said that these matters come at the end of questions. However, by that time, the discussion will be gone. If we are to try to take a hold on people's declaration of interest, we need to be able to do it at an appropriate time. If we do not, it will not do the reputation of the Assembly much good. Will you review that?

**David Davies:** Further to that point of order. I can clarify that point easily. When I was elected to the Assembly, I renounced all links with any previous company for which I worked. I have drawn no salaries from any of the companies since my election. I have experience of haulage companies having worked in the industry for 10 years. However, there is no reason for me to declare an interest. I understand the Member's

Os mai mater cyllidebol ydyw, bydd Edwina yn ymdrin ag ef. Os mai mater polisi ydyw, fi fydd yn ymdrin ag ef. Gallaf eich sicrhau nad oes unrhyw ymgais i amharu ar unrhyw un o bolisiau'r Cynulliad hwn y cytunwyd arnynt, sydd yn cymeradwyo 'Gwellcymru.com'. Dyna fy mholisi.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd am ei gymorth. Cyn belled ag y bo Swyddfa'r Llywydd yn y cwestiwn, bydd unrhyw newidiadau i unrhyw ddogfennau polisi a fabwysiadwyd eisoes gan y Cynulliad yn ddarostyngedig i gynigion a gwelliannau mewn Cyfarfod Llawn yn ôl yr arfer. Pa un a fydd ymgynghoriadau pellach yn fater i Lywodraeth Cymru ac nid i mi. Mewn ysbryd llywodraeth agored, yr wyf yn siŵr y byddai unrhyw Lywodraeth yn y Cynulliad hwn, boed yn llywodraeth bartneriaeth neu unrhyw fath arall o lywodraeth, am sicrhau ei bod yn gwbl agored.

**Val Feld:** Pwynt o drefn. Gofynnaf i'r Llywydd ailystyried safle pwyntiau o drefn yn ystod cwestiynau ar ddatganiadau. Mae David Davies newydd wneud datganiad hir ar ei farn wleidyddol heb ddatgan buddiant. Deallaf ei fod yn gyfarwyddwr cwmni cludo nwyddau a reolir gan ei deulu. Gellid dehongli bod llawer o'r hyn a ddywedodd yn cynnwys rhywfaint o hunan-fudd. Yr wyf yn pryderu, pan dynnais eich sylw, i chi ddweud bod y materion hyn yn dod ar ddiwedd y cwestiynau. Fodd bynnag, erbyn hynny, bydd y drafodaeth ar ben. Os ydym am geisio ystyried datganiad buddiant pobl, mae angen inni allu gwneud hynny ar yr adeg briodol. Os na wnawn hynny, ni fydd yn gwneud lles i enw'r Cynulliad. A wnewch adolygu hynny?

**David Davies:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn. Gallaf egluro'r pwynt hwnnw'n hawdd. Pan gefais fy ethol i'r Cynulliad, ymwrthodais â'r holl gysylltiadau ag unrhyw gwmni yr wyf wedi gweithio iddo gynt. Nid wyf wedi cael fy nhalu gan unrhyw un o'r cwmnïau ers imi gael fy ethol. Mae gennyf brofiad o gwmnïau cludo nwyddau ar ôl gweithio yn y diwydiant am 10 mlynedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm imi

concerns but it is unfortunate that, unlike many members of her own party, members of this party had real jobs in the real world before we were elected. As a result, when we speak on different issues, we have direct practical experience of them rather than the non-experience that is so commonplace on her side of the Chamber.

3:50 p.m.

**The Presiding Officer:** I am sorry that you spoilt, towards the end, what started as a clear statement. Members themselves are responsible for declarations of interest. If Members are in contravention of that, it is a standards matter.

On the matter of when I allow points of order, I have suffered lengthy points of order in another place and I am keen to ensure that they are raised in an orderly manner in the Assembly. I prefer to take them outwith the immediate business rather than have it interrupted and diverted as has often been the case in other places that I could mention. That will continue to be my practice until I am fully persuaded otherwise.

Alun Cairns has a point of order.

**Alun Cairns:** Thank you, First Secretary.

**The Presiding Officer:** I am the Presiding Officer, not the First Secretary.

**Alun Cairns:** Forgive me, I am somewhat confused by all the changes taking place in the pact at the moment.

I raise a point of order under Standing Order No. 6 relating to Assembly business. During the recess, the First Secretary made an announcement on BAE Systems based at Broughton. Although we welcome the contents of the speech, I disapprove of the fact that he made the announcement at the Labour Party conference and not in this Chamber. It would have been an important topic of discussion for the Economic

ddatgan buddiant. Deallaf bryderon yr Aelod ond mae'n anffodus, yn wahanol i lawer o aelodau o'i phlaid, bod gan aelodau o'r blaid hon swyddi go iawn yn y byd go iawn cyn cael ein hethol. O ganlyniad, pan siaradwn ar wahanol faterion, mae gennym brofiad ymarferol uniongyrchol ohonynt yn hytrach na'r diffyg profiad sydd mor gyffredin ar ei hochr hi o'r Siambr.

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf ichi ddifetha, tua'r diwedd, yr hyn a ddechreuodd fel datganiad eglur. Yr Aelodau eu hunain sydd yn gyfrifol o ran datgan eu buddiannau. Os bydd yr Aelodau'n mynd yn groes i hynny, mater yn ymwneud â safonau fydd hynny.

O ran y mater ynghylch pryd y byddaf yn caniatáu pwyntiau o drefn, dioddefais bwyntiau o drefn hirfaith mewn lle arall ac yr wyf yn awyddus i sicrhau y cânt eu codi mewn modd trefnus yn y Cynulliad. Gwell gennyf eu cymryd y tu allan i'r busnes o dan sylw yn hytrach na thorri ar ei draws a thynnu sylw oddi wrtho fel sydd wedi digwydd mewn manau eraill y gallwn eu crybwyll. Bydd hynny'n parhau i fod yn arfer gennyf nes y caf fy narbwylllo fel arall.

Mae gan Alun Cairns bwynt o drefn.

**Alun Cairns:** Diolch, Brif Ysgrifennydd.

**Y Llywydd:** Y Llywydd wyf fi, nid y Prif Ysgrifennydd.

**Alun Cairns:** Mae'n ddrwg gennyf, yr wyf yn drysu braidd ar ôl yr holl newidiadau sydd yn digwydd yn y cytundeb ar hyn o bryd.

Codaf bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 6 sydd yn ymwneud â busnes y Cynulliad. Yn ystod y toriad, gwnaeth y Prif Ysgrifennydd gyhoeddiad ar BAE Systems ym Mrychdyn. Er ein bod yn croesawu cynnwys yr araith, nid wyf yn cyd-fynd â'r ffaith iddo wneud y cyhoeddiad yng nghynhadledd y Blaid Lafur ac nid yn y Siambr hon. Byddai wedi bod yn bwnc trafod pwysig i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a



Development Committee and it would have raised many questions and statements in the Chamber. The First Secretary should have made that statement in this Chamber.

**The First Secretary:** I regret any perception that Alun may have of any discourtesy, either to him or to the Assembly as a whole. The background that he describes is accurate and I would have preferred to have reached a decision and to have announced it to the Assembly in the course of its business, but—and this is nothing to do with me—it so happens that the decision was made during the week in the run-up to the Labour Party conference. I had hoped to make the announcement in Cardiff or in Wales, but the company insisted that we finalise the decision at around 4.50 p.m. on Friday night. The company wanted time to arrange its communication channels and suggested that the announcement be made on Sunday. By pure coincidence, I was making my speech to the Labour Party conference on Sunday—*[Laughter.]* I said at the time that nobody would believe me, but it happens to be the truth. The announcement was not held back until Sunday at my behest. We reached the decision on the Friday and the company wanted a few days to sort out its communication channels. I cannot help that. I naturally took advantage of the kind offer from BAE Systems and I was told that I was to make my conference speech on the Sunday. That is the truth, although I realise it may take the next 73 and a half years for Alun Cairns to be persuaded of that.

**Ieuan Wyn Jones:** It will take longer than that for Rhodri to persuade other Assembly Members as well.

It was an important announcement on a matter that was carefully considered by this Assembly. In the past, you have made statements to the Assembly on the grant to BAE Systems when you were not in a position to do so. However, when the decision was made, you did not make a statement to the Assembly.

Presiding Officer, would it be appropriate to

byddai wedi codi llawer o gwestiynau a datganiadau yn y Siambr. Dylai'r Prif Ysgrifennydd fod wedi gwneud y datganiad hwnnw yn y Siambr hon.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n ddrwg gennyf os yw Alun yn teimlo imi fod yn anghwrtais, naill ai iddo ef neu'r Cynulliad cyfan. Mae'r cefndir a ddisgrifiodd yn gywir a byddai'n well gennyf pe byddwn wedi gwneud penderfyniad a'i gyhoeddi i'r Cynulliad yn ystod ei weithrediadau, ond—ac nid myfi sydd yn gyfrifol am hynny—fel y mae'n digwydd, gwnaethpwyd y penderfyniad hwn yn yr wythnos cyn cynhadledd y Blaid Lafur. Yr oeddwn wedi gobeithio gwneud cyhoeddiad yng Nghaerdydd neu yng Nghymru, ond mynnodd y cwmni ein bod yn gwneud y penderfyniad terfynol tua 4.50 p.m. nos Wener. Yr oedd y cwmni am gael amser i drefnu ei sianeli cyfathrebu gan awgrymu bod y cyhoeddiad yn cael ei wneud ddydd Sul. Fel cyd-ddigwyddiad llwyr, yr oeddwn yn gwneud fy araith i'r Blaid Lafur ddydd Sul—*[Chwerthin.]* Dywedais ar y pryd na fyddai neb yn fy nghredu, ond mae'n digwydd bod yn wir. Ni ohiriwyd y cyhoeddiad tan ddydd Sul ar fy nghais i. Gwnaethom benderfyniad ddydd Gwener ac yr oedd y cwmni am gael ychydig ddyddiau i drefnu ei sianeli cyfathrebu. Ni allaf wneud dim ynglŷn â hynny. Wrth gwrs, achubais ar y cyfle i dderbyn awgrym caredig BAE Systems a dywedwyd wrthyf fy mod yn gwneud fy araith i'r gynhadledd ddydd Sul. Dyna'r gwir, er fy mod yn sylweddoli y gallai gymryd y 73 mlynedd a hanner nesaf i ddarbwylo Alun Cairns o hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** Bydd yn cymryd mwy o amser na hynny i Rhodri ddarbwylo Aelodau eraill o'r Cynulliad hefyd.

Yr oedd yn gyhoeddiad pwysig ar fater a ystyriwyd yn ofalus gan y Cynulliad hwn. Yn y gorffennol, gwnaethoch ddatganiadau i'r Cynulliad ar y grant i BAE Systems pan nad oeddech mewn sefyllfa i wneud hynny. Fodd bynnag, pan wnaethpwyd y penderfyniad, ni wnaethoch ddatganiad i'r Cynulliad.

Lywydd, a fyddai'n briodol gofyn i'r Prif

ask the First Secretary, through you, to give the Assembly a report on the reasons why he made that decision so that it is on the record here and has not simply been used for party political purposes?

**The First Secretary:** Further to that point of order, will Ieuan accept that had we reached an agreement—since it involved both sides—and had I made an announcement on the Wednesday or Thursday, he would have accused me of trying to upstage the Plaid Cymru party conference, which was held on those days? I thought that we were close to making a decision on the Wednesday, then something went wrong on the Thursday, but the decision was finally made late on Friday. The company did not want the information to be released on Friday night, although rumours were obviously flying around, as I saw Ieuan giving a press conference in the Plaid Cymru party conference on Saturday morning.

When there is a two-handed negotiation, I cannot be responsible for the exact timing of decisions. It was not at my behest that the decision was announced on the Sunday. I am happy to go beyond that to comply with what Ieuan requested by making an announcement to the Assembly and putting it on the record, but I will not do so today.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the First Secretary for a vindication of the statement. The important principle is that statements should be made in the first instance to the Assembly whenever possible. It is not unusual for Ministers to make statements of policy at party conferences, whatever the motives may be. In this case, the First Secretary has made it clear that he intends to repeat the statement in the Chamber, so there will be an opportunity for the Assembly to ask questions.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I can say with confidence that my business statement will only be made to the Assembly and will not be made anywhere else. I start

Ysgrifennydd, drwyddoch chi, roi adroddiad i'r Cynulliad ar y rhesymau pam y gwnaeth y penderfyniad hwnnw er mwyn ei gofnodi yma ac fel nad yw ond wedi ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddia pleidiol?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, a fydd Ieuan yn derbyn inni lunio cytundeb—gan iddo gynnwys y naill ochr a'r llall—a phe bawn wedi gwneud cyhoeddiad ddydd Mercher neu ddydd Iau, byddai wedi fy nghyhuddo o geisio tynnu'r sylw oddi wrth gynhadledd Plaid Cymru, a gynhaliwyd ar y diwrnodau hynny? Credais ein bod yn nesáu at wneud penderfyniad ddydd Mercher, yna aeth rhywbeth o'i le ddydd Iau, ond gwnaethpwyd y penderfyniad yn y diwedd yn hwyr ddydd Gwener. Nid oedd y cwmni am i'r wybodaeth gael ei rhyddhau nos Wener, er bod sion ar led wrth reswm, gan imi weld Ieuan yn trefnu cynhadledd i'r wasg yng nghynhadledd Plaid Cymru fore Sadwrn.

Pan fydd dwy ochr yn negodi, ni allaf fod yn atebol am union amseru'r penderfyniadau. Nid ar fy nghais i y cyhoeddwyd y penderfyniad ddydd Sul. Bodlonaf fynd y tu hwnt i hynny er mwyn cydymffurfio â'r hyn a ofynnodd Ieuan drwy wneud cyhoeddiad i'r Cynulliad gan ei nodi ar y cofnod, ond ni wnaf hyn heddiw.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd am gyfiawnhad o'r datganiad. Yr egwyddor bwysig yw mai i'r Cynulliad y dylai datganiadau gael eu gwneud yn y lle cyntaf lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Nid yw'n anarferol i'r Gweinidogion wneud datganiadau ar bolisi mewn cynadleddau pleidiau, beth bynnag fo'r cymhelliad. Yn yr achos hwn, mae'r Prif Ysgrifennydd wedi nodi'n eglur ei fod yn bwriadu ail-adrodd y datganiad yn y Siambr, felly bydd cyfle i'r Cynulliad holi cwestiynau.

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Gallaf ddweud yn hyderus mai dim ond i'r Cynulliad y byddaf yn gwneud fy natganiad busnes i ac nid mewn unrhyw le arall.

by informing Members of changes to this week's business. I have withdrawn the Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2000 that were scheduled for consideration today, for the Assembly to further consult colleagues and lawyers in the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food and in the Scottish Parliament on the point raised by Friends of the Earth. I reported that to the Business Committee this morning. I intend to table these regulations as soon as possible—probably next week. On Thursday morning I shall seek to propose a procedural motion under Standing Order No. 6.16 to continue the comprehensive spending review debate, as requested by Assembly Members when we reconvened after the summer constituency weeks. To allow time for this debate, I have postponed the debate scheduled for Thursday on library policy. I have also informed the Business Committee this morning that there will be three Cabinet statements on Thursday. The First Secretary will be making two statements: the first on the Wales Millennium Centre and the second on the Arts Council for Wales. A statement by the Finance Secretary on asylum seekers will follow.

I now turn to the three-week period covered by the business statement. On Tuesday 17 October, there will be two minority party debates proposed by Plaid Cymru and the Liberal Democrats. On Thursday 19 October, there will be a motion to approve the local government commencement Order and a debate on the results of the consultation on the local government spending assessment formula. Business on Tuesday 24 October will include a Conservative minority party debate and a debate on the Care Standards Act 2000. This debate will provide an opportunity to discuss the new primary legislation that will give the National Assembly new statutory duties to regulate social and health care in Wales. On Thursday 16 October, there will be a motion to approve the Home Energy Efficiency Scheme (Wales) Regulations 2000, a motion to note the draft budget and a debate on the annual report of the Welsh administration ombudsman. On Tuesday 31 October, the Assembly will

Dechreuaf drwy hysbysu'r Aelodau o'r newidiadau i'r busnes yr wythnos hon. Tynnais Reoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000 a oedd i'w hystyried heddiw yn ôl, er mwyn i'r Cynulliad ymgynghori ymhellach gyda chydweithwyr a chyfreithwyr yn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a Senedd yr Alban ar y pwynt a gododd Cyfeillion y Ddaear. Nodais hynny i'r Pwyllgor Busnes y bore yma. Bwriadaf gyflwyno'r rheoliadau mor fuan â phosibl—yr wythnos nesaf fwy na thebyg. Fore dydd Iau byddaf yn ceisio cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.16 i barhau â'r ddatl ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, yn ôl cais Aelodau'r Cynulliad pan ddychwelsom ar ôl wythnosau etholaeth yr haf. Er mwyn caniatáu amser i'r ddatl hon, gohiriais y ddatl a drefnwyd ar gyfer Dydd Iau ar bolisiau ynglŷn â'r llyfrgell. Hysbysais y Pwyllgor Busnes y bore yma hefyd y bydd tri datganiad gan y Cabinet ddydd Iau. Bydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud dau ddatganiad: y datganiad cyntaf ar Ganolfan Mileniwm Cymru a'r ail ar Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd datganiad gan yr Ysgrifennydd Cyllid ar geiswyr lloches yn dilyn.

Trof yn awr at y cyfnod o dair wythnos a gwmpesir gan y datganiad busnes. Ddydd Mawrth 17 Hydref, bydd dwy ddatl plaid leiafrifol a gynigir gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ddydd Iau 19 Hydref, bydd cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn cychwyn llywodraeth leol a dadl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar fformwla asesu gwariant llywodraeth leol. Bydd y busnes ddydd Mawrth 24 Hydref yn cynnwys dadl plaid leiafrifol y Ceidwadwyr a dadl ar Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd y ddatl hon yn rhoi'r cyfle i drafod y ddeddfwriaeth sylfaenol newydd a fydd yn rhoi dyletswyddau statudol newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i reoleiddio gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru. Ddydd Iau 16 Hydref, bydd cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000, cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft a dadl ar adroddiad blynyddol ombwdsmon gweinyddiaeth Cymru. Ddydd Mawrth 31 Hydref, bydd y

consider the Audit Committee's 12-month report and the determination on Members' fees and allowances. Business on Thursday 2 November will include a debate on youth policy. I will also be scheduling a debate on the motion tabled by Brian Hancock under part 7 of Standing Order No. 22. Brian was successful in our version of the Private Member's Bill. Subject to the agreement of Plaid Cymru and Brian, I propose that that debate take place on 24 October. I will confirm that in my business statement next week.

On the advice of the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer has determined, in accordance with Standing Order No. 22.5, that the following items of subordinate legislation need not be referred to a Subject Committee: the Education (Exclusion from School) (Prescribed Periods) (Amendment) (Wales) Regulations 2000; the School Government (Terms of Reference) (Wales) Regulations; the National Health Service Bodies and Local Authorities Partnership Arrangements (Wales) 2000; the Health Act 1999 (Commencement No. 3) (Wales) Order 2000 and the Home Energy Efficiency Scheme (Wales) Regulations 2000. As previously, I will arrange for a copy of this statement to be put on the intranet and the internet later today.

**The Presiding Officer:** Are there any objections to the business statement?

**Nick Bourne:** Yes.

**The Presiding Officer:** Are there 10 objections? I see that there are. Under Standing Order No. 5.4, I will allow the Business Secretary to propose the business statement and I will then allow one Member from each group to respond before calling a vote.

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly adopts the business statement.*

4:00 p.m.

Cynulliad yn ystyried adroddiad 12 mis y Pwyllgor Archwilio a'r penderfyniad ynglŷn â ffioedd a lwfansau'r Aelodau. Ar ddydd Iau 2 Tachwedd bydd dadl ar bolisi ieuencid. Byddaf hefyd yn trefnu dadl ar y cynnig a gyflwynwyd gan Brian Hancock o dan ran 7 o Reol Sefydlog Rhif 22. Yr oedd Brian yn llwyddiannus o ran ein fersiwn o Fesur yr Aelod Preifat. Ar yr amod y bydd Plaid Cymru a Brian yn cytuno, cynigiau gynnaf y ddadl ar 24 Hydref. Cadarnhaf hynny yn fy natganiad busnes yr wythnos nesaf.

Yn dilyn cyngor y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, na fydd angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at Bwyllgor Pwnc: Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000; Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000; Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000; Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000 a'r Rheoliadau'r Cynlluniau Effeithiolrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000. Fel y nodwyd gynt, trefnaf i gopi o'r datganiad hwn gael ei roi ar y fewnwyd a'r rhyngwyd yn nes ymlaen heddiw.

**Y Llywydd:** A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes?

**Nick Bourne:** Oes.

**Y Llywydd:** A oes 10 gwrthwynebiad? Gwelaf fod. O dan Reol Sefydlog Rhif 5.4, caniataf i'r Trefnydd gynnig y datganiad busnes a wedyn caniataf i un Aelod o bob grŵp ymateb cyn cynnal pleidlais.

**Andrew Davies:** Cynigiau fod

*y Cynulliad yn mabwysiadu'r datganiad busnes.*

**The Presiding Officer:** I call Jocelyn Davies.

**Jocelyn Davies:** The objection came from the Conservatives.

**The Presiding Officer:** Then I call Nick Bourne.

**Kirsty Williams:** They do not have an objection.

**Nick Bourne:** We certainly do have an objection; we have many. I heard that business for today had been changed on the radio at 7 a.m., before the Business Committee had met. I also heard that it was an Assembly decision, which surprised me more than a little. I listened to what the Business Secretary had to say about listening to the Friends of the Earth's legal advice with incredulity. Its legal advice has never bothered you in the past, and it has been available for a long time. We all know why this has been shelved. It is because the Liberal Democrats were going to stick to their principles for once and vote against it, and you were going to be defeated. However, this has not got you off the hook, because Peter Black has already said that the Liberals will vote against it anyway, as has Mick Bates. Mick is not here to confirm that, but we know that the Liberals will vote against it anyway. It is not much of a coalition, is it? You might as well have gone ahead with the business. Is not the real reason that this has been dropped that you knew that you would not get it adopted today? This has nothing to do with Friends of the Earth. The suggestion that it has is amazing.

The other point, which could be cleared up quickly, is about the minority party debate. I trust that the Liberal Democrats' minority party debate will not go ahead unless the Builth Wells meeting votes against this deal. If it votes in favour, the Liberal Democrats are no longer a minority party, but part of the shabby and shoddy administration that we have to face every day.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Jocelyn Davies.

**Jocelyn Davies:** Oddi wrth y Ceidwadwyr y daeth y gwrthwynebiad.

**Y Llywydd:** Yna galwaf ar Nick Bourne.

**Kirsty Williams:** Nid oes ganddynt wrthwynebiad.

**Nick Bourne:** Yn sicr mae gennym wrthwynebiad; mae gennym lawer. Clywais fod y busnes heddiw wedi ei newid ar y radio am 7 a.m., cyn i'r Pwyllgor Busnes gyfarfod. Clywais hefyd mai penderfyniad y Cynulliad ydoedd, a oedd yn fy synnu braidd. Clywais yr hyn a ddywedodd y Trefnydd ynglŷn â gwrando ar gyngor cyfreithiol Cyfeillion y Ddaear heb fedru ei gredu. Nid ydych wedi rhoi sylw i'w gyngor cyfreithiol yn y gorffennol, ac mae wedi bod ar gael ers tro. Gwyddom oll pam eich bod wedi rhoi'r gorau iddo. Oherwydd bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn mynd i lynu at eu hegwyddorion am unwaith a phleidleisio yn ei erbyn, a'ch bod yn mynd i golli'r bleidlais. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arbed eich croen, gan fod Peter Black eisoes wedi dweud y bydd y Rhyddfrydwyr yn pleidleisio yn ei erbyn beth bynnag, fel y dywedodd Mick Bates. Nid yw Mick yn bresennol i gadarnhau hynny, ond gwyddom y bydd y Rhyddfrydwyr yn pleidleisio yn ei erbyn beth bynnag. Nid yw'n fawr o glymblaid, onid ydyw? Cystal â chi fod wedi mynd ymlaen â'r busnes. Onid y gwir reswm pam bod hynny wedi ei ddileu yw y gwyddech na fyddech yn llwyddo iddo gael ei fabwysiadu heddiw? Nid yw hyn a wnelo dim â Chyfeillion y Ddaear. Mae'r awgrym ei fod yn un rhyfeddol.

Mae'r pwynt arall, y gellid ei egluro'n hawdd, yn ymwneud â'r ddadl plaid leiafrifol. Hyderaf na fydd dadl plaid leiafrifol y Democratiaid Rhyddfrydol yn mynd rhagddi oni fydd y cyfarfod yn Llanfair ym Muallt yn pleidleisio yn erbyn y cynnig. Os bydd o'i blaid, ni fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn blaid leiafrifol bellach, ond yn rhan o'r weinyddiaeth ddilewyrch a di-

nod sydd yn rhaid inni ei hwynebu bob dydd.

**Elin Jones:** Mae Plaid Cymru hefyd yn gwrthwynebu penderfyniad y Llywodraeth heddiw i ohirio unwaith eto y bleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau hadau. Gwnaeth y Cynulliad hwn ddatganiad polisi unfrydol ym mis Mai ar gnydau a addaswyd yn enetig. Dylem fesur y rheoliadau a'u cymeradwyo neu eu gwrthod yn erbyn y datganiad polisi hwnnw. Dylai'r rheoliadau fod yn gydnaws â pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, maent yn bell o wneud hynny. Yn wir, mae'r rheoliadau yn caniatáu llawer mwy o hyblygrwydd ar gnydau a addaswyd yn enetig na gofynion yr Undeb Ewropeaidd. Fel y siaradwr cyntaf, nid wyf yn argyhoeddedig fod y rhesymau a roddwyd heddiw dros ohirio yn rhai dilys a digonol. Yn ôl Cyfeillion y Ddaear, nid oes cysylltiad diweddar wedi bod rhyngddo a'r Llywodraeth.

Yr wyf yn amheus, felly, a fydd y rheoliadau a fydd yn ôl ger ein bron, yr wythnos nesaf o bosibl, wedi'u newid mewn unrhyw ffordd. Ai'r unig beth a fydd wedi newid erbyn yr wythnos nesaf fydd y glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Llywodraeth?

Y prawf cyntaf ar deyrngarwch y Democratiaid Rhyddfrydol fydd pan gynhelir y bleidlais ar y rheoliadau hyn. Nid oeddynt yn barod i wynebu'r prawf hwnnw heddiw. A ddylai agenda'r Cynulliad Cenedlaethol—cwestiwn i chi, o bosibl, Lywydd yw hwn—gael ei lunio ar yr egwyddor o osgoi embaras i'r Democratiaid Rhyddfrydol?

**Jenny Randerson:** Setting aside the new Conservative-Plaid Cymru coalition, which clearly puts Plaid Cymru in the Conservative Party's pocket, will you confirm that there are currently four sets of legal advice on this matter, which set out at least two different opinions, and that not only the advice from the Office of the Counsel General—the National Assembly administration's lawyers, rather—but also, I gather, the Presiding Officer's legal advice, are similar. Friends of the Earth has a different opinion. Would you confirm that there is not one clear line in the

**Elin Jones:** Plaid Cymru also opposes the Government's decision today to once again defer the vote on approving the seeds regulations. This Assembly made a unanimous policy statement in May on genetically modified crops. We should measure and approve or reject the regulations against that policy statement. The regulations should conform to the National Assembly's policy. At the moment, they are far from doing so. Indeed, the regulations allow much more flexibility on genetically modified crops than the European Union's requirements. Like the first speaker, I am not convinced that the reasons given today for the deferment are valid and adequate. According to the Friends of the Earth, there has been no recent contact between it and the Government.

I am doubtful, therefore, as to whether the regulations that will come back before us, possibly next week, will have changed in any way. Will the only thing that will have changed by next week be the coalition between the Liberal Democrats and the Government?

The first test of the Liberal Democrats' loyalty will be when the vote is held on these regulations. They were not prepared to face that test today. Should the National Assembly's agenda—this is a question for you, perhaps, Presiding Officer—be drawn up on the principle of avoiding embarrassing the Liberal Democrats?

**Jenny Randerson:** Gan roi'r glymblaid newydd rhwng y Ceidwadwyr-Plaid Cymru o'r neilltu, sydd yn bendant yn rhoi Plaid Cymru ym mhoced y Blaid Geidwadol, a wnewch gadarnhau bod pedair set o gyngor cyfreithiol ar y mater hwn, sydd yn nodi o leiaf ddwy farn wahanol, a bod cyngor nid yn unig o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol—sef cyfreithwyr gweinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach—ond hefyd, yn ôl yr hyn a ddeallais, gyngor cyfreithiol y Llywydd, yn debyg. Mae gan Gyfeillion y Ddaear farn wahanol. A wnewch gadarnhau

legal advice at present? Would you also confirm what the timetable will need to be for the reintroduction of this?

**Andrew Davies:** It is unusual, considering that we have been discussing partnership agreements and coalition, that here we have the forces of conservatism united. I suspect that, just as in the Vale of Glamorgan, where Plaid Cymru is propping up a Tory administration in local government, we have here the forces of Conservatism in an unholy alliance.

I am pleased to see Nick sitting in his seat. I am glad that he has not been forced to sit in the milling area to watch our proceedings on a monitor. Some colleagues may not know that Nick was unfortunate enough to be snubbed by his party leader twice at its conference. [*Interruption.*]

**Jocelyn Davies:** At least he was there. [*Laughter.*]

**Andrew Davies:** I was there.

To paraphrase Oscar Wilde—to be snubbed by your party leader once may be unfortunate; to be snubbed twice shows remarkably good judgment on behalf of your party leader.

I reported my intentions in terms of scheduling business to the Business Committee this morning, which was the first time I had discussed it with anybody. I do not know how the information reached the news programmes; it certainly did not come from me. In terms of the minority party debate, as I said in the Business Committee this morning, depending on the vote of the Liberal Democrats at their special conference at the weekend, the result of their debate may determine whether the debate is tabled next week. I am sure that your business manager will have told you what I said this morning.

I agreed to return to Elin's point about legislation, and I give the same commitment to Jenny. In my business statement I said that

nad oes un ddadl eglur yn y cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd? A wnewch hefyd gadarnhau beth fyddai'r amserlen ar gyfer ailgyflwyno hyn?

**Andrew Davies:** Mae'n anarferol, o ystyried inni drafod cytundebau partneriaeth a chlymblaid, bod gennym rymoedd ceidwadaeth yn gytûn. Yr wyf yn amau, yn union fel ym Mro Morgannwg, lle mae Plaid Cymru yn cynnal gweinyddiaeth Dorïaidd mewn llywodraeth leol, bod gennym rymoedd Ceidwadaeth yma mewn cyngair anfad.

Mae'n dda gennyf weld bod Nick yn eistedd yn ei sedd. Yr wyf yn falch na chafodd ei orfodi i eistedd yn y man ymgynnull er mwyn gwyllo ein trafodion ar fonitor. Efallai nad yw rhai cyd-Aelodau yn gwybod i Nick fod mor anffodus â chael ei sennu ddwywaith gan arweinydd ei blaid yn ystod y gynhadledd. [*Torri ar draws.*]

**Jocelyn Davies:** O leiaf yr oedd yno. [*Chwerthin.*]

**Andrew Davies:** Yr oeddwn innau yno.

Gan aralleirio Oscar Wilde—gall cael eich sennu unwaith gan arweinydd eich plaid fod yn anffodus, ond mae cael eich sennu ddwywaith yn dangos doethineb hynod ar ran arweinydd eich plaid.

Nodais fy mwriad o ran trefnu'r busnes i'r Pwyllgor Busnes y bore yma, sef yr adeg gyntaf imi ei drafod ag unrhyw un. Ni wn sut y cyrhaeddodd yr wybodaeth y rhaglenni newyddion; yn sicr nid myfi a oedd yn gyfrifol am hynny. O ran y ddadl plaid leiafrifol, fel y dywedais yn y Pwyllgor Busnes y bore yma, gan ddibynnu ar bleidlais y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu cynhadledd arbennig dros y penwythnos, efallai y bydd canlyniad eu dadl yn pennu a gaiff y ddadl ei chyflwyno yr wythnos nesaf. Yr wyf yn siŵr i'ch trefnydd ddweud wrthyfch am yr hyn a ddywedais y bore yma.

Cytunais ddychwelyd at bwynt Elin ynglŷn â'r ddeddfwriaeth, a rhoddaf yr un ymrwymiad i Jenny. Yn fy natganiad busnes,

I would reschedule it at the earliest possible opportunity, provided that we are able to resolve the complex legal issues, in which my colleague, Carwyn Jones, has been involved. If those can be resolved with MAFF and our Scottish parliamentary colleagues, I will do so at the earliest opportunity, and if possible, during Plenary next Tuesday or Thursday.

dywedais y byddwn yn ei aildrefnu ar y cyfle cyntaf posibl, ar yr amod y gallwn ddatrys y materion cyfreithiol cymhleth, y mae fy nghyd-aelod Cabinet, Carwyn Jones, wedi bod yn ymwneud â hwy. Os gellid datrys y rhain gyda'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'n cyd-aelodau yn Senedd yr Alban, gwnaf hynny ar y cyfle cyntaf posibl, ac os bydd modd, yn ystod y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth neu ddydd Iau nesaf.

*Cynnig: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 22.*

*Motion: For 31, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Jane Davidson  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Graham, William  
Hancock, Brian  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pwynt o drefn. Hoffwn glywed gennych ai cyfle yw'r datganiad busnes i'r Trefnydd ymateb i gwestiynau sydd yn codi, ynteu i wneud

**Rhodri Glyn Thomas:** Point of order. I would like to hear from you whether the business statement is an opportunity for the Business Secretary to respond to questions



araith gynadleddol. Dywedodd iddo fynychu cynhadledd ei blaidd ond efallai na chafodd gyfle i wneud araiith, felly gwnaeth hynny yn y Cynulliad yn lle. Ai dyna yw pwrpas y datganiad busnes?

**Y Llywydd:** Wrth ymateb i'r hyn nad oedd mewn gwirionedd yn bwynt o drefn, tynnaf sylw Rhodri Glyn at Reolau Sefydlog Rhifau 5.3, 5.4 a 5.4A—yr wyf yn sicr bod copi o'i flaen—sydd yn ymwneud â'r datganiad busnes. Mae dau ddull o drin y datganiad busnes. Yn gyntaf, gellir gwrthod y datganiad busnes, fel a ddigwyddodd heddiw. Yn y sefyllfa honno, mae gan y Trefnydd yr hawl i ymateb i ddadl fer a chryno, gyda chynrychiolydd o'r pedair plaid. Yn ail, pan na cheir gwrthwynebiad, caiff y Trefnydd gyfle i ateb cwestiynau. Yr oedd y Trefnydd yn gywir—materion iddo yntau, nid y Gadair, yw cynnwys ei areithiau a safon ei jôcs. Yr oedd y Trefnydd mewn trefn yn ystod y broses a ddigwyddodd.

asked, or to make a conference speech. He said that he attended his party's conference, but perhaps he did not have an opportunity to make a speech, therefore he has done so in the Assembly instead. Is that the purpose of the business statement?

**The Presiding Officer:** In responding to what was not in effect a point of order, I draw Rhodri Glyn's attention to Standing Orders Nos. 5.3, 5.4 and 5.4A—I am sure he has a copy in front of him—which relate to the business statement. There are two methods for dealing with the business statement. First, the business statement can be rejected, as happened today. In that situation, the Business Secretary has the right to respond to a short and concise debate with representatives from the four parties. Secondly, when there is no objection to the business statement, the Business Secretary has the opportunity to answer questions. The Business Secretary was right—the contents of his speeches and the standard of his jokes are matters for him, not the Chair. The Business Secretary was in order during the process that occurred.

4:10 p.m.

### **Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog Changes to Standing Orders**

**Y Llywydd:** Atgoffaf Aelodau fod rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

**The Presiding Officer:** I remind Members that we must have a two-thirds majority in order to approve the changes to Standing Orders.

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I propose that

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigaf fod

*the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26:*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 26:*

*i. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 3 October 2000;*

*i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;*

*ii. approves the following revision to the Standing Orders;*

*ii. yn cymeradwyo'r gwelliant canlynol i'r Rheolau Sefydlog;*

*iii. resolves that the revision shall take effect*

*iii. yn penderfynu bod y gwelliant yn dod i*

*immediately.*

*rym ar unwaith.*

**Standing Order No. 6.5**

**Rheol Sefydlog Rhif 6.5**

*At the end, following 'reports submitted by committees', add*

*Ar y diwedd, ar ôl 'adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc', ychwaneger*

*Motions proposing debates on reports submitted by subject committees may not be amended.*

*Ni chaniateir i gynigion sy'n cynnig dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc gael eu gwella.*

I propose that

Cynigiau fod

*the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26:*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 26:*

*i. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 3 October 2000;*

*i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;*

*ii. approves the following revisions to the Standing Orders;*

*ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;*

*iii. resolves that the revisions shall take effect immediately.*

*iii. yn penderfynu bod y gwelliannau yn dod i rym ar unwaith.*

**Standing Order No. 6.37**

**Rheol Sefydlog Rhif 6.37**

*Delete ii and insert*

*Dileer ii gan fewnosod*

*(ii) An Assembly Secretary, or a Member nominated by the Assembly Secretary with the prior consent of the Presiding Officer, will respond; and.*

*(ii) Bydd Ysgrifennydd Cynulliad, neu Aelod a enwebir gan Ysgrifennydd Cynulliad, gyda chydsyniad y Llywydd ymlaen llaw, yn ymateb; a.*

**Standing Order No. 22.58**

**Rheol Sefydlog Rhif 22.58**

*Delete the final sentence, commencing 'Such an application...'*

*Dileer y frawddeg derfynol, yn dechrau 'Bydd y cyfryw gais...'*

I propose that

Cynigiau fod

*the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26:*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 26:*

*i. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 3 October 2000;*

*i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;*

*ii. approves the following revisions to the Standing Orders;*

*ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;*

iii. resolves that the revisions shall take effect immediately.

iii. yn penderfynu bod y gwelliannau yn dod i rym ar unwaith.

***New Standing Order No. 28***

***Rheol Sefydlog Newydd Rhif 28***

***The House Committee***

***Pwyllgor y Tŷ***

*Title and Terms of Reference*

*Teitl a Chylch Gwaith*

28.1 *There shall be a House Committee which shall provide advice to the Presiding Officer, the Assembly and the Clerk on:*

28.1 *Bydd yna Bwyllgor Tŷ a fydd yn rhoi cyngor i'r Llywydd, y Cynulliad a'r Clerc ar y canlynol:*

*a. the administration of the Office of the Presiding Officer excluding the following matters relating to staff:*

*a. gweinyddu Swyddfa'r Llywydd heb gynnwys y materion canlynol sy'n ymwneud â'r staff:*

*i. their terms and conditions of service;*

*i. eu hamodau a'u telerau gwaith;*

*ii. their structure and management;*

*ii. eu strwythur a'u rheolaeth;*

*iii. arrangements made under section 63 of the Government of Wales Act 1998 for carrying out of the functions which have been delegated to staff;*

*iii. trefniadau a wneir o dan adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i'r staff;*

*b. the exercise of the functions of the Office of the Presiding Officer including the services, facilities and accommodation provided for Members, their support staff and the general public;*

*b. arfer swyddogaethau Swyddfa'r Llywydd gan gynnwys y gwasanaethau, y cyfleusterau a'r llety sy'n cael eu darparu ar gyfer yr Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd;*

*But excluding matters:*

*Ond heb gynnwys materion:*

*i. relating to the role of the Presiding Officer in deciding whether to refer a matter to the Committee on Standards;*

*i. sy'n ymwneud â swyddogaeth y Llywydd wrth benderfynu a ddylai mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau;*

*ii. relating to the conduct of plenary and committee sessions of the Assembly;*

*ii. sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Cynulliad;*

*iii. within the responsibility of the Business Committee;*

*iii. sydd o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes;*

*c. Members' salaries, allowances and pensions;*

*c. cyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau;*

*d. the contents of guidance to be published in relation to the matters set out at (a)-(c) above;*

*ch. cynnwys canllawiau sydd i'w cyhoeddi mewn perthynas â'r materion a nodir yn (a)-(c) uchod;*

*e. the budget of the Office of the Presiding*

*d. cyllideb Swyddfa'r Llywydd.*

*Officer.*

Membership

28.2. *The Assembly shall elect to the Committee one member from each political group in the Assembly, together with another member to chair it. If a member other than the Presiding Officer is elected to chair the Committee, the Presiding Officer shall be entitled to attend meetings of the Committee. If a member other than the Deputy Presiding Officer is elected to chair the Committee, the Deputy shall be entitled to attend meetings of the Committee.*

28.3. *A member of the Committee, having given advance notice to the Chair, may be represented at a meeting of the Committee by another Member nominated from the same political group to which that Member belongs. The nominated representative may participate in the meeting of the Committee as if the representative were a member of the Committee.*

28.4. *A member of the Committee may chair a meeting of the Committee in the absence of the Chair of the Committee. Such member shall be appointed by the Committee either at the meeting concerned or at a previous meeting.*

Meetings

28.5. *The Committee shall meet at least once in every four weeks that the Assembly meets in plenary, unless the Committee decides otherwise. The Committee may agree to hold additional meetings.*

28.6. *The Committee shall meet in private but the minutes of the meetings shall be published six weeks after each meeting.*

28.7. *A member of the Committee shall be nominated to answer questions for oral answers at a plenary meeting of the Assembly in accordance with paragraph 6.3(iv).*

**Standing Order No. 6: Assembly Business in Plenary Meetings**

Aelodaeth

28.2. *Bydd y Cynulliad yn ethol i'r Pwyllgor un aelod o bob grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad, ynghyd ag un aelod arall i'w gadeirio. Os caiff aelod heblaw'r Llywydd ei ethol i gadeirio'r Pwyllgor, bydd gan y Llywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Os caiff aelod heblaw'r Dirprwy Lywydd ei ethol i gadeirio'r Pwyllgor, bydd gan y Dirprwy Lywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.*

28.3. *Gall aelod o'r Pwyllgor, ar ôl rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gan Aelod arall a enwebir o blith yr un grŵp gwleidyddol y mae'r Aelod hwnnw'n perthyn iddo. Caiff yr Aelod a enwebir gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor.*

28.4. *Caiff aelod o'r Pwyllgor gadeirio un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn absenoldeb y Cadeirydd. Penodir yr aelod hwnnw gan y Pwyllgor naill ai yn y cyfarfod o dan sylw neu mewn cyfarfod blaenorol.*

Cyfarfodydd

28.5. *Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn, oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu fel arall. Caiff y Pwyllgor gytuno i gynnal cyfarfodydd ychwanegol.*

28.6. *Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifaf ond caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.*

28.7. *Enwebir aelod o'r Pwyllgor i ateb cwestiynau i'w hateb ar lafar yn un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad yn unol â pharagraff 6.3(iv).*

**Rheol Sefydlog Rhif 6: Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn**

**Paragraph 6.3 Insert new sub paragraph**  
*(iv) one Member of the House Committee to answer questions for oral answers at least once, and for at least 15 minutes, in every four weeks that the Assembly meets in plenary.*

**Add new paragraph 6.26A**

*6.26A Members may table questions for oral answer by a member of the House Committee about any matter coming within the remit of the Committee under Standing Order No. 28.*

**Paragraph 6.28**

*After 'to the First Secretary under paragraph 6.3(i),' insert 'or to a member of the House Committee under paragraph 6.3(iv),'.*

**Paragraph 6.30**

*In the second sentence, after 'Assembly Secretaries' insert 'and the member of the House Committee'.*

**Paragraph 6.31**

*At the end, insert 'This paragraph shall not apply to questions for oral answer by a member of the House Committee'.*

**Paragraph 6.33**

*At the end, insert 'or to the House Committee about matters relating to its responsibilities'.*

**Add new paragraph 6.34A**

*6.34(A) Members may table questions for written answer by the chair of the House Committee about any matter coming within the remit of the Committee under Standing Order No. 28.*

**Standing Order No. 8: Committees**

**Paragraph 8.25A**

*In the final sentence, after 'Subject Committees' replace 'and' with ',' and at the end of the paragraph insert, 'and the House Committee'.*

**Standing Order No. 19: Finance Procedures**

**Add new paragraph 19.00**

**Paragraff 6.3, mewnosoder is-baragraff newydd**

*(iv) i un Aelod o Bwyllgor y Tŷ ateb cwestiynau sydd i'w hateb ar lafar o leiaf unwaith, ac am o leiaf 15 munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn.*

**Ychwaneger paragraff 6.26A newydd**

*6.26A Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Tŷ ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog Rhif 28.*

**Paragraff 6.28**

*Ar ôl 'i'r Prif Ysgrifennydd o dan baragraff 6.3(i)' mewnosoder 'neu i aelod o Bwyllgor y Tŷ o dan baragraff 6.3(iv),'.*

**Paragraff 6.30**

*Yn yr ail frawddeg, ar ôl 'Ysgrifenyddion y Cynulliad' mewnosoder 'a'r aelod o Bwyllgor y Tŷ'.*

**Paragraff 6.31**

*Ar y diwedd, mewnosoder 'Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i gwestiynau sydd i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Tŷ'.*

**Paragraff 6.33**

*Ar y diwedd, mewnosoder 'neu i Bwyllgor y Tŷ ynghylch ei gyfrifoldebau yntau'.*

**Ychwaneger paragraff 6.34A newydd**

*6.34(A) Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau sydd i'w hateb yn ysgrifenedig gan gadeirydd Pwyllgor y Tŷ ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog Rhif 28.*

**Rheol Sefydlog Rhif 8: Pwyllgorau**

**Paragraff 8.25A**

*Yn y frawddeg olaf, ar ôl 'Y Pwyllgorau Pwnc' yn lle 'a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad' rhodder ', y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Phwyllgor y Tŷ'.*

**Rheol Sefydlog Rhif 19: Gweithdrefnau Cyllid**

**Ychwaneger paragraff 19.00 newydd**

**Determination of Budget for the Office of the Presiding Officer** **Penderfynu Cyllideb Swyddfa'r Llywydd**

19.00 In each financial year, no later than 20 September, the House Committee shall consider the budget for the Office of the Presiding Officer. Following discussion between the Presiding Officer, the Clerk and the Finance Secretary, a member of the House Committee shall table a draft budget for the Office of the Presiding Officer, no later than the 1 October. At the same time, the House Committee member shall table a motion that the draft budget be adopted. The draft budget should normally be for the following financial year and provisional allocations for the subsequent two years, or for a period which the Finance Secretary considers appropriate. The motion that the draft budget be adopted shall not be subject to amendment and shall be debated no later than 10 October. If the motion is adopted, that budget should then become the final budget for the Office of the Presiding Officer and shall be incorporated as such in the draft and final Assembly budgets.

**Paragraph 19.5 In-Year Adjustments of Assembly Budget**

Add new subtitle 'Changes to Main Expenditure Groups'.

At the start, insert 'Subject to the provisions of paragraph 19.5A,'.

**Add new paragraphs 19.5A and 19.5B**

19.5A Except in cases of urgency, any change in the course of a financial year in the level of resources allocated to the main expenditure group established for the Office of the Presiding Officer in the final budget adopted under paragraph 19.00 shall only be made on a motion proposed by a member of the House Committee. Any such motion shall not be subject to amendment. In cases of urgency, the Clerk may, subject to paragraph 19.5B, change the level of resources allocated to this expenditure group but, in such case, a member of the House Committee shall inform the Assembly as soon as reasonably practicable of the action taken.

19. 00 Ym mhob blwyddyn ariannol, erbyn 20 Medi fan bellaf, bydd Pwyllgor y Tŷ yn ystyried y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Yn sgil trafod rhwng y Llywydd, y Clerc a'r Ysgrifennydd Cyllid, bydd aelod o Bwyllgor y Tŷ yn gosod cyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, erbyn 1 Hydref fan bellaf. Ar yr un pryd, bydd yr aelod o Bwyllgor y Tŷ yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu. Dylai'r gyllideb ddrafft ymdrin fel rheol â'r flwyddyn ariannol ddilynol a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn, neu am gyfnod sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Cyllid. Ni fydd y cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu yn destun gwelliannau a rhaid ei ddadlau erbyn 10 Hydref fan bellaf. Os caiff y cynnig ei fabwysiadu, dylai'r gyllideb honno ddod yn gyllideb derfynol ar gyfer Swyddfa'r Llywydd a chaiff ei hymgorffori fel y cyfryw yng nghyllideb ddrafft a chyllideb derfynol y Cynulliad.

**Paragraff 19.5 Addasiadau i Gyllideb y Cynulliad yn ystod y Flwyddyn**

Ychwaneger is-deitl newydd 'Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant'.

Ar y dechrau, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 19.5A,'.

**Ychwaneger paragraffau 19.5A a 19.5B newydd**

19.5A Ac eithrio mewn achosion brys, dim ond drwy gynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y Tŷ y gwneir unrhyw newid yn ystod y flwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn y gyllideb derfynol a fabwysiadwyd o dan baragraff 19.00. Ni fydd unrhyw gynnig o'r fath yn destun gwelliannau. Mewn achosion brys, yn ddarostyngedig i baragraff 19.5B, caiff y Clerc newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r grŵp gwariant hwn ond, mewn achos o'r fath, bydd aelod o Bwyllgor y Tŷ yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am y camau a

*gymerwyd cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol.*

*19.5B Any change proposed by the Clerk in a financial year to the level of resources allocated to the main expenditure group established for the Office of the Presiding Officer shall first be discussed with the Presiding Officer and the House Committee and subsequently with the Assembly Secretary for Finance. Such discussions shall also take place before the Clerk, in cases or urgency, changes the level of resources allocated to this main expenditure group.*

**Paragraph 19.6**

*Add new subtitle 'Changes Within Main Expenditure Groups'.*

*At the start, insert 'Subject to the provisions in paragraph 19.7A,'.*

**Add new paragraph 19.7A**

*19.7A The provisions of paragraphs 19.6 and 19.7 shall not apply to the main expenditure group established for the Office of the Presiding Officer. In the course of a financial year, the Clerk to the Assembly, after consultation with the Presiding Officer and the House Committee and having notified the Assembly Secretary for Finance, may approve the transfer of resources within the main expenditure group established for the Office of the Presiding Officer, between and within financial allocations within the main expenditure group.*

**Add new paragraph 19.22**

*19.22 The provisions of paragraphs 19.13 to 19.21 shall apply to the authorisation by the Presiding Officer of a Notifiable Transaction with the substitution for references to 'an Assembly Secretary' of references to 'a member of the House Committee'.*

All members of the Business Committee recommend the proposed changes to the Standing Orders, with the single exception of the revision to Standing Order No. 6.5, to which I understand Plaid Cymru may object.

*19.5B Rhaid i unrhyw newid a gynigir gan y Clerc mewn blwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd gael ei drafod yn gyntaf gyda'r Llywydd a Phwyllgor y Tŷ ac wedyn gydag Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad. Rhaid cynnal trafodaethau o'r fath hefyd cyn i'r Clerc, mewn achosion brys, newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grŵp gwariant hwn.*

**Paragraff 19.6**

*Ychwaneger is-bennawd newydd 'Newidiadau o fewn y Prif Grwpiau Gwariant'.*

*Ar y dechrau, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ym mharagraff 19.7A,'*

**Ychwaneger paragraff 19.7A newydd**

*19.7A Ni fydd darpariaethau paragraffau 19.6 a 19.7 yn gymwys ar gyfer y prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Clerc y Cynulliad, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd a Phwyllgor y Tŷ, ac ar ôl hysbysu Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn y prif grŵp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, rhwng y dyraniadau ariannol o fewn y prif grŵp gwariant ac o'u mewn.*

**Ychwaneger paragraff 19.22 newydd**

*19.22 Bydd darpariaethau paragraffau 19.13 i 19.21 yn gymwys pan fydd y Llywydd yn awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, gan osod cyfeiriadau at 'aelod o Bwyllgor y Tŷ' yn lle cyfeiriadau at 'Ysgrifennydd Cynulliad'.*

Argymhell pob aelod o'r Pwyllgor Busnes y newidiadau a gynigir yn y Rheolau Sefydlog, ac eithrio diwygio Rheol Sefydlog Rhif 6.5, y deallaf y gallai Plaid Cymru ei wrthwynebu.

I begin with the first motion, which proposes changes to Standing Order No. 6.5. The Business Committee, with the exception of Jocelyn Davies, Plaid Cymru's business manager, recommends that motions proposing debates on reports submitted by Subject Committees may not be open to amendment. We feel that debates on Subject Committee reports are intended to allow the Assembly an opportunity to discuss and to scrutinise the work of the Subject Committees. The tabling of party political amendments is a distraction from the focus of the debate and, worse, they can undermine the cross-party trust and respect built up by Subject Committee members.

The second motion proposes changes to Standing Orders Nos. 6.37 and 22.58. First, I turn to Standing Order No. 6.37. Before the Assembly rose for the summer constituency weeks, there was an occasion when a Deputy Secretary responded to a short debate. This is not specifically provided for within Standing Orders. The Business Committee recommends that, with the agreement of the Presiding Officer, Deputy Secretaries should be allowed to respond to a short debate. The proposed revision to Standing Order No. 6.37 regularises this proposal.

Standing Order No. 22.58 relates to Part 7 of Standing Order No. 22, which is our equivalent of a Private Member's Bill. Experience has shown that the current requirement for a Member to indicate only the topic when entering the ballot does not significantly help in the identification of a legislative opportunity. The Business Committee recommends that this provision should be removed from the Standing Order.

I turn to the House Committee and the creation of a separate budget for the Office of the Presiding Officer. This entails a new Standing Order No. 28 and revisions to Standing Orders Nos. 6 and 19. The third motion proposes the creation of a formally constituted House Committee, provisions for a member of the new House Committee to answer oral questions and the creation of a separate budget for the Office of the Presiding Officer. The creation of a separate

Dechreuaf gyda'r cynnig cyntaf, sydd yn cynnig newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 6.5. Mae'r Pwyllgor Busnes, ac eithrio Jocelyn Davies, rheolwr busnes Plaid Cymru, yn argymhell na all cynigion sydd yn cynnig dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan Bwyllgorau Pwnc fod yn agored i gael eu diwygio. Teimlwn mai bwriad dadleuon ar adroddiadau Pwyllgorau Pwnc yw rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod ac archwilio gwaith y Pwyllgorau Pwnc. Mae cyflwyno gwelliannau pleidiol wleidyddol yn tynnu sylw oddi wrth bwyslais y ddadl ac, yn waeth, gallant danseilio'r ymddiriedaeth a'r parch traws-bleidiol a ddatblygwyd gan aelodau'r Pwyllgorau Pwnc.

Mae'r ail gynnig yn cynnig newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 6.37 a 22.58. Yn gyntaf, trof at Reol Sefydlog 6.37. Cyn i'r Cynulliad godi ar gyfer wythnosau etholaeth yr haf, yr oedd achlysur pan ymatebodd Dirprwy Ygrifennydd i ddadl fer. Nid oes darpariaeth benodol ar gyfer hyn o fewn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymhell y dylid caniatáu i Ddirprwy Ysgrifenyddion ymateb i ddadl fer, gyda chytundeb y Llywydd. Mae'r diwygiad a gynigir i Reol Sefydlog Rhif 6.37 yn rheoleiddio'r cynnig hwn.

Mae Rheol Sefydlog Rhif 22.58 yn ymwneud â Rhan 7 o Reol Sefydlog Rhif 22, sydd yn cyfateb â Mesur Aelod Preifat. Mae profiad wedi dangos nad yw'r gofyniad cyfredol bod Aelod ond yn nodi'r pwnc wrth bleidleisio yn helpu'n fawr i nodi cyfle deddfwriaethol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymhell y dylid dileu'r ddarpariaeth hon o'r Rheol Sefydlog.

Trof at Bwyllgor y Tŷ a chreu cyllideb ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Golyga hyn Reol Sefydlog Rhif 28 newydd a diwygiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 6 a 19. Mae'r trydydd cynnig yn cynnig creu Pwyllgor Tŷ a etholir yn ffurfiol, darpariaethau er mwyn i aelod o'r Pwyllgor Tŷ newydd ateb cwestiynau ar lafar a chreu cyllideb ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Bydd creu cyllideb ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn ffurfioli



budget for the Office of the Presiding Officer will formalise greater independence of the Presiding Officer and his office. The budget for the Office of the Presiding Officer will be subject to discussion between the Presiding Officer, the Clerk, the Assembly and my colleague, the Finance Secretary. A member of the House Committee will table the draft budget and a motion to approve the budget no later than 1 October each year. Following approval, the draft budget will become the final budget of the Office of the Presiding Officer and shall be incorporated as such in the draft and final Assembly budgets. My colleague, the Finance Secretary, will expand on the detail during the debate on the budget of the Office of the Presiding Officer later this afternoon. These changes comprise a new Standing Order No. 28 and amendments to Standing Orders Nos. 6 and 19. All parties endorse these changes.

**Jocelyn Davies:** Plaid Cymru opposes these changes to Standing Order No. 6.5—I understand that colleagues might want to comment on the other changes—for a number of reasons. Due to lack of time, I will only outline one. These changes prevent anyone from amending motions that note Subject Committee reports. Those reports always remain intact and are then altered. It is now possible only to amend the motion, and this change would remove that right. Why would anyone want to amend the motion? The Government of Wales Act 1998 makes allowances for the election of independent Members or for Members becoming independent once they are here. I can imagine someone being elected from an ethnic minority on a regional basis. Our Standing Orders would prevent them from taking part in any policy development. They could not sit on Subject Committees or on cross-cutting Committees or on the Business Committee. They could only sit on Regional Committees. They would have no opportunity for a minority party debate and they could not comment on the business statement. That is undemocratic and unfair. Any amendment proposed in this way would have to find favour with the majority of Assembly Members before it was passed. Until there is a mechanism to allow smaller

annibyniaeth fwy y Llywydd a'i swyddfa. Bydd cyllideb Swyddfa'r Llywydd yn destun trafodaeth rhwng y Llywydd, y Clerc, y Cynulliad a'm cyd-Aelod, yr Ysgrifennydd Cyllid. Bydd aelod o'r Pwyllgor Tŷ yn cyflwyno'r gyllideb ddrafft a chynnig i gymeradwyo'r gyllideb erbyn 1 Hydref bob blwyddyn fan bellaf. Ar ôl cael ei chymeradwyo, y gyllideb ddrafft fydd cyllideb derfynol Swyddfa'r Llywydd a chaiff ei hymgorffori fel hyn yng nghyllidebau drafft a therfynol y Cynulliad. Bydd fy nghyd-Aelod, yr Ysgrifennydd Cyllid, yn ymhelaethu ar y manylion yn ystod y ddadl ar gyllideb Swyddfa'r Llywydd yn hwyrach y prynhawn yma. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys Rheol Sefydlog Rhif 28 newydd a gwelliannau i Reolau Sefydlog Rhifau 6 a 19. Mae pob plaid yn cymeradwyo'r newidiadau hyn.

**Jocelyn Davies:** Gwrthwyneba Plaid Cymru y newidiadau hyn i Reol Sefydlog Rhif 6.4—deallaf ei bod yn bosibl y bydd fy nghyd-Aelodau am roi sylwadau ar y newidiadau eraill—am nifer o resymau. Oherwydd diffyg amser, dim ond un y byddaf yn ei amlinellu. Rhwystra'r newidiadau hyn unrhyw un rhag diwygio cynigion sydd yn nodi adroddiadau'r Pwyllgorau Pwnc. Erys yr adroddiadau hynny yn gyfan drwy'r amser ac wedyn cânt eu newid. Dim ond diwygio'r cynnig sydd yn bosibl bellach, a byddai'r newid hwn yn dileu'r hawl honno. Pam y byddai unrhyw un am ddiwygio'r cynnig? Mae Deddf Llywodraeth 1998 yn caniatáu ar gyfer ethol Aelodau annibynnol neu fod Aelodau yn dod yn annibynnol unwaith y byddant yma. Gallaf ddychmygu rhywun yn cael ei ethol o leiafrif ethnig yn rhanbarthol. Byddai ein Rheolau Sefydlog yn eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn unrhyw waith datblygu polisi. Ni allent eistedd ar Bwyllgorau Pwnc nac ar Bwyllgorau trawsbynciol nac ar y Pwyllgor Busnes. Dim ond ar Bwyllgorau Rhanbarth y gallent eistedd. Ni fyddai cyfle ganddynt gael dadl plaid leiafrifol a ni allent roi sylwadau ar y datganiad busnes. Nid yw hynny'n ddemocrataidd nac yn deg. Byddai'n rhaid i fwyafrif Aelodau'r Cynulliad fod o blaid unrhyw welliant a gynigir yn y modd hwn cyn iddo gael ei gymeradwyo. Nes bod

parties of less than three Members, or independent Members, the opportunity to engage in policy development, we will oppose this change.

**David Melding:** I have some reservations about the amendment to Standing Order No. 6.37. The way it is worded, the Assembly Secretary could nominate any Assembly Member to respond to a short debate. Will your consent, which is referred to in this sentence, be exercised to mean always the Deputy Assembly Secretary? I am concerned that Deputy Assembly Secretaries still have not been written into Standing Orders, therefore we have no real status for that office. That is regrettable. If we need Deputy Assembly Secretaries, there should be some reference to them in the Standing Orders. Finally, I will vote against this measure in any event because it further undermines the status of short debates, which were fatally wounded last year when we removed the requirement for a vote after their completion.

**Jenny Randerson:** As you know, the Liberal Democrats strongly opposed the removal of the requirement for a vote after short debates, but I do not recall us getting much support. [CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: 'We supported that.'] I meant overall.

I want to mention two important issues about Standing Order No. 6.5. An independent Member has the right to sit on Committees. It is simply the case that the current independent Assembly Member does not sit on Committees. That does not mean that he does not have the right to do so. I do not know the Standing Orders off by heart, but I recall that there is one that states that the Business Secretary must endeavour to ensure that this happens. Therefore, it is wrong to confuse that with the question of the rights of independent Members, which, with all due respect, has not been raised before today. It could be that we need to look at the rights of independent Members, but let us not confuse that with the rights of Committees, particularly today when we are considering the possibility that there will be a majority

mecanwaith i ganiatáu i bleidiau llai o lai na thri Aelod, neu Aelodau annibynnol, gael y cyfle i ymwneud â datblygu polisi, gwrthwynebwn y newid hwn.

**David Melding:** Mae rhai amheuron gennyf am y gwelliant i Reol Sefydlog Rhif 6.37. Yn ôl y ffordd y mae wedi'i eirio, gallai'r Ysgrifennydd Cynulliad enwebu unrhyw Aelod o'r Cynulliad i ymateb i ddadl fer. A gaiff eich caniatâd, y cyfeirir ato yn y frawddeg hon, ei arfer bob tro i olygu Dirprwy Ysgrifennydd y Cynulliad? Yr wyf yn poeni nad yw Dirprwy Ysgrifennyddion y Cynulliad wedi'u cynnwys o hyd yn y Rheolau Sefydlog, ac felly nad oes gwir statws i'r swydd honno. Mae hwn yn destun gofid. Os oes angen Dirprwy Ysgrifennyddion Cynulliad, dylai'r Rheolau Sefydlog gyfeirio atynt. Yn olaf, pleidleisaf yn erbyn y mesur hwn beth bynnag am ei fod yn tansilio ymhellach statws y dadleuon byr, a niweidiwyd yn ddifrifol y llynedd pan ddileasom y gofyniad i gynnal pleidlais ar ôl iddynt ddod i ben.

**Jenny Randerson:** Fel y gwyddoch, gwrthwynebodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gryf ddileu'r gofyniad i gynnal pleidlais ar ddadleuon byr ond ni chofiaf inni gael llawer o gefnogaeth. [AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: 'Cefnogasom hynny.'] Ar y cyfan yr oeddwn yn ei olygu.

Dymunaf sôn am ddau fater pwysig ynglŷn â Rheol Sefydlog Rhif 6.5. Mae hawl gan Aelod annibynnol i eistedd ar Bwyllgorau. Y sefyllfa yw nad yw'r Aelod annibynnol cyfredol yn y Cynulliad yn eistedd ar y Pwyllgorau. Ni olyga hyn nad oes hawl ganddo i wneud hynny. Ni ddysgais y Rheolau Sefydlog ar fy nghof, ond cofiaf fod un yn nodi bod yn rhaid i'r Trefnydd geisio sicrhau y digwydd hyn. Felly, ni ddylid cymysgu rhwng hynny a mater hawliau Aelodau annibynnol, na chodwyd cyn heddiw, gyda phob dyledus barch. Gallai fod yn bosibl bod angen inni edrych ar hawliau Aelodau annibynnol, ond ni ddylem gymysgu hynny â hawliau'r Pwyllgorau, yn enwedig heddiw pan ystyriwn y posibilrwydd y bydd llywodraeth fwyafrifol yma. Ni ddylem wneud unrhywbeth i danseilio pwerau a

government here. We should do nothing to undermine the powers and the rights of Committees. What right do we as an Assembly have to fiddle with, and probably undermine, the impact of a report that is the work of a Committee. Committee members have the right to table a motion, to vote and to amend a report when it is presented to them in its draft stage. I hope that any report would reflect strongly held minority views on that Committee, but that is the Committee's business. If we started undermining the role of Committees, we would be changing the whole balance of the Assembly in terms of Committees' powers. I greatly regret that Plaid Cymru seem intent on undermining the role of Committees through this issue.

**Cynog Dafis:** Cefnogaf yr hyn a ddywedodd Jocelyn Davies ynglŷn â Rheol Sefydlog Rhif 6.5. Mae'n debyg mai blaenffrwyth y glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur yw ymdrech i fygur'r cyfle am drafodaeth lawn ar adroddiadau Pwyllgorau. Cofiaf y ddatl ar adroddiad y Pwyllgor Addysg Cyn-16, pan gyflwynodd Plaid Cymru welliant a ddrafftiwyd gennyf fi, yn tynnu sylw at rai o'r methiannau yn hanes y Pwyllgor ac, felly, yn ei adroddiad. Daethom dan lach pawb yn y Siambr am wneud y fath beth, er bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno gwelliant ar adeg arall i gynnig ar adroddiad y Pwyllgor Rhanbarth. Cofiaf inni gael dadl ar hynny. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Pwyllgor Pwnc a Phwyllgor Rhanbarth mewn perthynas â hyn. Nid wyf yn deall dadl Jenny Randerson fod galluogi Aelod y Cynulliad i gyflwyno gwelliant yn tanseilio pŵer neu ddylanwad y Pwyllgorau. Nid yw'n gwneud hynny. Yn y pen draw, y Cynulliad sydd yn penderfynu unrhyw bolisi. Mae hynny'n wir mewn perthynas ag adroddiadau Pwyllgorau. Mae'n hollol briodol fod y Cynulliad yn cael y cyfle i ddatgan ei farn ar adroddiad Pwyllgor yn ei hawl ei hunan.

4:20 p.m.

Dychwelaf at bwynt Jocelyn Davies. Yn y dyfodol, gall pleidiau neu unigolion fod heb gynrychiolaeth ar bob Pwyllgor. Beth bynnag

hawliau'r Pwyllgorau. Pa hawl sydd gennym fel Cynulliad i newid, a thanseilio mae'n debyg, effaith adroddiad sydd yn gynnrych gwaith Pwyllgor. Mae hawl gan aelodau'r Pwyllgorau i gyflwyno cynnig, pleidleisio a diwygio adroddiad pan y'i cyflwynir iddynt fel adroddiad drafft. Gobeithiaf y byddai unrhyw adroddiad yn adlewyrchu barnau lleiafrifol cryf rhai ar y Pwyllgor, ond busnes y Pwyllgor yw hynny. Pe byddwn yn dechrau tanseilio rôl y Pwyllgorau, byddem yn newid cydbwysedd cyfan y Cynulliad o ran pwerau'r Pwyllgorau. Mae'n ddrwg iawn gennyf fod Plaid Cymru fel petaent yn benderfynol o danseilio rôl y Pwyllgorau oherwydd y mater hwn.

**Cynog Dafis:** I support what Jocelyn Davies said about Standing Order No. 6.5. It seems that the first fruit of the coalition between the Liberal Democrats and the Labour Party is an attempt to stifle a full discussion about Committee reports. I remember the debate on the Pre-16 Education Committee report when Plaid Cymru tabled an amendment that I drafted, which drew attention to some of the deficiencies in the Committee's history and, therefore, in its report. We were criticised by everybody in the Chamber for trying to do such a thing, although the Liberal Democrats had submitted an amendment to a motion on the report of the Regional Committee at another time. I remember us debating that. There is no difference between a Regional Committee and a Subject Committee in relation to this. I do not understand Jenny Randerson's argument that enabling an Assembly Member to table an amendment undermines the power or influence of the Committees. It does not do that. At the end of the day, the Assembly decides any policy. That is true in relation to Committee reports. It is entirely appropriate that the Assembly has the opportunity to declare its opinion on the report in its own right.

To return to Jocelyn Davies's point. In the future, some parties or individual Members may not have representation on every

a ddywedwn am Reolau Sefydlog a hawl Aelodau annibynnol i eistedd ar unrhyw Bwyllgor, bydd Aelodau annibynnol na fyddant yn eistedd ar Bwyllgor penodol yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd grwpiau yn y Cynulliad hwn yn llai yn y dyfodol a dylai'r Democratiaid Rhyddfrydol gadw hynny mewn cof. Dylai'r Aelodau annibynnol sydd heb gynrychiolaeth ar Bwyllgorau gael y cyfle i ddatgan anffodlonrwydd ar adroddiad Pwyllgor neu ychwanegu at adroddiad. Mae cyflwyno gwelliant yn fodd o sicrhau cyfle i bobl i gymryd rhan mewn dadl. Onibai bod pobl yn cyflwyno gwelliant, nid oes sicrwydd y byddant yn medru cymryd rhan mewn dadl. Byddai newid y Rheolau Sefydlog yn rhwystro hynny. Dyna pam yr wyf finnau a Phlaid Cymru yn gwrthwynebu'r newid hwn.

**Huw Lewis:** Plaid Cymru's logic on this issue is tortured. It is distressing to hear it from Cynog. I expect it from some of his colleagues, but it is distressing to hear it from him. The key point is that the Subject Committees were intended to be part and parcel of the policy making engine room of this institution. They are hedged with guarantees and protections in the Standing Orders. We should be careful before we trample all over that kind of protection because, speaking for the Pre-16 Education Committee, valuable items of policy making and cross-party working happen all the time. We would like to jealously guard that. I well remember the wrecking amendment that Plaid Cymru tabled on our Committee report. For Cynog to say that a Committee should stand by to have the wording of its report saved from spelling mistakes and suchlike by Plaid Cymru or some other group in the Chamber is insulting and patronising. A Committee should be able to go about its business and present its report in a constructive way. That is what they were intended to do. I return to the point I made when this daft point was made by Plaid Cymru. If there was a majority government in this institution—and there may be—that would enable the Executive to trample all over what the Subject Committee wishes to present to the Assembly as a whole. They

Committee. Whatever we say about Standing Orders and independent Members' rights to sit on any Committee, some independent Members will not be sitting on a specific Committee in the future. It is possible that groups in this Assembly will be smaller in the future than they are now and the Liberal Democrats should bear that in mind. Those independent Members who have no representation on the Committees should have the opportunity to declare their dissatisfaction with a Committee report or to add to a report. Tabling an amendment is a way of ensuring that people have the opportunity to participate in a debate. If people do not table an amendment, there is no certainty that they can participate in a debate. Amending the Standing Orders would prevent that. That is why Plaid Cymru and myself object to this change.

**Huw Lewis:** Mae rhesymeg Plaid Cymru ar y mater hwn yn anodd. Mae'n dorcalonnu clywed Cynog yn ei ddweud. Disgwyliaf i rai o'i gyd-Aelodau ei ddweud, ond mae'n dorcalonnu ei glywed ef yn ei ddweud. Y pwynt allweddol yw bod y Pwyllgorau Pwnc i fod yn rhan annatod o broses gwneud polisi'r sefydliad hwn. Caiff ei gwarantu a'i hamddiffyn yn y Rheolau Sefydlog. Dylem fod yn ofalus cyn inni sathru ar y math hwn o weithdrefnau amddiffyn oherwydd bod eitemau gwerthfawr o ran llunio polisi a gwaith trawsbleidiol yn digwydd drwy'r amser, gan siarad ar ran y Pwyllgor Addysg Cyn-16. Hoffem ddiogelu hynny yn ofalus. Cofiaf yn dda y gwelliant dinistriol a gyflwynwyd gan Plaid Cymru ar adroddiad ein Pwyllgor. Mae Cynog yn sarhaus ac yn nawddoglyd pan ddywed y dylai Pwyllgor sefyll o'r neilltu tra bod Plaid Cymru neu grŵp arall yn y Siambr yn cywiro gwallau sillafu neu wallau tebyg yn y ffordd y caiff ei adroddiad ei eirio. Dylai fod Pwyllgor yn gallu ymgymryd â'i fusnes a chyflwyno ei adroddiad mewn ffordd adeiladol. Hynny yw eu nod. Dychwelaf at y pwynt a wneuthum pan wnaethpwyd y pwynt twp hwn gan Plaid Cymru. Pe byddai llywodraeth fwyafrifol yn y sefydliad hwn—ac mae'n bosibl y bydd hynny'n digwydd—byddai hynny'n galluogi i'r Weithrediaeth sathru ar bopeth y mae'r Pwyllgor Pwnc yn dymuno ei gyflwyno i'r

could do whatever they wanted with it. They could turn the Subject Committee report inside out and upside down. This is extremely silly from Plaid Cymru and extraordinarily dangerous.

**Kirsty Williams:** As Chairman of one of the Subject Committees in question, I had the distasteful experience of presenting a Committee report, which I thought had the agreement of all parties and all Committee members. We had been through that report. Committee members had the opportunity in and outside the Committee to make amendments and to discuss any unhappiness with the report. It was distasteful and—as the Business Secretary said—it undermined the working and trusting relationship I thought I had with all the Committee members when the wrecking amendment and criticism of that report was presented in this Chamber. As Chair, I valuably guard the independence of that Committee and the opportunity that the Committee report gives to us to express the Committee's collective view of our work and our judgement on the Executive's work.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr wyf am symud y ddadl ymlaen drwy gyfeirio at y newidiadau eraill a gyflwynwyd gan y Trefnydd, yn arbennig y newidiadau i'r Pwyllgor Tŷ newydd ac i sicrhau annibyniaeth Swyddfa'r Llywydd.

Ar y gwelliant i Reol Sefydlog Rhif 6.5, mae'n bwysig inni sylweddoli bod newidiadau pellgyrhaeddol yma. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod eu pwysigrwydd yng nghyd-destun gweithgarwch y Cynulliad. Rhyfeddaf fod rhai o Aelodau'r Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi canolbwyntio ar un rhan gyfyng o'r drafodaeth yn hytrach na derbyn y bydd newid sylweddol wrth i Swyddfa'r Llywydd gael mwy o annibyniaeth dan y trefniadau newydd.

Mae hwn yn gam pwysig a sylweddol. Derbyniaf fod y newidiadau yn mynd cyn belled â phosibl tuag at sicrhau annibyniaeth Swyddfa'r Llywydd o fewn cyfyngiadau

Cynulliad cyfan. Gallent wneud beth bynnag y dymunent ei wneud â'r adroddiad. Gallent droi adroddiad y Pwyllgor Pwnc y tu chwith ac â'i wyneb i lawr. Mae sylwadau Plaid Cymru yn hynod o dwp ac yn hynod o beryglus.

**Kirsty Williams:** Fel Cadeirydd un o'r Pwyllgorau Pwnc o dan sylw, cefais y profiad erchyll o gyflwyno adroddiad Pwyllgor, y credais fod pob plaid a phob aelod Pwyllgor wedi cytuno arno. Yr oeddem wedi mynd drwy'r adroddiad. Cafodd aelodau Pwyllgor gyfle oddi mewn ac oddi allan i'r Pwyllgor i wneud gwelliannau ac i drafod unrhyw anfodlonrwydd â'r adroddiad. Bu'r gwelliant a beirniadaeth ddinistriol o'r adroddiad hwnnw a gyflwynwyd yn y Siambr hon yn erchyll ac—fel y dywedodd y Trefnydd—tanseiliodd y gydberthynas weithredol a ymddiriedus yr oeddwn yn credu yr oedd gennyf â phob aelod Pwyllgor. Fel y Cadeirydd, diogelaf yn frwd annibyniaeth y Pwyllgor hwnnw a'r cyfle a rydd adroddiad y Pwyllgor inni fynegi barn dorfol y Pwyllgor a'n barn ar waith y Weithrediaeth.

**Ieuan Wyn Jones:** I want to move the debate forward by referring to the other amendments introduced by the Business Secretary, specifically the changes to the new House Committee and to secure the independence of the Office of the Presiding Officer.

On the amendment to Standing Order No. 6.5, it is important that we realise that there are far-reaching changes here. It is important that we recognise their importance in the context of the Assembly's activity. I am astonished that some Labour and Liberal Democrat Members have concentrated on one small part of the discussion rather than accepting that there will be a significant change as the Office of the Presiding Officer obtains more independence under the new arrangements.

This is an important and significant step. I accept that the changes go as far as possible towards securing independence for the Office of the Presiding Officer within the

Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Rhaid inni dderbyn bod ymgais wedi bod i sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl, a bod hynny er lles pawb yn y Cynulliad y tu allan i'r Weithrediaeth. Mae hynny'n cynnwys Aelodau meinciau cefn Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a fydd yn parhau ar y meinciau cefn, a phawb arall yn y Cynulliad.

Mae hwn yn gam hanesyddol ymlaen a gwnaf bwynt gwleidyddol pleidiol wrth gloi, drwy fynegi'r gobaith y bydd hyn yn ffordd o berswadio'r Llywodraeth yn Llundain fod dyddiau'r corff corfforaethol ar ben.

**Andrew Davies:** I was surprised at the depth of feeling on changes to Standing Orders. I did not expect such passions to be aroused. I accept most of the points that have been made by colleagues. However, it is strange that Cynog and Ieuan seem to believe that this is something that the Labour Party and the Welsh Liberal Democrats have come up with. Three parties have agreed on Standing Order No. 6.5; it is only Plaid Cymru that has opposed it. It is strange that its Members portray themselves as the champions of the Subject Committee when, as Huw Lewis and Kirsty Williams eloquently pointed out, having amendments to motions on Subject Committee reports undermines the principle that it is for Subject Committees to determine their work programmes and the content of the reports that they present to Plenary.

The administration has always drawn a clear distinction between the role of the Executive and that of Subject Committees. That is why, when it comes to debating motions that call on Subject Committees to do x or y, we have always stuck to the principle that it is not for Plenary to instruct Subject Committees to do anything; the Committees themselves must determine their work. If Standing Order No. 6.5 is not adopted, Plenary will have control over the agenda of Subject Committees. Members must decide on that, but three parties have decided that that infringes on the principle that Subject Committees' work programmes and decisions are sacrosanct.

restrictions of the Government of Wales Act 1998. We must accept that there has been an attempt to ensure as much independence as possible, and that that is of benefit to everyone in the Assembly outwith the Executive. That includes Labour back-bench Members, the Liberal Democrats who will remain on the back benches, and everyone else in the Assembly.

This is an historical step forward and I will make a party political point in closing, by expressing the hope that this will be a way of persuading the Government in London that the days of the body corporate are over.

**Andrew Davies:** Rhyfeddais ar y dyfnder teimlad ynglŷn â newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Ni ddisgwyliwn y byddai'n ysgogi'r fath deimladau cryf. Derbyniaf y rhan fwyaf o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan fy nghyd-Aelodau. Fodd bynnag, mae'n rhyfedd bod Cynog a Ieuan fel petaent yn credu mai rhywbeth y mae'r Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru wedi'i greu yw hyn. Mae tair plaid wedi cytuno ar Reol Sefydlog Rhif 6.5; dim ond Plaid Cymru sydd wedi'i gwrthwynebu. Mae'n rhyfedd bod ei Haelodau yn portreadu eu hunain fel amddiffynwyr y Pwyllgorau Pwnc pan, fel y nododd Huw Lewis a Kirsty Williams yn huawdl, fo cynnig gwelliannau i gynigion ar adroddiadau Pwyllgorau Pwnc yn tanseilio'r egwyddor mai tasg y Pwyllgorau Pwnc yw pennu eu rhaglenni gwaith a chynnwys yr adroddiadau a gyflwynant i'r Cyfarfodydd Llawn.

Mae'r weinyddiaeth bob amser wedi gwahaniaethu'n amlwg rhwng rôl y Weithrediaeth a rôl y Pwyllgorau Pwnc. Dyna pam, wrth drafod cynigion sydd yn galw ar y Pwyllgorau Pwnc i wneud x neu y, ein bod bob amser wedi glynu at yr egwyddor na ddylai'r Cyfarfodydd Llawn gyfarwyddo'r Pwyllgorau Pwnc i wneud rhywbeth; rhaid i'r Pwyllgorau eu hunain benderfynu ar eu gwaith. Os na fabwsiedir Rheol Sefydlog Rhif 6.5, bydd y Cyfarfodydd Llawn yn rheoli agenda'r Pwyllgorau Pwnc. Rhaid i'r Aelodau benderfynu ar hynny, ond mae tair plaid wedi penderfynu bod hynny yn ymyrryd â'r

egwyddor bod rhaglenni gwaith a phenderfyniadau'r Pwyllgorau Pwnc yn gysegredig.

**Cynog Dafis:** Yr wyf am inni fod yn glir ynglŷn â hyn. Nid oes awgrym y dylai'r Cynulliad fod yn gallu penderfynu agenda Pwyllgorau. Nid yw agenda Pwyllgorau, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn cael ei phenderfynu yn eu hadroddiadau. Fodd bynnag, mae'n briodol bod gan y Cynulliad yr hawl i wneud sylw, drwy welliant, ar adroddiad Pwyllgor.

**Cynog Dafis:** I want us to be clear about this. There is no suggestion that the Assembly should be able to decide Committees' agendas. The agenda of Committees, as I understand, is not determined in their reports. However, it is appropriate that the Assembly has the right to comment, by amendment, on a Committee report.

**Andrew Davies:** To make such a distinction is sophistry. I am clear about this and three parties agree that it is not for Plenary to decide. You are splitting hairs.

**Andrew Davies:** Twyllresymeg yw gwneud gwahaniaeth o'r fath. Yr wyf yn glir am hyn ac mae tair plaid yn cytuno nad y Cyfarfodydd Llawn ddylai benderfynu ar hyn. Yr ydych yn hollti blew.

**Lorraine Barrett:** Do you agree that an amendment cannot be a comment? I thought that to amend something was to change something.

**Lorraine Barrett:** A gytunwch na all gwelliant fod yn sylw? Credais fod diwygio rhywbeth yn golygu newid rhywbeth.

**Andrew Davies:** Exactly.

**Andrew Davies:** Yn union.

I accept David Melding's views. However, I have difficulty with them because this is a result of extensive consultation within the political parties and those points were not raised through the Business Committee. I assumed that your points would have been raised through your business manager. Business Committee is a forum whereby, after consultation with Members and party groups, issues can be resolved. Had we received advance notice of these objections, we could have taken them on board.

Derbyniaf farn David Melding. Fodd bynnag, caf anhawster gyda hwy oherwydd bod hyn yn ganlyniad ymgynghori helaeth o fewn y pleidiau gwleidyddol ac na chodwyd y pwyntiau hynny drwy'r Pwyllgor Busnes. Cymerais y byddech wedi codi'ch pwyntiau drwy eich rheolwr busnes. Mae'r Pwyllgor Busnes yn fforwm lle gellir datrys materion, ar ôl ymgynghori â'r Aelodau a grwpiau'r pleidiau. Pe byddem wedi cael rhybudd am y gwrthwynebiadau hyn ymlaen llaw, gallem fod wedi eu hystyried.

4:30 p.m.

**Nick Bourne:** I understand your position and why you might feel that the Business Committee runs the Assembly's business. However, the Assembly, with the Clerk's indulgence, runs its own business. It is appropriate for Members to comment on business during Plenary, regardless of what is said in the Business Committee.

**Nick Bourne:** Deallaf eich sefyllfa a pham y gallech deimlo bod y Pwyllgor Busnes yn rhedeg busnes y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn rhedeg ei fusnes ei hun, gyda goddefgarwch y Clerc. Mae'n briodol i Aelodau wneud sylw ar fusnes yn ystod y Cyfarfodydd Llawn, waeth beth a ddywedir yn y Pwyllgor Busnes.

In relation to a comment you made earlier, I have received confirmation that the

Mewn perthynas â'ch sylw cynharach, derbyniais gadarnhad bod Swyddfa'r Wasg y

Assembly Press Office told the BBC before 7.30 a.m. today that the GM debate would be postponed. Perhaps you would like to comment on the fact that that was done by the administration's Press Office.

**Andrew Davies:** That is not relevant to the issue under discussion this afternoon.

The Business Committee does not run the Assembly's business; it manages the business so that wrangles over procedures and Standing Orders are kept to a minimum and that, as far as possible, we reach consensus. Therefore, people who watch our debates and procedures do not see us wrangling about Standing Orders. I am making a general point that the Business Committee is a forum through which we can manage some of these issues so that we do not wrangle over them in the Chamber as we are seen to be doing now.

